Adroddiad blynyddol

2019/20



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Cynnwys

Cipolwg ar y flwyddyn	4
Datganiad y Cadeirydd	6
Datganiad y Prif Weithredwr	8
Pwy ydyn ni a beth ydyn ni yn ei wneud	10
Gweithio gyda'n gilydd yn 2019/20	16
Canolbwyntio ar ein cwsmeriaid	20
Gweithio gyda'n rhanddeiliaid	22
Cyflawni ein hamcanion strategol	26
Edrych ymlaen - ein hamcanion strategol	44
Risg	52
Ein bwrdd	58
Pwyllgorau'r bwrdd	64
Datganiad cadernid	78
Datganiad llywodraethu corfforaethol	82
Adroddiad ar daliadau	88
Datganiadau ariannol	92
Nodiadau	108

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg ac mewn fformatau eraill.

Cipolwg ar y flwyddyn

Mae Cymru yn newid sy'n golygu bod angen i'n rhwydwaith trafnidiaeth newid hefyd.

Mae trafnidiaeth gyhoeddus well yn sail i dwf economaidd cynaliadwy ac mae hefyd yn cynnig manteision go iawn i bobl, gwella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth ac integreiddio cryfach o ran gwasanaethau addysg, iechyd a gwasanaethau eraill.

Mae popeth a wnawn yn cefnogi polisïau Llywodraeth Cymru ac mae'n cyd-fynd â Fframwaith polisi Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r nodau llesiant a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw effaith hirdymor Coronafeirws (COVID-19) yn wybyddus, ond byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'n partneriaid cyflenwi i sicrhau ein bod yn Cadw Cymru'n Ddiogel.

DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

Adeiladu TrC yn 2019/20

Mae ein rôl a'n cylch gwaith wrth Lywodraeth Cymru yn newid drwy'r amser a'n nod o hyd yw adeiladu rhwydwaith trafnidiaeth effeithiol a chynaliadwy sy'n symud pobl a nwyddau.

Gan weithio ar draws gwahanol ddulliau o drafnidiaeth, rydym wedi ymrwymo i ddarparu buddsoddiad cyhoeddus gyda phwrpas cymdeithasol ac rydym yn cyflwyno prosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl, busnesau a chymunedau Cymru.

Roedd ein diwylliant cryf, ein tîm galluog a'n partneriaethau clos yn hollbwysig i'n llwyddiannau yn ystod 2019/20 ac rydym wedi ymrwymo i adeiladu partneriaeth gymdeithasol effeithiol.

Gwariant 2019/20

£796miliwn
Cyfanswm y gwariant a ariennir gan grant (ac eithrio prosiectau a ariennir gan drydydd parti) sy'n cynnwys:

£581miliwn
Cyfanswm gwariant cyfalaf, gan gynnwys £516miliwn ar gaffael Llinellau Craidd y Cymoedd (gan gynnwys Treth Drafodiadau a chostau eraill)

£187miliwn
Cyllid ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, gan gynnwys £14miliwn o gyllid cyfalaf

£28miliwn
Gwariant ar weithredu prosiectau a gwasanaethau

Uchafbwyntiau 2019/20

Metro De Cymru

Ein llwyddiant pennaf yn ystod 2019/20 oedd trosglwyddo'n llwyddiannus seilwaith llinellau Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert, a elwir yn Llinellau Craidd y Cymoedd o Network Rail ym mis Mawrth 2020. Rydym bellach wedi dechrau trawsnewid y llinellau hyn i adeiladu Metro De Cymru.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Mae nifer o brosiectau ar gyfer Metro De Cymru wedi'u hariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru.

Llwyddiannau allweddol eraill:

Adeiladu Canolfan Reoli'r Metro

Dechreuwyd adeiladu ein Canolfan Reoli newydd ar gyfer y Metro, gwerth £100 miliwn, yn Ffynnon Taf - cyfleuster cynnal a chadw ar gyfer y trenau-tram newydd a chanolfan reoli ar gyfer Metro De Cymru.

Agor Hyb Seilwaith y Metro

Mae Hyb Seilwaith y Metro yn Nhrefforest, a agorwyd ym mis Ionawr 2020, yn gartref i tua 200 o gydweithwyr, a bydd yn chwarae rôl allweddol wrth gyflenwi a chynnal Metro De Cymru.

Arlwyo ar drenau

Mae TrC bellach yn rhedeg gwasanaethau arlwyo ar ein trenau yn uniongyrchol. Rydym wedi croesawu dros 100 o weithwyr i dîm TrC ac rydym wrthi'n gweithredu ein cynlluniau uchelgeisiol i ddarparu gwasanaeth dibynadwy gyda bwyd a diod lleol.

Cardiau newydd ar gyfer Teithio am Ddim ar Fysiau

Drwy gydweithio â holl awdurdodau lleol Cymru a Llywodraeth Cymru, dosbarthwyd dros 600,000 o Gardiau newydd ar gyfer Teithio am Ddim ar Fysiau.

Mwy o wasanaethau rheilffordd ar y Sul

Fe welodd ein hamserlen drenau ym mis Rhagfyr 2019 gynnydd o 40% yn y gwasanaethau rheilffordd ar y Sul, a llai o amser teithio rhwng Gogledd a De Cymru.

Ail-lansio gwasanaeth Wrecsam - Lerpwl

Ym mis Mai 2019, wrth agor Halton Curve, dechreuwyd rhedeg gwasanaethau rheilffordd uniongyrchol rhwng Gogledd Cymru a Lerpwl am y tro cyntaf ers 40 mlynedd.

Cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol

Mae dod yn Gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig yn 2019/20 yn golygu ein bod yn talu isafswm cyflog yr awr i bob gweithiwr cymwys - 13% yn uwch na'r isafswm cyflog cyfredol.

Buddsoddi yn nhalent y dyfodol

Yn 2019/20, croesawyd ein prentisiaid cyntaf a chefnogwyd Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol 2020.

Ein panel cynghori

Roedd sefydlu ein panel cynghori ym mis Mawrth 2020 yn ein galluogi i ymgysylltu'n rhagweithiol ac yn dryloyw gyda'n rhanddeiliaid ac i sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau yn dylanwadu ar ein gwaith.

Teithio llesol

Rydym yn cefnogi Llywodraeth Cymru i weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

Lleihau'r ymosodiadau ar ein trenau

Rydym wedi cyflwyno camerau corff, gan arwain at ostyngiad sylweddol yn yr achosion a gafodd eu riportio.

Cynaliadwyedd

Yn 2019/20, cyhoeddwyd ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy a'n Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth. Dyfarnwyd gwobr y Ddraig Werdd i ni hefyd.

Datganiad y Cadeirydd

Scott Waddington

"Cryfder ein Bwrdd, ymrwymiad ein partneriaid cyflenwi a doniau ein pobl sy'n gwneud TrC yr hyn ydyw heddiw."

Croeso i'n hadroddiad blynyddol ar gyfer 2019/20.

Dyma ein hail adroddiad blynyddol; mae hi wedi bod yn flwyddyn a hanner. Rydym yn gorffen y flwyddyn yng nghanol y pandemig Coronafeirws gyda'r holl heriau a ddaeth i'w ganlyn i'n cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid a'n pobl. Yn anochel, bydd hyn yn effeithio ar ein cynlluniau buddsoddi yn y dyfodol wrth i ni weithio gyda'n partneriaid lleol a mwy byd-eang i ddod dros y cyfnod eithriadol anodd hwn.

Fodd bynnag, dylem ddal i gydnabod y cynnydd gwych y mae TrC wedi'i wneud fel sefydliad ac mae'n glod i'n tîm bod cymaint o waith da i'w adrodd yn ystod 2019/20.

Fel corff cyflenwi trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, rydym yn gyfrifol am greu'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig sydd ei angen ar ein gwlad. Ein pwrpas yw darparu gwasanaethau trafnidiaeth cynaliadwy ar draws gwahanol ddulliau trafnidiaeth, darparu profiad di-dor i'n cwsmeriaid, cyfrannu at lwyddiant economi Cymru, gwella iechyd y cyhoedd ac ysgogi ffyniant economaidd i bawb.

Er bod TrC yn sefydliad cymharol ifanc, credaf fod y diwylliant sydd gennym ar waith wedi'i alinio'n agos at ein pwrpas, ein gwerthoedd a'n strategaeth. Ein pobl sydd wrth wraidd yr hyn a wnawn, ac mae'r ffaith bod ein diwylliant wedi'i wreiddio, yn gryf ac yn ymroddedig yn parhau i greu argraff arnaf.

Rydym yng nghanol rhaglen sylweddol o newid a buddsoddiad i sicrhau proses o newid gam wrth gam sylweddol yn ansawdd gwasanaeth rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Yn wir, ar 28 Mawrth 2020, cyrhaeddodd ein rhaglen drawsnewid garreg filltir allweddol gyda throsglwyddo llinellau Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert a elwir yn lleol yn Llinellau Craidd y Cymoedd, o Network Rail i Drafnidiaeth Cymru. Roedd hon yn dasg enfawr i ni a'n partneriaid ei chyflawni, a golyga bod rheilffyrdd a thrac bellach wedi'u hintegreiddio'n wirioneddol. Diolch i bawb sydd wedi gwneud hyn yn bosibl.

Mae Llinellau Craidd y Cymoedd yn rhan allweddol o Metro De Cymru felly rwy'n falch ei fod yn dechrau cymryd siâp. Agorodd ein Hyb Seilwaith Metro newydd yn Nhrefforest ym mis Ionawr 2020 ac mae'r gwaith adeiladu hefyd wedi dechrau ar ein Canolfan Reoli newydd ar gyfer y Metro yn Ffynnon Taf. Bydd y ddau yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflwyno Metro De Cymru.

Mewn cornel arall o Gymru, dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu gorsaf reilffordd newydd gwerth £8 miliwn yn Bow Street yng Ngheredigion. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i wella cysylltedd ledled Cymru gyda'r bwriad o agor yr orsaf newydd ddiwedd 2020 – dyma fydd y tro cyntaf i drenau stopio yn Bow Street ers 55 mlynedd.

Mae gan ein Bwrdd ran hanfodol i'w chwarae yn llwyddiant rhwydwaith trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol felly mae hi wedi bod yn bleser o'r mwyaf gallu croesawu cynrychiolydd undebau llafur i'n cyfarfodydd Bwrdd fel arsylwr, gan gynrychioli ein holl undebau cydnabyddedig fel rhan o'n hymrwymiad i adeiladu partneriaeth gymdeithasol effeithiol. Pleser hefyd yw gallu croesau Vernon Everitt, Rheolwr Gyfarwyddwr Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Thechnoleg Transport for London i'n Bwrdd.

Cryfder ein Bwrdd, ymrwymiad ein partneriaid cyflenwi, a doniau ein pobl sy'n gwneud TrC yr hyn ydyw heddiw. Rydym hefyd yn ffodus iawn bod gennym gefnogaeth barhaus Bwrdd Llywio Llywodraeth Cymru sy'n darparu arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol.

Ein tasg yw gwneud yr hyn sy'n iawn i Gymru. Mae TrC yn newid bywydau. Rydym yn gwella cysylltedd, yn meithrin ffyniant economaidd ac yn sbarduno datblygiad a thwf cynaliadwy. Gobeithiwn fod pobl Cymru yn falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yma ac yn falch o fod ar y daith hon gyda ni.

Datganiad y Prif Weithredwr

James Price

"Eleni, mae ein cylch gwaith sy'n ehangu wedi bod hyd yn oed yn fwy amlwg trwy brosiectau y gwnaethom eu rhoi ar waith ar draws amrywiaeth o ddulliau trafnidiaeth."

Mae ein gweledigaeth ar gyfer trafnidiaeth yn canolbwyntio ar bobl a chymunedau Cymru.

Mae ein rôl a'n cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru yn esblygu yn barhaus ac eisoes yn cynnwys mwy na rheilffyrdd. Eleni, mae ein cylch gwaith sy'n ehangu wedi bod hyd yn oed yn fwy amlwg trwy brosiectau y gwnaethom eu rhoi ar waith ar draws amrywiaeth o ddulliau trafnidiaeth. Enghraifft bwysig oedd cydweithio gyda phob un o awdurdodau lleol Cymru a Llywodraeth Cymru i roi ar waith yn llwyddiannus brosiect Cardiau Teithio Rhatach newydd i bron 600,000 o bobl ledled Cymru.

Fel rhan o'n rôl gynghorol gynyddol, mae ein huned dadansoddi trafnidiaeth fewnol yn gweithio'n galed i wella ansawdd a chysondeb y dystiolaeth sy'n sail i'r broses o wneud penderfyniadau a buddsoddiad trafnidiaeth yng Nghymru. Rydym hefyd wedi bod yn cefnogi Llywodraeth Cymru i weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae hynny'n golygu ein bod yn annog dull integredig o gerdded a beicio gyda phwrpas yn ogystal â defnyddio bysiau a threnau a rhannu ceir.

Mae ein hagenda reilffordd uchelgeisiol yn hynod bwysig, a dros y 12 mis diwethaf rydym wedi parhau i weithio'n galed i gyflawni gwelliannau ledled Cymru a'r Gororau trwy gynyddu capasiti a gwella dibynadwyedd ar draws ein rhwydwaith rheilffyrdd. Mae hyn yn cynnwys lansio'r gwasanaeth rheilffordd uniongyrchol cyntaf rhwng Gogledd Cymru a Lerpwl ers 40 mlynedd a darparu capasiti ar gyfer 6,500 o gymudwyr ychwanegol yr wythnos ar Cledrau'r Cymoedd.

Pwysig yw nodi ein bod yn dwyn ein partneriaid cyflenwi i gyfrif wrth gyflwyno trefn cymhelliant perfformiad newydd a ddyluniwyd i wella dibynadwyedd a chyflwyniad ein trenau a'n gorsafoedd. Rwy'n falch o weld bod darparu gwasanaethau eisoes yn gwella a gobeithio bod ein cwsmeriaid hefyd yn dechrau sylwi ar y gwelliannau. Yn ychwanegol at hyn, roedd ein perfformiad yn ystod hydref 2019 yn sylweddol well na'r flwyddyn flaenorol diolch i'r gwaith a wnaethon ni gyda'n partneriaid gweithredu.

Rwy'n falch hefyd bod TrC wedi dechrau gweithredu gwasanaethau arlwyo ar y trenau yn uniongyrchol ym mis Ionawr 2020 pan ymunodd dros 100 o weithwyr â thîm TrC. Rydym nawr yn gweithio'n galed gyda chyflenwyr lleol a'n tîm arlwyo i wella ein gwasanaeth arlwyo ar y trenau.

Roedd ein Cadeirydd yn llygad ei le pan ddywedodd bod trosglwyddo seilwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd o Network Rail i TrC ym mis Mawrth 2020 yn gyflawniad sylweddol ac yn garreg filltir bwysig yn natblygiad Metro De Cymru. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi gwneud hyn yn bosibl gan gynnwys ein cydweithwyr yn Network Rail. Bydd Llinellau Craidd y Cymoedd yn rhan bwysig o Metro De Cymru ac rydym nawr yn edrych ymlaen at eu trawsnewid fel y gallwn ni redeg ein trenau newydd - trenau sy'n lanach, yn wyrddach a chyflymach.

Fodd bynnag, er bod gennym gynnydd sylweddol i'w adrodd yn 2019/20, mae'r Coronafeirws bellach yn ein hwynebu. Heb amheuaeth, bydd bywyd yn newid a fel pob sefydliad arall, bydd TrC yn addasu i hyn.

Yn anffodus, mae rhai pobl wedi colli eu bywydau a bydd rhai yn colli eu bywydau cyn eu hamser a bydd y ffordd yr ydym yn byw ein bywydau yn newid. Bydd ein cymdeithas a'r economi yn cymryd amser i wella o'r pandemig byd-eang hwn ac mae hyn yn debygol o effeithio ar sut rydym yn cyflawni ein cynlluniau buddsoddi yn y dyfodol. Hefyd, mae'r Coronafeirws wedi newid ein perthynas â'n gweithredwr gwasanaethau rheilffyrdd ac rydym wedi llunio Cytundeb Mesurau Argyfwng chwe mis i sicrhau y gall ein gwasanaethau rheilffordd barhau i weithredu yn dilyn cwymp enfawr yn nifer y teithwyr. Fel rhan o'r cytundeb, sy'n para rhwng Mai a Hydref 2020, bydd ein gweithredwr gwasanaethau rheilffordd yn cael ei dalu ffi rheoli tra bydd Llywodraeth Cymru'n cymryd y risgiau costau a refeniw. Bellach, mae TrC yn cymryd rhan fwy uniongyrchol mewn rheoli costau ac adfer gwasanaethau ac rydym hefyd yn cynllunio ac yn datblygu modelau ariannol ar gyfer mis Tachwedd 2020 ymlaen.

Serch hynny, mae TrC dal yn ymrwymedig i adeiladu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, effeithiol a chynaliadwy sy'n symud pobl a nwyddau. Mae hyn yn arbennig o bwysig i Gymru wrth i ni barhau i symud oddi wrth ddibynnu ar ein ceir ein hunain.

Fel gydag unrhyw her, byddwn yn ymateb i Covid-19 drwy wneud yr hyn sy'n iawn i bobl a chymunedau Cymru. Byddwn yn addasu ein strategaeth a'n dulliau cyflawni gweithredol er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd a'r effeithlonrwydd gorau posibl yn unol â gofynion economaidd a pholisi'r llywodraeth.

Yn y cyfamser, wrth inni edrych ymlaen at 2020/21 a thu hwnt, hoffwn ddiolch i'n cwsmeriaid, cyflenwyr, partneriaid a thîm TrC am eu cefnogaeth barhaus. Mae gennym lawer o waith caled o'n blaenau, ond, gyda'n gilydd, rydym yn creu rhwydwaith drafnidiaeth sydd o'r ansawdd gorau, yn ddiogel, integredig, fforddiadwy a hygyrch – un y gall Cymru ymfalchïo ynddo.

Pwy ydyn ni a beth ydyn ni yn ei wneud

Pwy ydyn ni

Trafnidiaeth Cymru (TrC) ydyn ni – cwmni nid-er-elw a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015.

Mae TrC yn sbarduno gweledigaeth Llywodraeth Cymru sef rhwydwaith drafnidiaeth ansawdd uchel, diogel, integredig a fforddiadwy. Rhwydwaith ddibynadwy, hygyrch a charbon isel y gall pobl Cymru ymfalchïo ynddi. Mae ein cylch gwaith sy'n esblygu'n barhaus, yn adeiladu rhwydwaith drafnidiaeth gynaliadwy sy'n hollbwysig i economi Cymru sy'n ffynnu nawr ac yn y dyfodol.

Mae trosglwyddo seilwaith rheilffordd Llinellau Craidd y Cymoedd o Network Rail i TrC ym mis Mawrth 2020 yn garreg filltir bwysig, gan ein galluogi i ddechrau adeiladu Metro De Cymru. Rydym hefyd wedi bod yn cydweithio gydag awdurdodau lleol Cymru a Llywodraeth Cymru i roi math newydd o Gardiau Teithio Rhatach ar waith yn llwyddiannus i bron i 600,000 o bobl ar draws Cymru, yn ogystal â helpu Llywodraeth Cymru i roi Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ar waith. Yn bwysicach na dim, mae ein huned ddadansoddi trafnidiaeth fewnol yn gweithio'n galed i wella ansawdd a chysondeb y dystiolaeth sy'n sail i'r penderfyniadau a wneir ynghylch trafnidiaeth a buddsoddiad yng Nghymru.

Rydym yn falch iawn o'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yma ac yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni buddsoddiad cyhoeddus gyda phwrpas cymdeithasol sy'n cyd-fynd yn llwyr â pholisïau Llywodraeth Cymru; ac o fudd i bobl, cymunedau a busnesau ledled Cymru.

Ein cylch gwaith

Mae popeth a wnawn yn cefnogi cyflawniad polisïau Llywodraeth Cymru ac mae wedi'i alinio â fframwaith polisi Llywodraeth Cymru. Mae cytundeb rheoli yn llywodraethu perthynas TrC gyda Llywodraeth Cymru a phob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi i ni lythyr cylch gwaith sy'n amlinellu ein hamcanion strategol ar gyfer y 12 mis dilynol.

Mae Llywodraeth Cymru'n pennu nodau strategol TrC yn unol â Ffyniant i Bawb: strategaeth genedlaethol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a pholisïau eraill, gan sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithlon a bob amser yn gweithio er lles y cyhoedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu polisi trafnidiaeth Cymru ac rydym ni yn rhoi cyngor technegol ac arbenigedd er mwyn helpu i ddatblygu'r polisïau hyn. Dyw TrC ddim yn pennu'r polisi, a dydyn ni ddim yn defnyddio unrhyw swyddogaethau statudol.

Ni yw partner cyflawni trafnidiaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ymddiried ynddo, cynghorydd arbenigol ac adfocad ar gyfer materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.

Fel partner cyflawni dibynadwy i Lywodraeth Cymru, rydym yn frwdfrydig iawn dros gyflawni rhwydwaith drafnidiaeth o safon fyd-eang fydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl, cymunedau a busnesau ledled Cymru.

Gweithio'n gydweithredol

Ledled Cymru, rydym yn cydweithio gyda darparwyr trafnidiaeth, partneriaid, cymunedau a rhanddeiliaid i ddarparu rhwydwaith drafnidiaeth diogel, hygyrch, dibynadwy, fforddiadwy ac integredig gan ganolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy.

Golyga bod TrC – gyda'n dull arloesol o gydweithio a phartneriaeth gymdeithasol – yn gwneud pethau'n wahanol. Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol, cymunedau lleol, arweinwyr twristiaeth, darparwyr trafnidiaeth a phartneriaid cyflawni i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru am rwydwaith drafnidiaeth integredig fydd yn gwella cysylltedd ac yn gwneud teithio yn haws.

Mewn ymateb i argymhellion gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (EIS), rydym hefyd wedi sefydlu panel cynghori i ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill mewn dull agored, tryloyw a rhagweithiol. Fel rhan o'n strwythur cynghori ehangach, mae'r panel cynghori'n sicrhau bod amrywiaeth eang o randdeiliaid yn dylanwadu ar ein gwaith.

Hefyd, mae ein Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn disgrifio sut rydym yn creu cysylltiadau effeithiol gyda'n rhanddeiliaid ac mae hefyd yn cynnwys cod ymarfer newydd y mae ein partneriaid wedi'i gymeradwyo. Yn y cyfamser, mae ein Fframwaith Cyswllt a Chysylltiadau Cymunedol yn manylu ar ein hymrwymiad i ymgysylltu cymunedol effeithiol.

Mae ein Fframwaith Cyflenwi Seilwaith Trafnidiaeth Gynaliadwy (STRiDe) yn galluogi cyflenwyr lleol i gael budd o fuddsoddiadau TrC tra'n cynyddu effaith economaidd TrC.

Pam ydyn ni yma

Mae Cymru yn newid sy'n golygu bod yn rhaid i'n rhwydwaith trafnidiaeth newid hefyd. Mae gwell trafnidiaeth gyhoeddus yn sylfaen i dwf economaidd cynaliadwy ac mae hefyd yn cynnwys buddiannau gwirioneddol i bobl, gwella mynediad i gyfleoedd gwaith, mae'n creu cyfleoedd newydd ac integreiddio addysg, iechyd a gwasanaethau eraill yn well.

Mae rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus mwy integredig a gwell yn brif ysgogydd yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru: Ffyniant i Bawb. Rydym yn canolbwyntio ar wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth a chwarae ein rhan wrth gyflawni Ffyniant i Bawb –strategaeth genedlaethol Cymru ynghyd â'r Cynllun Gweithredu Economaidd sy'n sbarduno ein dwy nod sef twf economaidd a gostwng anghydraddoldebau. Mae ein gweithgareddau hefyd yn cyd fynd â saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru 2015).

'Mae TrC yn sbarduno gweledigaeth Llywodraeth Cymru sef rhwydwaith drafnidiaeth ansawdd uchel, diogel, integredig a fforddiadwy.'

Ein pwrpas

Darparu gwasanaethau trafnidiaeth cynaliadwy sy'n cadw Cymru i symud

Ein pwrpas yw i 'Gadw Cymru i Symud' drwy ddarparu gwasanaethau rhagorol a buddsoddi mewn gwelliannau fydd o fudd i bobl a chymunedau am genedlaethau i ddod.

Mae TrC yn gwneud llawer iawn mwy na helpu pobl i fynd o A i B – rydym yn gyfrifol am gysylltu pobl a chymunedau, datblygu cynaliadwy a helpu i greu cyfleoedd newydd.

Mae rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus mwy integredig yn allweddol i gyflawni strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru: Ffyniant i Bawb.

O gael gwell rhwydwaith trafnidiaeth, bydd yn creu budd gwirioneddol i bobl a'n economi, gwella mynediad at gyfleoedd gwaith a chael mynediad at wasanaethau, fel addysg a iechyd.

Ein gweledigaeth

Creu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer gyda rhwydwaith trafnidiaeth diogel y gall Cymru ymfalchïo ynddo

Mae ein gweledigaeth yn ein sbarduno i ganolbwyntio ar y cwsmer ac i ddarparu gwasanaeth trafnidiaeth sy'n galluogi symudedd a hefyd yn gwella hygyrchedd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu saith nod lles:

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru iachach
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru gydnerth
- Cymru lewyrchus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n fwy cyfartal

Mae ein gweledigaeth yn ein galluogi i ganolbwyntio ein gweithgareddau ar y nodau hyn, gan sicrhau ein bod yn creu effaith bositif yng Nghymru.

Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnawn ac maen nhw'n greiddiol i sut rydym yn ennill ymddiriedaeth ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Yr unig ffordd y gallwn wireddu ein cenhadaeth uchelgeisiol yw os oes gennym enw da o fod yn sefydliad sy'n onest, yn feidrol, yn ddefnyddiol ac â'r gallu i ymgysylltu.

Bod yn ddiogel Iechyd, diogelwch a lles	Rydym wedi ymrwymo i iechyd, diogelwch a lles ym mhopeth a wnawn ac rydym am i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid ymddiried ynom ni a chael tawelwch meddwl gan ein hymrwymiad.
Bod y gorau gallwn ni Perfformiad uchel, cyflymder	O gael ein sbarduno gan ein cenhadaeth uchelgeisiol, rydym am greu argraff dda ar ein cwsmeriaid, partneriaid a phobl Cymru o ran yr hyn a wnawn ac rydym am iddynt ymfalchïo yn yr hyn a gyflawnwn.
Bod yn gadarnhaol Os gallwn ni, gwnawn ni	Trwy rymuso ein pobl a gweithio'n gydweithredol, rydym yn gwrando ar ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid er mwyn sicrhau eu bod yn ymddiried ynom ni a bod ganddyn nhw hyder ynom ni hefyd.
Bod yn gysylltiedig Mentrus a rhwydweithio	Mae ein dull cydweithredol o weithio a chanolbwyntio ar greu cysylltiadau cryf yn ein helpu i ddiwallu'r heriau a wynebwn gan gyflawni ein cenhadaeth mewn dull arloesol.
Bod yn deg Uniondeb a chydraddoldeb	Trwy weithio mewn dull cydweithredol a chreu cysylltiadau cryf, rydym am ddangos ein bod yn gwrando ar ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid a'n bod yn gwerthfawrogi ac yn ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau.
Creu llwyddiant sy'n cael ei rannu Yn frwdfrydig dros gael y fargen orau	Bydd y rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy rydym yn ei adeiladu yn trawsnewid y ffordd rydym yn teithio yng Nghymru. Rydym am i'n cwsmeriaid, rhanddeiliaid a phobl Cymru gael eu cyffroi gan y trawsnewidiad hwn.



Astudiaeth achos

Adeiladu Metro De Cymru

Ym mis Mawrth 2020, ar ôl ei brynu gan Network Rail, daeth TrC yn berchennog ar linellau Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert.

Mae hwn yn gam mawr ymlaen yn ein cynlluniau i gyflwyno Metro De Cymru a'i gwneud yn haws, yn gyflymach ac yn fwy hwylus i bobl deithio o gwmpas De Cymru.

Bydd TrC yn buddsoddi o leiaf tri chwarter biliwn o bunnau, gan gynnwys o gyllid CDRhE, yn ystod y pum mlynedd nesaf er mwyn trawsnewid y llinellau hyn, sy'n cael eu hadnabod yn lleol fel Llinellau Craidd y Cymoedd.

Bydd oddeutu 170km o drac yn Ne Cymru yn cael ei drydaneiddio a'i foderneiddio o ganlyniad i'r buddsoddiad – yn bennaf drwy osod llinellau trydan uwchben er mwyn pweru ein trenau newydd. Byddwn yn uwchraddio ein gorsafoedd, ein cyfarpar signalu, ein croesfannau ac yn addasu rhai pontydd. Yn ogystal, rydym yn bwriadu adeiladu nifer o orsafoedd newydd.

Yn ogystal, rydym wedi creu dros 50 o swyddi newydd a throsglwyddwyd 27 o beirianwyr i TrC o Network Rail.

"Bydd Metro De Cymru yn rhwydwaith cludiant o safon fyd-eang a fydd yn trawsnewid y ffordd y bydd pobl yn teithio. Bydd y Metro yn cynnig gwasanaethau cyflymach, mwy cynaliadwy, hwylus, aml a dibynadwy a chyda gwell cysylltiadau rhwng gwahanol fathau o gludiant.

"Mae llinellau Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert yn rhan allweddol o'n cynlluniau ar gyfer Metro De Cymru. Yn awr, mae gwaith adeiladu ac isadeiledd sylweddol i'w gwblhau er mwyn sicrhau y bydd ein tram-drenau newydd yn gallu rhedeg ar y llinellau hyn ac y byddan nhw'n darparu gwasanaeth modern cyrraedd a mynd 'yn arddull y Metro' sydd hefyd yn lanach ac yn wyrddach."

Karl Gilmore, Cyfarwyddwr Rhaglen Rheilffyrdd, Trafnidiaeth Cymru

Beth sy'n ein gwneud yn wahanol?

Rydym yn gwmni nid-er-elw a gellir ail-fuddsoddi unrhyw arian dros ben yn unol â'n cylch gwaith. Os gawn ni hwyl ar bethau, bydd ein cwsmeriaid a phobl Cymru yn elwa.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo y bydd TrC, yn raddol, yn rhedeg y rhwydwaith trafnidiaeth yng Nghymru yn llwyr neu'n cael perchnogaeth uniongyrchol ohono. Rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol yn 2019/20 gyda throsglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd o Network Rail i TrC, cam allweddol yn ein cynlluniau uchelgeisiol i adeiladu Metro De Cymru. Hefyd, fe wnaethon ni gymryd y cyfrifoldeb dros y gwasanaethau arwylo ar wasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau.

Yn y dyfodol, bydd gennym fwy o reolaeth dros y ffordd rydym yn adeiladu ein rhwydwaith trafnidiaeth, gan wneud yr hyn sy'n iawn i bobl Cymru a chreu llwyddiannau cyffredin sy'n creu budd i bobl a chymunedau ledled Cymru. Y dull gweithio ar y cyd hwn i ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth cynaliadwy ar draws gwahanol fathau o drafnidiaeth sy'n ein galluogi i newid bywydau trwy wella cysylltedd, meithrin ffyniant economaidd ac ysgogi datblygiad a thwf cynaliadwy.

Ein hymrwymiad i ddiogelwch

Mae diogelwch ein cwsmeriaid, rhanddeiliaid, cyflenwyr a'n pobl yn hollbwysig ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu 'profiad diogel, hapus ac iach i bawb'.

Rydym yn herio ein hunain yn barhaus fel sefydliad. Rydym yn adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu ein twf a'n cylch gwaith cynyddol. Rydym wedi datblygu Cynllun Iechyd, Diogelwch a Lles ac rydym yn gweithio'n agos gyda'n timau i ymgorffori diwylliant iechyd a diogelwch effeithiol ar draws TrC.

Ein hymrwymiad i bartneriaeth gymdeithasol

Fel cyflogwr teg, cynhwysol a datblygol, rydym wedi ymrwymo i sefydlu cytundeb arfer gorau gyda'n hundebau llafur wedi'i seilio ar ymddiriedaeth a dealltwriaeth gyffredin.

Rydym yn cydnabod y gwerth y gall partneriaeth gymdeithasol ei chreu, gan weithio ar yr egwyddor y gallwn ni ond gyflawni ein gweledigaeth os yw ein rheolwyr, pobl a'n hundebau llafur yn cydweithio ac yn cydweithredu. Mae ein rheolwyr, cydweithwyr a'n hundebau llafur yn cydweithio i sicrhau bod TrC yn datblygu i fod yn batrwm o gyflogwr gan ddarparu gwasanaethau effeithiol i bobl Cymru.

Ein hymrwymiad i newid yn yr hinsawdd

Newid yn yr hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r diwydiant trafnidiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030 ac ym mis Ebrill 2019, gwnaeth ddatgan argyfwng hinsawdd. Rydym yn cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei hymateb i newid yn yr hinsawdd trwy ein haliniad gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac un o'n prif ysgogwyr yw sicrhau ein bod yn datgarboneiddio ac yn cefnogi'r trawsnewidiad i Gymru carbon isel.

Mae'r hinsawdd eisoes yn newid ac mae'r tueddiadau'n dangos bod y DU yn parhau i gynhesu ac mae lefel y môr yn codi. Yng Nghymru, golyga hyn bod mwy o siawns o aeafau mwyn, gwlypach a hafau sychach a phoethach a mwy o achosion o dywydd eithafol, fel y stormydd a'r llifogydd a gawsom yn ddiweddar. Mae newid yn yr hinsawdd eisoes yn rhoi pwysau ar ein seilwaith drafnidiaeth sydd, yn ei dro, yn effeithio ar ein cymunedau mwyaf agored i niwed.

Arlwyo

Gan fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo y bydd TrC, yn raddol, yn rhedeg y rhwydwaith trafnidiaeth yng Nghymru yn llwyr neu'n cael perchnogaeth uniongyrchol ohono, dyma pam aethon ni ati - ym mis Ionawr 2020 - i gymryd cyfrifoldeb dros wasanaethau arlwyo ar y trenau. Mae gennym dros 100 o weithwyr yn ein tîm arlwyo ac rydym yn gweithio'n galed gyda chyflenwyr lleol i wella ein gwasanaethau arlwyo ar y trenau. Rydym yn gobeithio y bydd ein cwsmeriaid a'n cyflenwyr lleol yn croesawu'r gwelliannau sydd gennym ar droed.

Symud i Bontypridd

Yn 2020, ein cynllun yw symud i'n pencadlys newydd yn natblygiad blaenllaw Llys Cadwyn Rhondda Cynon Taf ym Mhontypridd ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at symud. Bydd yn rhoi hwb mawr i'r economi leol, gan ein galluogi ni i gyflawni un o'n prif nodau craidd a chreu llwyddiant cyffredin. Hefyd, rydym yn creu amgylchedd waith y gall ein pobl ymfalchïo ynddi ac un fydd yn annog cydweithio a chydweithredu.

Mae'r adeiladwr Willmott Dixon yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun Corfforaethol Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2016-2020: 'Y Ffordd Ymlaen'. Erbyn mis Mawrth 2020, roedd 99.82% o wastraff y prosiect wedi cael ei ailgyfeirio o safle tirlenwi. Ers dechrau ar y gwaith ym mis Mawrth 2018, mae'r prosiect wedi creu dros 2,700 wythnos o waith i bobl leol – rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod maith i rai sy'n ymuno â'r sector am y tro cyntaf, fel hyfforddeion a phrentisiaid.

Ein nod yw y bydd Llys Cadwyn yn gweithredu fel hyb ar gyfer swyddi gwerth uchel yn y sector trafnidiaeth ar gyfer bobl leol. Rydym eisoes yn edrych ar ffyrdd i annog adfywio lleol. Rydym eisoes wedi dechrau creu cysylltiadau gyda busnesau lleol a rhoi yn ôl i'r gymuned trwy ein mentrau gwirfoddoli i gyflogai.

Mae bod yn rhan o'r gymuned leol yn golygu y gallwn ni helpu ein gilydd mewn cyfnodau anodd, a dyma pam yr oeddem yn teimlo ei fod hi'n bwysig helpu pan aeth ein staff ati i roi o'i hamser yn ystod stormydd difrifol mis Chwefror 2020.

Gweithio gyda'n gilydd yn 2019/20



Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru



Mark Drakeford AS

Prif Weinidog Cymru

"Hyd yn oed mewn cyfnodau anodd, mae Llywodraeth Cymru yma i'n helpu i wneud ein cenedl yn lle gwell i fyw ac i weithio ynddi. Ein nod yw creu economi yng Nghymru sy'n creu cyfleoedd ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gan gyflawni ffyniant unigol a chenedlaethol drwy wella cysylltedd.

Mae datblygiad parhaus Trafnidiaeth Cymru yn hanfodol i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer system drafnidiaeth sy'n integredig, carbon isel ac wedi'i gwreiddio yn anghenion a dewisiadau dinasyddion Cymru. Gyda'n gilydd, byddwn yn gweithio i sbarduno ein economi a'n cymunedau ymlaen i ffyniant gwell".

Ken Skates AS

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

"Mae trafnidiaeth yn chwarae rhan bwysig wrth roi siâp i'n bywydau pob dydd. Mae system drafnidiaeth dda yn ganolog i gyflawni economi fywiog a chyfiawnder cymdeithasol; darparu'r gwasanaethau y mae arnom i gyd eu hangen i gadw'n iach, i ddysgu, i gael mynediad at waith ac i adeiladu ffyniant gyda'r amgylchedd cywir fel bod busnesau'n tyfu ac yn ffynnu.

Gyda'n partneriaid cyflawni, rydym yn adeiladu rhwydwaith drafnidiaeth gyhoeddus integredig ar gyfer pobl Cymru sy'n ddiogel, yn ddibynadwy, yn fforddiadwy, carbon isel. Mae'n rhwydwaith drafnidiaeth y bydd pobl Cymru yn ymfalchïo ynddi".

Gwasanaethau Rheilffyrdd yng Nghymru a'r gororau

Mai 2019

Lansio ein Gweledigaeth Rheilffyrdd Cymunedol

Lansio'r gwasanaethau Wrecsam-Lerpwl newydd

Meh 2019

Cyflwyno trenau sy'n cael eu tynnu gan locomotif i gynyddu capasiti

Gorff 2019

Cyflwyno'r Dosbarth 175 cyntaf wedi'i adnewyddu'n llawn

Medi 2019

Lansio ein Gweledigaeth Gwella Gorsafoedd

Tach 2019

Lansio ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy

Rhag 2019

Cyflwyno amserlen newydd gyda chynnydd o 40% mewn gwasanaethau ar y Sul

Cyflwyno Dosbarth 170 ychwanegol i gynyddu capasiti

Ion 2020

Agor Hyb Seilwaith Metro De Cymru yn Nhrefforest

Dechrau'r gwaith adeiladu ar orsaf Bow Street

Dechrau'r gwaith adeiladu ar Ganolfan Reoli'r Metro yn Ffynnon Taf

Chwef 2020

Llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog

Mawrth 2020

Cyflwyno cyhoeddiadau Cymraeg mewn dros 170 o orsafoedd

Mae'r daith yn parhau

Canolbwyntio ar ein cwsmeriaid

Ymgysylltu pobl i greu profiadau sy'n gwella'n barhaus ac sy'n rhoi lle canolog i'r cwsmer.

Dyw gwella profiad y cwsmer ddim yn dibynnu ar fuddsoddiad yn unig. Mae'n ymwneud â datblygu ein pobl a sicrhau bod pawb yn TrC yn deall pwysigrwydd diwylliant sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

Mae profiad o safon fyd-eang i'n cwsmeriaid yn golygu darparu gwasanaethau sy'n brydlon, yn ddiogel, yn ddibynadwy, yn lân ac yn gyfforddus. Mae hefyd yn bwysig bod ein cwsmeriaid yn cael gwerth eu harian.

Ein nod yw creu rhwydwaith drafnidiaeth sy'n pennu safon newydd. Rydym yn gwella ein gwasanaethau a'n cyfleusterau yn barhaus er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu i fanteisio ar deithio llesol (cerdded a beicio gyda phwrpas). Ond mae hi hefyd yn hollbwysig bod ein cwsmeriaid yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ein bod yn gofalu amdanynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Beth mae hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid
Rydym wedi ymrwymo i:

- Ymgysylltu â phobl i gyflawni'r safonau uchaf posibl o wasanaeth i gwsmeriaid
- Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel a dibynadwy bob dydd tra'n datblygu'n barhaus yr hyn sydd ar gael i'n cwsmeriaid
- Gweithio'n galed i alluogi teithiau esmwyth a di-dor ar draws Cymru gyda lefelau uchel o ymgysylltu â chwsmeriaid, mewnwelediadau a chyfathrebu

Astudiaeth achos

Adeiladu ein rhwydwaith trafnidiaeth dwyieithog

Mae TrC yn ymrwymedig i fod yn frand dwyieithog ac mae creu rhwydwaith trafnidiaeth dwyieithog yn flaenoriaeth i TrC.

Rydym yn gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein nodau. Yn 2019/20, gwnaethom gyflwyno ein system wybodaeth newydd yn yr iaith Gymraeg mewn mwy na 170 o'n gorsafoedd yng Nghymru, ar ôl cynnal cynllun peilot o'r system yn llwyddiannus yng ngorsafoedd Porthmadog, Ystâd Trefforest, Sgiwen, Hengoed a Phont-y-clun yn hwyr yn 2019.

Cyn hyn, chwarter yn unig o'n o'n gorsafoedd a oedd yn meddu ar system wybodaeth effeithiol yn yr iaith Gymraeg, tra bod gan y gweddill system testun i leferydd a oedd yn brwydro i ynganu geiriau ac enwau lleoedd Cymraeg yn gywir.

Mae'r system newydd sef 'Geraint' yn eiddo i Amazon ac IVONA ac mae'n darparu cyhoeddiadau ynglŷn â siwrneiau ynghyd â'r manylion diweddaraf yn eglur yn yr iaith Gymraeg. Mae Geraint yn galluogi rheolwyr gwybodaeth TrC i ddarparu ein cwsmeriaid gyda diweddariadau a newidiadau dwyieithog cywir ynglŷn â'r siwrneiau wrth iddyn nhw ddigwydd.

Mae Geraint wedi galluogi TrC i gymryd cam yn y cyfeiriad cywir tuag at rwydwaith dwyieithog ac mae eisoes yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ar gyfer ein cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg. Yn ogystal, mae TrC yn gwneud cynnydd gyda systemau dwyieithog o ran cyhoeddiadau ar y trenau.

"Rydym yn frand dwyieithog ac rydym yn ymrwymedig i weithio â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i greu rhwydwaith trafnidiaeth dwyieithog. Mae Geraint, ein system newydd yn ein galluogi ni i ddarparu ein cwsmeriaid â diweddariadau a newidiadau dwyieithog cywir ynglŷn â siwrneiau wrth iddyn nhw ddigwydd.

"Rydym yn falch bod system Geraint yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ar gyfer ein cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg ac rydym yn awr yn gweithio er mwyn darparu system gyhoeddiadau dwyieithog ar y trenau."

David O'Leary, Cyfarwyddwr Masnachol a Phrofiad Cwsmeriaid, Trafnidiaeth Cymru

Beth ydyn ni wedi'i gyflawni hyd yma?

Ar lefel strategol, rydym wedi pennu amcanion clir er mwyn sicrhau bod ein cwsmeriaid bob amser yn ganolog i bopeth a wnawn.

Rydym wedi ymrwymo i:

- Sicrhau teithiau esmwyth a di-dor ar draws Cymru
- Ymgysylltu â phobl i ddarparu'r safonau uchaf posibl o wasanaeth i gwsmeriaid
- Darparu lefelau uchel o ymgysylltu â'r cwsmeriaid, mewnwelediadau a chyfathrebu
- Parhau i ddatblygu yr hyn sydd gennym i'w gynnig i'n cwsmeriaid neu'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwn i'n cwsmeriaid
- Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel a dibynadwy

Ymwreiddio'r pwyslais ar y cwsmer ar bob lefel o TrC

I sicrhau ein bod yn ymwreiddio'r pwyslais ar y cwsmer rydym wedi:

- Sefydlu ein gweledigaeth ar gyfer diwylliant sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, er mwyn dangos i bobl y safonau a ddisgwyliwn, fel eu bod hwy'n gwybod sut i ymddwyn a sut i ymgysylltu â chwsmeriaid. Mae ein holl staff wedi addo i gymryd cyfrifoldeb dros gamau gweithredu'r cwmni, gweithio mewn ffordd agored, onest a pharchus, cydweithio i ddod o hyd i atebion, gwrando ar ein cwsmeriaid a dysgu o'u hadborth
- Dangos ein hymrwymiad i ddiwylliant lle mae'r cwsmer yn cael y lle blaenaf ar bob lefel o fewn TrC. Mae ein Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu yn parhau i gynnal trafodaethau ynghylch ein gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ein cwsmeriaid a llywodraethu profiadau'r cwsmer gyda Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru
- Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol profiad y cwsmer ar y cyd ar gyfer ein cydweithwyr gwasanaethau rheilffyrdd fel y gallwn, ar y cyd, adrodd i'n Bwrdd a'n his-bwyllgorau
- Sefydlu Rhwydwaith Profiad Cwsmeriaid Cymru gyda'n cyd-weithwyr yng Ngwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru mewn partneriaeth ag Ysgol Fusnes Caerdydd
- Cyflwyno Trefn Ansawdd Gwasanaeth i ysgogi safonau uchel parhaus ar draws ein holl weithrediadau. Mae hwn yn drefn newydd ar berfformiad sy'n canolbwyntio ar wella dibynadwyedd a sut rydym yn cyflwyno ein trenau a'n gorsafoedd

Ymgysylltu â'n cwsmeriaid

Fe wyddom y gallwn ond greu diwylliant 'y cwsmer yn gyntaf' a darparu yr hyn sy'n bwysig i'n cwsmeriaid os yw pawb yn TrC yn deall pwy ydyn nhw, sut y mae nhw'n ymddwyn a pham, sut y maen nhw'n teimlo am ein gwasanaeth a beth hoffent ei newid.

Fel y gallwn ni ddeall ein cwsmeriaid yn well, mae angen amrywiaeth o offerynnau a dulliau gweithio arnom ni y gall ein staff eu defnyddio, er mwyn darparu mewnwelediad manwl a chadarn am ein cwsmeriaid:

- Rydym wedi datblygu ein Strategaeth Mewnwelediad Cwsmeriaid sy'n canolbwyntio yn bendant ar ymgysylltu â'n cwsmeriaid er mwyn cael mwy o drafodaeth agored gyda'n rhanddeiliaid. Rydym yn gwybod bod ein cwsmeriaid yn fwy tebygol o ymgysylltu â ni os gallan nhw weld bod eu barn nhw yn gwneud gwahaniaeth, bod yr hyn sydd ganddyn nhw i'w ddweud yn bwysig i ni a'u bod yn credu eu bod yn bartneriaid cyfartal wrth adeiladu llwyddiant TrC
- Rydym wedi ymgysylltu â'n cwsmeriaid trwy gynnal arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid a siopwyr cudd yn rheolaidd ac wedi bod yn dadansoddi'r data er mwyn deall y profiad y mae'r cwsmer yn ei gael ar hyn o bryd – yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd angen ei wella. Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethon ni gwblhau arolygon cwsmeriaid er mwyn tynnu sylw at y bylchau sy'n bodoli rhwng disgwyliadau cwsmeriaid a'r gwasanaeth a ddarperir a nodi'r meysydd hynny sydd angen eu gwella. Mae'n fwriad gennym gau'r bylchau hyn yn 2020/21
- Ar ôl adolygu dull presennol o gysylltu â chwsmeriaid TrC, rydym hefyd wedi datblygu strategaeth gysylltu â chwsmeriaid lefel uchel. Ein nod yw ei gwneud hi mor rhwydd â phosibl i'n cwsmeriaid allu rhannu eu hadborth a'u hawgrymiadau â ni
- O ddatblygu ein strwythur cynghori ehangach, gallwn sicrhau y bydd ein cwsmeriaid yn gallu dylanwadu ar lwyddiannau TrC ar draws ein cylch gwaith

Gweithio gyda'n rhanddeiliaid

Mae gan TrC amrywiaeth eang o randdeiliaid ac rydym yn ymfalchïo yn y berthynas rydym yn ei hadeiladu gyda nhw. Mae eu cefnogaeth yn hanfodol i lwyddiant ein cynlluniau uchelgeisiol.

Rydym yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid ar ein taith o drawsnewid ac yn 2019/20, fe wnaethom greu cyfleoedd rheolaidd i drafod ein cynlluniau, ein perfformiad a'n cynnydd gyda nhw. Mae adborth ein rhanddeiliaid yn ein helpu ni i barhau i wella ac i lywio ein cynlluniau.

Astudiaeth achos

Gweledigaeth ar gyfer Rheilffyrdd Cymunedol

Lansiwyd Gweledigaeth Rheilffyrdd Cymunedol TrC yng Ngorsaf Llandudno ym mis Mai 2019 gan Ken Skates, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru.

Mae Strategaeth Rheilffyrdd Cymunedol TrC yn mynd law yn llaw â'n Gweledigaeth Gwella Gorsafoedd y gwnaethom ei lansio hefyd yn ystod 2019/20.

Fel rhan o'n Strategaeth Rheilffyrdd Cymunedol, byddwn yn sefydlu Partneriaethau Rheilffordd Cymunedol newydd drwy rwydwaith cyfan Cymru a'r Gororau er mwyn hyrwyddo ac annog defnydd o'r rheilffyrdd mewn cymunedau.

Bydd llysgenhadon cymunedol ychwanegol yn cael eu recriwtio ochr yn ochr â swyddogaethau marchnata a fydd yn canolbwyntio ar hyrwyddo twristiaeth ranbarthol a thwf economaidd lleol.

Byddwn hefyd yn targedu mabwysiadu gorsafoedd. Ein huchelgais yw y bydd 90% o'n gorsafoedd yn cael eu mabwysiadu o fewn 4 blynedd, gan greu gwell cysylltiadau â'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu.

Bydd adeiladau a chyfleusterau gwag mewn gorsafoedd yn cael eu hadnewyddu ar gyfer defnydd y gymuned a bydd Cynllun Mabwysiadu Gorsafoedd TrC, sydd eisoes wedi denu unigolion a grwpiau o bob oed a chefndir drwy Gymru a Lloegr, yn cael eu hybu fel rhan o'r strategaeth. Bydd mwy o gefnogaeth gan randdeiliaid lleol a rheolwyr cymunedol yn galluogi'r mabwysiadwyr i wneud mwy a'u helpu nhw i roi gorsafoedd yn eu priod le wrth galon y cymunedau.

"Rydym yn gyffrous i fod yn gweithio gyda TrC er mwyn cefnogi'r mudiad llawr gwlad hwn sy'n datblygu. Mae partneriaethau rheilffyrdd cymunedol a grwpiau gorsafoedd yn chwarae rhan hanfodol i alluogi cymunedau wneud yn fawr o'u rheilffyrdd a'u gorsafoedd lleol.

"Maen nhw'n dod â phobl ynghyd, helpu mwy o bobl i gael mynediad at deithio ar reilffyrdd, hyrwyddo teithio a thwristiaeth gynaliadwy ac yn grymuso cymunedau i ddweud eu dweud – gan helpu i greu cymunedau hapusach, iachach, mwy cynaliadwy a mwy cynhwysol."

Jools Townsend, Prif Weithredwr Cymdeithas Partneriaethau Rheilffordd Cymunedol

Yn 2019/20, fe wnaethon ni:

- Gwblhau ein Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid sy'n amlinellu sut rydym yn ymgysylltu ac yn adeiladu cysylltiadau effeithiol gyda'n rhanddeiliaid. Mae hefyd yn cynnwys cod ymarfer newydd y mae ein partneriaid wedi'i gymeradwyo
- Recriwtio Rheolwyr Rhanddeiliaid Rhanbarthol yn yr Amwythig, Wrecsam, Abertawe a Chaerdydd er mwyn datblygu ein cysylltiadau gyda'n prif randdeiliaid
- Cynnal ymarfer mapio rhanddeiliaid a chynnal cyfarfodydd cychwynnol gyda nifer o awdurdodau lleol, defnyddwyr y rheilffyrdd a grwpiau cymunedol
- Cwblhau ein Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae'r strategaeth hon, sydd wedi'i chymeradwyo gan ein partneriaid, yn disgrifio sut byddwn yn ymgysylltu ac yn hysbysu ein rhanddeiliaid wrth inni adeiladu Metro De Cymru
- Cynnal tri fforwm rhanbarthol i randdeiliaid (Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, a'r Goroau) i'n helpu i gasglu gwybodaeth a mewnbwn wrth fusnesau, sefydliadau, grwpiau defnyddwyr ac unigolion ynglŷn â sut mae eu rhanbarthau yn ymgysylltu â'r rhwydwaith rheilffyrdd. Mae'r fforymau hyn yn llwyfan gwych i ni drafod cyfleoedd datblygu economaidd a marchnata posibl yn eu rhanbarthau, ynghyd â chynlluniau gwella gwasanaethau a chyfleoedd i gydweithio â chymunedau
- Cwblhau ein Fframwaith Cysylltiadau Cymunedol, gan nodi ein hymrwymiad i ymgysylltu cymunedol ymatebol a rhagweithiol. Rydym eisiau bod yn gymydog da, gan ddarparu gwybodaeth gywir ac amserol ynghylch gwaith adeiladu ac unrhyw waith arall a wnawn. Mae hefyd yn disgrifio sut gall ein cymdogion a'n rhanddeiliaid gysylltu â ni
- Wedi rhoi argymhellion Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar waith, gan gynnwys sefydlu panel cynghori i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid mewn dull agored, tryloyw a rhagweithiol

Hefyd, fe wnaethon ni gynnal llu o ddigwyddiadau ar gyfer y cyhoedd a busnesau lleol i'w hysbysu ynghylch ein cynlluniau cyffrous. Fe wnaethon ni:

- Gefnogi Tasglu'r Cymoedd i roi nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus ar waith ar draws Cymoedd De Cymru, gan sicrhau bod llais y cymunedau hyn yn helpu i lywio ein cynlluniau yn y dyfodol
- Cyfarfod â sawl partner o'r diwydiant i gynnal digwyddiadau cyhoeddus trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys digwyddiad i gyhoeddi ein cynlluniau ar gyfer Gorsaf Bow Street yng Ngheredigion
- Cwrdd â nifer o gynghorau cymunedol, tref a phlwyf gyda Un Llais Cymru fel y prif sefydliad ar gyfer cynghorau cymuned a thref Cymru, i'w hysbysu o gynlluniau a gwelliannau lleol TrC
- Cefnogi Network Rail a Rheilffyrdd Cymunedol yn ystod yr amhariad i lein Dyffryn Conwy a achoswyd gan y stormydd ac ymgysylltu â'r cymunedau yr effeithiodd y llifogydd difrifol arnynt gan rannu gwybodaeth am wasanaethau bws yn lle tren i'w helpu gyda gweddill eu taith
- Lansio ein gweledigaeth ar gyfer rheilffordd gymunedol yng ngorsaf Llandudno ym mis Mai 2019, a Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru yn cyhoeddi cynlluniau i fuddsoddi £600,000 bob blwyddyn mewn partneriaeth rheilffordd gymunedol ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau
- Ailagor Halton Curve ym mis Mai 2019, gan greu 215 o wasanaethau newydd bob awr a hynny bob wythnos, gan wella'r cysylltiad yn sylweddol rhwng Gogledd Cymru, Sir Gaer a Lerpwl a datgloi cyfoeth o gyfleoedd hamdden a busnes

Hefyd, fe wnaethon ni gynnal nifer o gyfarfodydd briffio wyneb yn wyneb a gweithdai cynhwysfawr gyda llawer o'n prif randdeiliaid. Fe wnaethon ni:

- Sefydlu grwpiau trafnidiaeth strategol unigol gyda nifer o awdurdodau lleol
- Ym mis Tachwedd 2019, cynhaliwyd gweithdy cychwynnol rhwng TrC / Grwpiau Defnyddwyr y Rheilffyrdd ar draws y rhwydwaith, Cymdeithas y Teithwyr a Rheilffordd Cymunedol gan roi adborth gwerthfawr ar y newidiadau i'n hamserlen ym mis Mai 2020. Yn yr ail weithdy ym mis Mawrth, trafodwyd newidiadau i amserlenni, cerbydau, seilwaith a digwyddiadau arbennig. Mae'n fwriad gennym gynnal y digwyddiadau hyn ddwywaith y flwyddyn a defnyddio'r adborth i wneud gwelliannau parhaus

Sefydlu ein panel cynghori

Ym mis Mawrth 2020, cyrhaeddodd TrC garreg filltir bwysig o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid lle gwnaethon ni sefydlu panel cynghori.

Fe'i sefydlwyd ar gais Llywodraeth Cymru a'r pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau (EIS) ac mae'r panel hwn yn ein galluogi i ymgysylltu'n rhagweithiol ac yn dryloyw gyda'n rhanddeiliaid. Mae'r panel, sydd hefyd yn rhan o'n strwythur cynghori ehangach, yn sicrhau bod amrywiaeth eang o safbwyntiau, gan gynnwys barn y bobl hynny sydd â nodweddion gwarchodedig, er enghraifft, yn dylanwadu ar ein gwaith.

Yn cynnwys cynrychiolwyr o drawstoriad o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff trafnidiaeth, y Comisiynwyr Plant a Chenedlaethau'r Dyfodol ynghyd â chyrff aelodau busnes a grwpiau ffydd, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y panel cynghori o bell ym mis Mai 2020. Mae o ganlyniad i dair fforwm rhanddeiliaid rhanbarthol a gynhaliwyd ym mis Mawrth ac Ebrill 2020.

'Mae adborth ein rhanddeiliaid yn ein helpu i wella a llunio ein cynlluniau.'

Cyflawni ein hamcanion strategol

Roedd 2019/20 yn flwyddyn brysur, llawn cyfleoedd a chynnydd i TrC.

Doedd 2019/20 heb ei heriau, gyda nifer o stormydd yn amharu ar ein gwasanaethau a chau llinellau a thua diwedd y flwyddyn ariannol, roeddem yn wynebu'r pandemig coronafeirws.

Er gwaethaf y sefyllfa heriol hon, fe wnaethon ni gynnydd sylweddol ar rai o'n cynlluniau cyffrous ar gyfer y dyfodol ac eithrio rhoi'r gorau i ddefnyddio ein trenau Pacer, fe wnaethon ni gyflawni ein holl ymrwymiadau cwsmeriaid pwysig. Cawsom y golau gwyrdd gan yr Adran Drafnidiaeth i barhau i ddefnyddio ein trenau Pacer yn 2020. Ddiwedd mis Mawrth 2020, daeth Metro De Cymru gam yn nes, pan, ar y cyd â'n partneriaid, fe wnaethon ni drosglwyddo seilwaith reilffordd a elwir yn lleol yn Llinellau Craidd y Cymoedd o Network Rail i TrC. Mae hon yn garreg filltir bwysig i TrC a'n partneriaid ar draws y llywodraeth a'r diwydiant, diolch i gydweithio agos.

Dyma drosolwg o'n perfformiad yn 2019/20, gan dynnu sylw at ein prif gyflawniadau a pherfformiad o'i gymharu â'n prif amcanion strategol:

- Creu rhwydwaith drafnidiaeth ddiogel, cynaliadwy, cydnerth ac effeithiol
- Datblygu profiad sy'n gwella'n barhaus – gan roi'r cwsmer wrth wraidd yr hyn a wnawn
- Darparu cyngor arbenigol y gellir dibynnu arno drwy arwain, arloesi a chydweithio
- Adeiladu sefydliad a phartneriaethau sydd â'r gallu i wireddu ein pwrpas



Creu rhwydwaith drafnidiaeth ddiogel, cynaliadwy, cydnerth ac effeithiol

Sicrhau diogelwch ein cwsmeriaid, staff a'r cyhoedd

Mae diogelwch wrth wraidd popeth a wnawn ac rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb i sicrhau bod diogelwch ein cwsmeriaid, staff a'r cyhoedd o ddifri. Mae atal damweiniau yn brif ffocws i ni ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn yn 2019/20 trwy weithio'n agos gyda'n cydweithwyr yng Ngwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru i roi'r mesurau hyn ar waith er mwyn lleihau'r risg i'n cydweithwyr a'n cwsmeriaid.

Dyma rai o'n prif gyflawniadau:

- Datblygu system adrodd perygl diogelwch wedi'i seilio ar ymddygiad, lansio system gyfrinachol i riportio achosion
- Cynnal trafodaethau gyda'r awdurdodau lleol ynghylch paratoi ar gyfer y gaeaf ac osgoi damweiniau yn ein gorsafoedd
- Ymaelodi â'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) a Track Safety Alliance (TSA)
- Cyhoeddi ein polisi cyffuriau ac alcohol ar gyfer staff
- Cynnal ymarfer pen bwrdd achosion mawr ym mis Ionawr a'n cynhadledd 'Every action has a consequence'. Cafodd y ddau ddigwyddiad adolygiadau positif gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru a Network Rail
- Gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru i gyflwyno camerâu corff i helpu i leihau ymosodiadau, gan arwain at leihad sylweddol yn yr achosion a adroddir
- Datblygu ein hyb gwybodaeth diogelwch canolog ac adnoddau a sefydlu ein rhaglen 'gweithio'n ddiogel' i rymuso ein holl staff i herio arferion peryglus. Mae ein staff hefyd yn datblygu eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth am ddiogelwch gan ddefnyddio ein ystafell hyfforddi diogelwch e-ddysgu
- Ymateb yn gyflym i gyngor llywodraeth sy'n codi ar y pandemig coronafeirws, gan flaenoriaethu diogelwch a lles ein staff

Mae diogelu iechyd a lles ein staff yn un o'n prif flaenoriaethau ac yn 2019/20, fe wnaethon gyflwyno mesurau i helpu eu cadernid.

Dyma pam y gwnaethon ni'r canlynol:

- Lansio gwefan iechyd a lles gynhwysfawr.
- Cytuno i addewid 'Amser i Newid Cymru' i gadw iechyd meddwl ar flaen popeth a wnawn. Rydym hefyd wedi hyfforddi deg o Gynorthwywyr Cyntaf Iechyd Meddwl a 15 o Eiriolwyr Iechyd Meddwl
- Cefnogi diwrnod 'Amser i Newid' Mind Cymru, gan godi ymwybyddiaeth ynghylch materion iechyd meddwl yn y gweithle
- Datblygu amrywiaeth o adnoddau a gweithgareddau lles wedi'u halinio gydag egwyddorion '5 Ffordd at Les'.
- Cyflwyno diwrnodau gwirfoddoli gyda chyflog i'n holl staff.
- Roedd sefydlu ein Grŵp Gweithredu Lles Cyflogeion, sy'n dîm o 14 staff sydd wedi ymrwymo i wella iechyd a lles yn TrC, hefyd yn gyflawniad pwysig yn 2019. Mae'r grŵp yn cynnal ymgyrchoedd iechyd rheolaidd wedi'u seilio ar egwyddorion '5 Ffordd at Les', mae'n hybu ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag iechyd er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd gweithio yn un iach a hyrwyddo'r hyn y mae cydweithwyr yn credu sy'n gweithio orau iddyn nhw.

Dyma ein '5 Ffordd at Les':

1	**Cysylltu:** siarad a gwrando, bod ar gael, teimlo yn rhan
2	**Bod yn actif:** gwnewch beth allwch chi, mwynhewch yr hyn a wnewch, newidiwch eich ffordd o feddwl
3	**Talu sylw:** cofio'r pethau syml sy'n rhoi pleser i chi
4	**Dal i ddysgu:** croesawu profiadau newydd, gweld cyfleoedd, synnwch eich hun
5	**Rhoi:** eich amser, eich geiriau, eich presenoldeb

Cyflawni ein targedau datblygu cynaliadwy

Mae llawer o bobl yn dibynnu ar ein rhwydwaith drafnidiaeth bob dydd. Ym mis Tachwedd 2019, fe wnaethon gyhoeddi ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy, sy'n disgrifio ein targedau datblygu cynaliadwy uchelgeisiol ynghyd â sut rydym yn bodloni deddfwriaeth a pholisïau. Hefyd, mae'n egluro sut rydym yn ymgysylltu ac yn cydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod ein hamcanion yn cael eu hymgorffori a bod y penderfyniadau a wneir yn gynaliadwy.

Cefnogir ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy gan ein Strategaeth Caffael Cynaliadwy, Cynllun Rheoli Amgylcheddol, Strategaeth Teithio Llesol, Cynllun Rheoli Gwastraff a Strategaeth Effaith Carbon Isel. Ym mis Tachwedd 2019, fe wnaethon ni hefyd gyhoeddi ein Strategaeth Effaith Carbon Isel sy'n disgrifio'r amrywiaeth o gamau rydym yn eu cymryd i leihau allyriadau rheilffordd, popeth o ddiweddaru ein cerbydau i gaffael ein hynni o adnoddau adnewyddadwy a thrydaneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd.

Dyma rai o'r camau pwysig y gwnaethon ni eu cymryd yn 2019/20 i gyflawni ein targedau cynaliadwyedd:

- Gweithio'n agos gyda GwerthwchiGymru a Busnes Cymru i ddenu busnesau bach a chanolig (BBaCh), gan gynnwys cynnal dau ddigwyddiad cwrdd â'r prynwr i rannu cyfleoedd tendro
- Caffael 100% o ynni adnewyddadwy yn 2019/20
- Cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar adnewyddiadau ochr y cledrau
- Lansio ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a chyhoeddi ein hadroddiad bioamrywiaeth cyntaf
- Gwirfoddoli yn y gymuned a chyflwyno tri diwrnod gwirfoddoli â thâl ar gyfer pob cyflogai bob blwyddyn
- Sefydlu partneriaeth gyda Cadw i gynnig mynediad 2 am bris 1 i'w safleoedd a bod yn brif noddwr a phrif bartner teithio Eisteddfod Genedlaethol 2019 Llanrwst
- Sefydlu ein gwaelodlin ôl-troed carbon er mwyn helpu i greu ein llwybr tuag at sero-net yn 2030

Gwella ein cadernid

Rydym yn gweithio'n galed i gryfhau ein cadernid ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Hefyd, rydym yn rheoli risgiau amgylcheddol trwy gynllunio, monitro, adolygu a, lle mae'n briodol, newid yr hyn a wnawn.

Mae'r hydref bob amser yn gyfnod heriol i'r diwydiant rheilffordd ac yn aml, gall effeithio yn sylweddol ar ein cwsmeriaid, er gwaethaf gwaith caled ein timau ledled Cymru. Aeth Gwasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru a Network Rail ati i gyflawni gwaith sylweddol er mwyn paratoi ar gyfer hydref 2019, gan gynnwys buddsoddi mewn technoleg atal llithro ar gyfer olwynion er mwyn gwella cadernid. Ar gyfartaledd, roedd 108 o drenau ar gael bob dydd yn hydref 2019 o'i gymharu â 99 yn hydref 2018. Roedd angen trwsio olwynion dim ond 70 o drenau ym mis hydref 2019 o'i gymharu â 170 yn hydref 2018 tra bod gostyngiad o 10,852 munud o oedi o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2018 – newyddion roedd ein cwsmeriaid yn ei groesawu.

Dyma gamau eraill y gwnaethon ni eu cymryd yn 2019/20 i helpu i wella cadernid:

- Datblygu cysylltiadau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol, yr Awdurdod Glo ac Arolwg Daearegol Prydain i ddatblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o Linellau Craidd y Cymoedd fel y gallwn ni ddeall cadernid seilwaith ein rheilffordd a'r cysylltiad rhwng y rheilffordd ac asedau trydydd parti
- Datblygu system wybodaeth ddaearyddol ar y cyd â Network Rail gan ddefnyddio data trydydd parti er mwyn deall pa asedau y gellir effeithio fwyaf arnynt mewn tywydd difrifol iawn fel llifogydd. Yn ogystal, rydym wedi bod yn adolygu data perfformiad i fapio'r safleoedd sydd fwyaf mewn perygl a chymryd camau i liniaru'r risgiau hyn
- Cynnal astudiaeth ddichonolrwydd ar adnewyddiadau ochr y cledrau
- Dyfarnwyd Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd i ni am ein rheolaeth amgylcheddol effeithiol a'r camau rydym yn eu cymryd i ddeall, monitro a rheoli yr effaith a gawn ar yr amgylchedd



Darparu rhwydwaith drafnidiaeth effeithiol

Ein nod yw gweithredu ein rhwydwaith reilffordd mor effeithiol â phosibl ar gyfer pobl a chymunedau Cymru a'r gororau. Yn 2019/20, fe wnaethon ni gymryd camau breision iawn o ran gwneud gwelliannau i'n seilwaith a phrosiectau datblygu – popeth er mwyn gwneud ein rhwydwaith drafnidiaeth mor hygyrch a dibynadwy a phosibl.

Trosglwyddo asedau Llinellau Craidd y Cymoedd

Ym mis Mawrth 2020, fe drosglwyddwyd cledrau Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert, a elwir yn lleol fel Llinellau Craidd y Cymoedd gan Network Rail i TrC – y tro cyntaf i drosglwyddiad o'r maint hwn gael ei wneud. Yn ogystal â'r cledrau, tir, gorsafoedd, pontydd signalau a thwneli, fe wnaethon ni groesawu 27 gweithiwr cynnal a gweithredu Network Rail i dîm TrC. Mae'r trosglwyddiad hwn yn gam mawr ymlaen yn ein cynlluniau i roi Metro De Cymru ar waith. Mae Llinellau Craidd y Cymoedd yn rhan bwysig o Metro De Cymru ac rydym nawr yn edrych ymlaen at eu trawsnewid fel y gallwn redeg ein trenau newydd - sy'n lanach, yn wyrddach ac yn gynt - arnyn nhw.

Canolfan Reoli'r Metro Ffynnon Taf

Ym mis Ionawr 2020, dechreuodd y gwaith adeiladu ar ein Canolfan Reoli'r Metro £100 miliwn yn Ffynnon Taf. Bydd hwn yn gyfleuster modern ar gyfer y tramiau-trenau fydd yn rhedeg ar Metro De Cymru a'r ganolfan reoli fydd yn goruchwylio gweithrediadau'r Metro.

Hyb Seilwaith Metro Trefforest

Mae Hyb Seilwaith Metro Trefforest, agorodd ym mis Ionawr 2020, yn gartref i tua 200 o staff TrC, Gwasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru a gweithwyr y partner datblygu seilwaith. Mae'r hyb newydd yn cynnwys cyfleusterau dosbarthu a swyddfeydd rheoli ac mae'n chwarae rhan hanfodol yn y broses o gyflwyno a chynnal a chadw Metro De Cymru yn y dyfodol.

Adeiladu gorsaf Bow Street

Ar y cyd â Chyngor Sir Ceredigion, Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth, fe wnaethon ni ddechrau adeiladu gorsaf drenau newydd gwerth £8 miliwn yn Bow Street yng Ngheredigion. Mae'r orsaf, fydd yn agor ddiwedd 2020, yn gyfnewidfa gyda 69 o leoedd parcio ceir a chysylltiadau i rwydweithiau teithio llesol lleol a gwasanaethau bysiau. Fel rhan o'n hymrwymiad i wella cysylltedd ledled Cymru, o agor yr orsaf newydd, bydd trenau yn stopio yn Bow Street am y tro cyntaf ers 55 o flynyddoedd.

Astudiaeth achos

Gorsaf newydd gwerth £8 miliwn yn Bow Street

Dechreuodd y gwaith adeiladu ar orsaf rheilffordd newydd gwerth £8 miliwn yn Bow Street, Ceredigion ym mis Ionawr 2020. Mae TrC, Network Rail a Chyngor Sir Ceredigion yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn adeiladu'r orsaf newydd.

Gorsaf Bow Street yw'r orsaf newydd gyntaf i'w hadeiladu ers i TrC ddechrau rhedeg gwasanaeth rheilffordd Cymru a'r Gororau yn 2018. Yr orsaf hon yw'r gyntaf o bump o orsafoedd newydd a gynlluniwyd, sy'n dangos ymrwymiad TrC tuag at fuddsoddi mewn cysylltu cymunedau drwy Gymru â'r rhwydwaith rheilffordd.

Disgwylir i'r orsaf hon agor ddiwedd 2020, ac mae'n cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth drwy Gronfa Gorsafoedd Newydd, a fydd yn cysylltu cymuned Bow Street â'r rhwydwaith rheilffordd cenedlaethol am y tro cyntaf ers 1965.

Wedi'i gwasanaethu gan drenau ar Linell y Cambrian rhwng Aberystwyth a'r Amwythig, bydd gorsaf Bow Street yn gyfnewidfa drafnidiaeth aml-foddol, gyda chyfleusterau parcio a theithio a chyfleusterau storio beiciau. Yn ogystal, bydd yn darparu mynediad at Gampws Arloesi ac Ymchwil y DU ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ogystal â'i brif gampws a bydd yn gwella cysylltiadau trafnidiaeth, gan agor cyfleoedd newydd ar gyfer cyflogaeth ac addysg.

"Bydd prosiect Cyfnewidfa Bow Street yn gwneud y rheilffordd yn fwy hygyrch i deithwyr o bob rhan o'r wlad yn ogystal â lleihau tagfeydd ar y ffyrdd yn yr ardal ac o ganlyniad, bydd yn lleihau'r allyriadau carbon sydd wrth gwrs yn sylfaenol well ar gyfer yr amgylchedd.

Mae Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian yn falch o fod wedi bod ynghlwm â'r prosiect hwn o'i gychwyn ac mae'n edrych ymlaen at ei gweld yn agor yn ddiweddarach eleni."

Claire Williams, Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol, Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian

James Price, Prif Weithredwr TrC a Ken Skates AS, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Datblygu profiad gwella parhaus – rhoi'r cwsmer wrth wraidd popeth a wnawn

Mae TrC wedi ymrwymo i ddarparu rhwydwaith drafnidiaeth o safon fyd-eang y gall pobl Cymru ymfalchïo ynddi.

Rydym am fod yn frand y mae pobl yn ymddiried ynddo ac yn ei barchu ac mae bodlonrwydd ein cwsmeriaid yn sylfaen i bopeth a wnawn, popeth o ddarparu gwasanaethau cynhwysol i leihau amser teithiau.

Rydym yn gwybod bod gennym lawer i'w wneud eto i wella profiad ein cwsmeriaid a darparu'r lefelau gorau posibl o fodlonrwydd cwsmeriaid. Dyma pam ein bod wedi bod yn brysur yn gwneud gwelliannau sylweddol ar draws ein gwasanaethau a'r rhwydwaith drafnidiaeth ehangach yn 2019/20. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

Buddsoddi miliynau o bunnoedd yn ein fflyd

Ym mis Gorffennaf 2019, fe wnaethon ni ddatgelu'r gwelliannau cyntaf i'n fflyd. Mae ein trenau Dosbarth 175 wedi cael eu diweddau gyda USB a socedi trydan, seddi, carpedi, byrddau a thoiledau newydd. Ym mis Rhagfyr, cyrhaeddodd ein trenau Dosbarth 170 cyntaf, gyda system awyru, systemau gwybodaeth i deithwyr, WiFi a mwy o le, ar linellau Swydd Gaerloyw i Maesteg a Chaerdydd i Lynebwy. Hefyd, fe wnaethon gyflwyno trenau ychwanegol ar linellau'r cymoedd, gan ddarparu lle i 6,500 mwy o deithwyr bob wythnos.

Mwy o wasanaethau trên ar y Sul

Yn dilyn newid amserlen Rhagfyr 2019, cynyddodd hyn yn sylweddol y nifer o wasanaethau trên sydd ar gael ar y Sul ar draws Cymru a'r gororau a hefyd gostwng amseroedd teithiau rhwng Gogledd a De Cymru. Gwelwyd cynnydd o 40% yn nefnydd o amserlenni dydd Sul yn ein gwasanaethau ar draws ein rhwydwaith gyda 186 o wasanaethau'n cael eu hychwanegu er mwyn gwella cysylltiadau ledled Cymru.

Arloesi ein systemau prisiau a thocynnau

Hefyd, rydym wedi gwneud gwelliannau i'n prisiau a'n tocynnau trwy'r flwyddyn, gan gyflwyno sawl opsiwn arloesol. Bellach, gall ein cwsmeriaid archebu tocyn ymlaen llawn ar gyfer bron i 3,000 o lwybrau newydd. Hefyd, fe wnaethon dreialu system docynnau clyfar ar draws ein rhwydwaith, gan gyflwyno gostyngiadau sylweddol ar brisiau tocynnau a theithio am ddim i blant. Fel rhan o'n menter ffioedd fforddiadwy a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2020, gwnaethom gyflwyno gostyngiadau o 1% ar gyfartaledd ar draws ein rhwydwaith gyfan, gyda rhai teithiau yn gweld hyd at 14% o ostyngiad.

Gweledigaeth Gwella Gorsafoedd gwerth miliynau o bunnoedd

Yn ogystal â glanhau ein holl orsafoedd yn drylwyr a chyflwyno arwyddion newydd yn 2019/20, hefyd, gwnaethom gyflwyno rhaglen fuddsoddi gwerth miliynau o bunnoedd i wella gorsafoedd rheilffordd ar draws ein rhwydwaith gyfan. Fel rhan o'r rhaglen hon, byddwn yn cyflwyno WiFi ychwanegol am ddim, gwell cysgodfeydd a CCTV, gwell lle i storio beiciau a gwella gwybodaeth cwsmeriaid.

Arlwyo ar y trên

Ym mis Ionawr 2020, fe wnaethon ni ddechrau cynnig gwasanaethau arlwyo ar ein trenau, gan groesawu dros 100 o staff i dîm TrC. Mae gennym gynllun uchelgeisiol i newid y gwasanaethau arlwyo sydd ar ein trenau yn llwyr gan gynnig gwasanaeth dibynadwy a gwahanol i'n cwsmeriaid, gan gynnwys bwyd a diod lleol. Rydym nawr yn gweithio'n galed gyda chyflenwyr lleol a'n tîm arlwyo i wella'r gwasanaeth ac i gynyddu ei effaith economaidd trwy gefnogi cyflenwyr lleol a datblygu cadwyn gyflenwi leol. Rydym yn gobeithio y bydd ein cwsmeriaid a'n cyflenwyr lleol yn croesawu'r gwelliannau sydd ar y gweill.

Adnewyddu tocynnau bws rhatach

Yn 2019/20, fe wnaethon weithio gydag awdurdodau lleol Cymru a Llywodraeth Cymru i gyflwyno Cardiau Teithio Rhatach o fath newydd mewn pedwar mis. Roedd ychydig dros 600,000 o bobl yn gallu ymgeisio am eu cardiau rhatach. Gan gofio bod llawer o bobl yng Nghymru yn dibynnu ar eu pasys bws, fe wnaethon ni weithio gyda phartneriaid fel Age Cymru i sicrhau bod y broses yn digwydd mor esmwyth â phosibl.

Cyflwyno Cynllun Ansawdd Gwasanaethau Newydd

Fe wnaethon ni gyflwyno cynllun newydd ar gyfer gwella perfformiad er mwyn gwella dibynadwyedd a diwyg ein trenau a'n gorsafoedd.

Ail-lansio'r gwasanaeth o Wrecsam i Lerpwl

Ym mis Mai 2019, fe wnaethon ni ddechrau rhedeg gwasanaethau rheilffordd uniongyrchol rhwng Gogledd Cymru a Lerpwl am y tro cyntaf ers 40 o flynyddoedd, gyda thri gwasanaeth yn rhedeg bob dydd, chwe diwrnod yr wythnos. Roedd hyn yn bosibl diolch i Network Rail yn uwchraddio lein Halton Curve.

Cyflwyno targedau newydd i wella teithiau

Yn 2019/20 cyflwynwyd dau darged newydd i ysgogi gwelliannau yn ein gwasanaethau a theithiau cwsmeriaid.

- Mae Time Lost yn fesurydd newydd ymhlith y gorau yn y farchnad sy'n mesur pa mor hwyr yw'r trên mewn amrywiol stopiau ar daith, gan ein galluogi i olrhain profiadau ein cwsmeriaid a sicrhau eu bod yn cyrraedd ar amser.

- Mae 'Short Formations' yn mesur canran y gwasanaethau sy'n gweithredu islaw capasiti angenrheidiol yr amserlen.

Ymgysylltu â Thasglu'r Cymoedd

Yn hydref 2019, fe wnaethon ni gynnal nifer o sioeau teithiol gyda Thasglu'r Cymoedd yn Aberdâr, Bargoed, Glynebwy, Merthyr Tudful, Pontypridd a Thondu, fel y gallai'r cymunedau lleol ddysgu am y gwelliannau rydym yn eu gwneud i'n rhwydwaith drafnidiaeth a'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw. Ymunodd bobl leol â ni i drafod problemau a chynlluniau trafnidiaeth lleol gyda thîm TrC, eu hawdurdodau lleol ac Aelodau lleol o'r Senedd.

Cyflwyno cyhoeddiadau Cymraeg / dwyieithog mewn gorsafoedd

Fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn frand dwyieithog, fe wnaethom gyflwyno a gwella ein cyhoeddiadau awtomatig Cymraeg / dwyieithog ym mhob un o'n gorsafoedd yn 2019/20. Rydym hefyd yn gweithio tuag at gyflwyno cyhoeddiadau Cymraeg / dwyieithog awtomatig ar ein holl drenau hefyd.

'Rydyn ni eisiau bod yn frand dibynadwy ac uchel ei barch ac mae boddhad ein cwsmeriaid yn sail i bopeth rydyn ni'n ei wneud.'

Astudiaeth achos

Buddsoddi yn ein gorsafoedd

Ym mis Medi 2019, lansiodd Ken Skates, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru gynllun buddsoddi TrC yn Abertawe er mwyn gwella holl orsafoedd rheilffordd yng Nghymru.

Mae ein Gweledigaeth Gwella Gorsafoedd yn tynnu sylw at y gwelliannau yr ydym yn eu cynllunio dros y 15 mlynedd nesaf.

Mae cynlluniau TrC yn cynnwys WiFi rhad ac am ddim, gwella cysgodfeydd trenau, TCC, lle i storio beiciau a gwella systemau gwybodaeth ar gyfer teithwyr.

Mae cyfleusterau newydd ar gyfer manwerthu a mannau cymunedol hefyd yn cael eu cynllunio ar gyfer gorsafoedd, gan greu cyfleoedd ar gyfer busnesau a chymunedau lleol.

Ymysg gwelliannau eraill, byddwn hefyd yn ymestyn ein rhaglen Achredu Gorsafoedd Diogel gyda Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, er mwyn gwneud ein gorsafoedd yn fwy diogel ac yn fwy croesawus ar gyfer cwsmeriaid. Bydd y cynllun cenedlaethol hwn yn gosod safonau o ymarfer da ynghyd ag achredu gorsafoedd unigol, lle mae'r diogelwch wedi gwella.

"Rydw i'n croesawu buddsoddiad TrC yng Ngorsaf Stryd Fawr Abertawe: Rydw i'n falch eu bod yn gweithio gyda'r cyngor i wella'r fynedfa hanfodol hon i'r ddinas. Croesewir yn fawr iawn y diwyg mwy siriol, newydd a modern i ddefnyddwyr rheilffordd sy'n cyrraedd Abertawe; mae'n ategu cynlluniau'r cyngor i adfywio canol y ddinas a'r ardal o gwmpas y Stryd Fawr.

Gan mai hwn yw'r prosiect cyntaf yng ngweledigaeth gwella gorsafoedd Cymru-gyfan TrC, mae hyn yn ychwanegu at gyffro dathliadau pen-blwydd ein dinas yn hanner cant oed. Mae Abertawe yn mynd trwy'r adfywio mwyaf ers cenhedlaeth. Rydym yn creu cyfleoedd newydd a fydd yn gweld miloedd mwy o bobl yn byw, gweithio a chwarae yng nghanol y ddinas."

Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe

Darparu cyngor arbenigol y gellir ymddiried ynddo, arweiniad ac arloesi

Mae TrC yn falch y gall Llywodraeth Cymru ymddiried ynddo am gyngor.

Er mwyn gallu darparu cyngor cywir ac ystyrlon, mae'n rhaid i ni fod yn arloesol ac yn gydweithredol gydag amrywiaeth o arbenigwyr. Yn 2019/20, fe wnaethon ni ddatblygu cysylltiadau cryf gyda'n cwsmeriaid, partneriaid a rhanddeiliaid er mwyn gallu deall mewnwelediadau pwysig o ddata o ansawdd uchel a ffynonellau gwybodaeth ac i sicrhau y seilir ein penderfyniadau ar y dystiolaeth gywir. Hefyd, rydym wedi ymgymryd â nifer o brosiectau arloesol lle rydym wedi gweithio mewn partneriaeth ag eraill i rannu ein harbenigedd yn 2019/20.

Rhoi cyngor ar ddefnydd tir a chynllunio trafnidiaeth

Rydym yn helpu ein rhanddeiliaid i wneud penderfyniadau synhwyrol ynghylch datblygu seilweithiau drwy roi cyngor ar gynllunio a modelu defnydd tir. Yn 2019/20, fe wnaethon ni roi cyngor proffesiynol i Gomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru ac ynghylch astudiaeth trafnidiaeth A483 yn Llandeilo. Yn 2020/21, bydd angen parhau i ymgynghori ymhellach ar y ddau brosiect.

Hefyd, rydym wedi bod yn helpu gyda'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru ac mae'n cyfraniad ni i'r polisi hanfodol hwn wedi bod yn hollbwysig yn ei datblygiad.

Cynyddu ein hygrededd fel partner darparu trafnidiaeth

Trwy gydol 2019/20, fe gwrddon ni'n rheolaidd â'n rhanddeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru a'r gororau. Fe wnaethon ni drefnu gweithdai rhannu/casglu gwybodaeth er mwyn annog cydweithio a hefyd cydweithio â datblygwyr lleol i greu canllaw cynhwysfawr i ddatblygwyr. Yn y canllaw hwn mae gwybodaeth werthfawr fydd yn helpu datblygwyr tir i wella cysylltedd. Er enghraifft, diogelu coridorau addas ar gyfer estyniadau Metro posibl.

Hefyd, fe wnaethon ni adolygu sawl cyfle ariannu gyda Llywodraeth Cymru, Network Rail a Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys darparu tystiolaeth i gefnogi cyllidebau ar gyfer gorsafoedd newydd.

Yn ogystal â sefydlu fframwaith Gwasanaethau Ymgynghori Peirianneg TrC 2 (ECS2), fe wnaethon ni sefydlu ein Fframwaith Ymgynghori Busnes yn 2019/20. Mae'r fframwaith hon yn ein galluogi i ymgysylltu'n effeithiol â'n partneriaid yn y gadwyn gyflenwi i ddarparu gwasanaethau ymgynghori trafnidiaeth blaenllaw yn y diwydiant, cyngor technegol a gwasanaethau rheoli prosiect ar gyfer amrywiaeth o brosiectau cyffrous.

Cefnogi Teithio Ymatebol Integredig

Yn 2019/20, fe wnaethon ni weithio gydag awdurdodau lleol, gweithredwyr a darparwyr trafnidiaeth sefydledig fel Grass Routes a Bwcabus i ddeall sut gellir darparu gwasanaethau bws sy'n canolbwyntio ar y cwsmer mewn dull cost-effeithiol ar draws Cymru gyfan.

Hefyd, rydym yn sefydlu tri cynllun arbrofol Teithio Ymatebol Integredig (IRT) lle gellir archebu taith gan ddefnyddio ap neu ffonio canolfan gyswllt genedlaethol ac yn bwriadu lansio rhagor yn y flwyddyn i ddod. Gyda IRT, bydd cyfle i deithwyr archebu tripiau rhannol a byddant yn cael eu codi yn agos i'w cartref. Bydd y gwasanaethau cyntaf yn cael eu darparu gan ddefnyddio bysiau mini manyleb fanwl newydd gyda help grant gan Lywodraeth Cymru.

Mewn un cynllun arbrofol rydym yn cefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wrth iddo ymgysylltu â sefydliadau cymunedol, masnachol a gweithredwyr trafnidiaeth cymunedol i asesu sut gall IRT helpu i fynd i'r afael â theimlo'n ynysig a helpu pobl i deithio i'r gwaith mewn dull mwy cost-effeithiol. Mae cymunedau lleol wedi ymateb yn bositif ac rydym yn gobeithio dechrau ymgynghori ar wasanaethau posibl yn 2020/21.

Rydym hefyd wedi bod yn flaenllaw yng nghynllun arbrofol IRT ar gyfer Cyngor Sir Benfro, gan gydweithio gyda'r gweithredwr trafnidiaeth cymunedol, Trafnidiaeth Gwirfoddol Sir Benfro ar dreial ar gyfer penrhyn Tŷ Ddewi. Mae'r peilot hwn eisoes ar waith ac mae wedi bod yn cludo plant i'r ysgol.

Yn olaf, rydym wedi helpu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyda gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid helaeth er mwyn deall sut gallai gwasanaeth IRT ddisodli nifer o wasanaethau'r cyngor nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol yn Nyffryn Conwy. Disgwylir y bydd y gwasanaeth hwn yn dechrau yn 2020/21.

Astudiaeth achos

Dechrau ar y gwaith adeiladu ar Ganolfan Reoli Metro TrC

Ym mis Ionawr 2020, dechreuodd y gwaith adeiladu ar ganolfan newydd gwerth £100 miliwn sef Canolfan Reoli Metro TrC yn Ffynnon Taf, sy'n rhan allweddol o Fetro De Cymru ac sydd wedi'i chyllido yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Bydd y ganolfan yn cynnwys cyfleuster modern ar gyfer cynnal a chadw tram-drenau a fydd yn rhan o Fetro De Cymru yn ogystal â chanolfan reoli ar gyfer gweithrediadau'r Metro, gan gynnwys signalau a symudiadau'r trenau.

Wedi'i leoli ar Ystâd Ddiwydiannol Gwaith Garth yn Ffynnon Taf, bydd y ganolfan yn gartref i oddeutu 400 o griwiau trên, 35 o weithwyr cynnal a chadw trenau ynghyd â 52 o weithwyr y ganolfan reoli.

"Mae hyn eto yn ddatblygiad mawr yng nghynlluniau Trafnidiaeth Cymru i gyflawni Metro De Cymru ar gyfer pobl De-ddwyrain Cymru. Mae cludiant yn cael ei drawsnewid yng Nghymru ac mae'n wych gweld mwy o enghreifftiau go iawn o gynnydd.

"Mae Metro De Cymru yn fuddsoddiad o dri chwarter biliwn o bunnau ac mae'r depo hwn sy'n werth £100 miliwn yn rhan fawr o hynny. Bydd yn gweithredu fel cartref ar gyfer ein cerbydau Metro newydd sbon, lle y bydd gwasanaethu a gwaith cynnal a chadw yn digwydd a bydd y ganolfan reoli yn goruchwylio'r gweithrediadau."

Ken Skates AS, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Teithio Llesol

Rydym yn frwdfrydig iawn dros gynyddu nifer y bobl sy'n cerdded ac yn beicio gyda phwrpas yng Nghymru, er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio ar y buddiannau amgylcheddol, iechyd a buddiannau eraill a ddaw yn sgil teithio llesol. Yn 2019/20, fe wnaethon ni helpu Llywodraeth Cymru i wella'r gwaith o roi Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ar waith drwy:

- Darparu cyngor ac arbenigedd arbenigol i ddiweddaru'r canllaw sy'n sylfaen i Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Adolygu a diweddaru'r broses ymgeisio, meini prawf asesu a'r nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer y rhaglen Gyllid Teithio Llesol er mwyn helpu i wella ansawdd y cynlluniau teithio llesol a gymeradwyir
- Darparu tystiolaeth i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisïau a strategaethau gan gynnwys Pwysau Iach: Cymru Iach a Chynllun Aer Glân i Gymru
- Asesu a gwerthuso tendrau ar gyfer rhaglen newid ymddygiad wedi'i seilio ar ysgolion newydd ynghyd â bidiau cyllid awdurdodau lleol trwy raglenni Llwybrau Diogelu mewn Cymunedau a Chronfeydd Teithio Llesol Llywodraeth Cymru
- Darparu cyngor teithio llesol ac arbenigedd ar ddatblygu Uwchgynlluniau Tasglu'r Cymoedd ar gyfer Caerffili, Merthyr a Phontypridd
- Cydlynu cyfraniadau rhanddeiliaid arbenigol ar deithio llesol yn sgil nifer o weithdai er mwyn gwella ein cynigion seilwaith ar gyfer Canolfan Reoli Metro Ffynnon Taf ynghyd â chyfleusterau beicio yn ein gorsafoedd
- Cynnal arolwg cynllunio teithio i weithwyr i helpu i ddatblygu Cynllun Teithio TrC, cefnogi Siarter Teithio'n Iach Caerdydd
- Hybu teithio llesol mewn sawl cynhadledd

Rydym hefyd wedi bod yn datblygu ein Strategaeth Teithio Llesol, gan amlinellu ein hamcanion a'n cynlluniau ar gyfer y gwaith a wnawn i wella hybu teithio llesol yn y blynyddoedd i ddod.

Ystyried ymarferoldeb ymestyn Metro De Cymru

Ym mis Hydref 2019, fe wnaethon ni sefydlu tîm prosiect i ystyried ymarferoldeb ymestyn ein rhwydwaith reilffordd y tu hwnt i'r trawsnewidiad presennol o Linellau Craidd y Cymoedd.

Gan ddefnyddio dull gweithio wedi'i seilio ar ddata, cynhaliodd y tîm weithdai er mwyn ystyried data ynghylch galw a demograffeg ac adolygu ymarferoldeb amrywiaeth o estyniadau rhwydwaith posibl, gan ystyried ffactorau fel capasiti cyffredinol rhwydwaith rheilffordd Metro De Cymru, dyheadau rhanddeiliaid, amserlen cyflawni a chostau dangosol.

Proses wirio prosiectau

Rydym yn tyfu'n gyflym ac mae gennym nifer o brosiectau mawr ar waith sydd â phroffiliau risg sylweddol. Yn 2019/20, fe wnaethon ni fireinio ein system reoli a llywodraethu, gan ddiweddaru ein prosesau i ddarparu rhagor o sicrwydd bod gan bob un o'r prosiectau hyn gylch bywyd clir, camau llywodraethu priodol a bod modd eu harchwilio ar unrhyw adeg.

Adolygu Dyluniadau

Rydym yn gweithio gyda Chomisiwn Dylunio Cymru i gytuno ar ddull strategol cyffredin o weithio ar ein prosiectau a'n rhaglenni mawr yn y dyfodol. Byddwn yn cynnal adolygiadau o'n dyluniadau a gweithdai ynghylch ystyriaethau arwain gyda'r Comisiwn er mwyn cytuno ar gamau ymarferol i arwain ansawdd dyluniadau yn ein datblygiadau seilwaith yn y dyfodol. Ein nod yw alinio systemau, prosesau a diwylliant TrC i fanteisio i'r eithaf ar fuddiannau'r datblygiadau hyn i'n cwsmeriaid, rhanddeiliaid a chymunedau Cymru.

Pwysau Iach: Cymru Iach

Rydym yn aelod o Fwrdd Gweithredu Cenedlaethol Pwysau Iach: Cymru Iach sy'n amlinellu cynllun deng mlynedd uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i weddnewid y ffordd y mae pobl Cymru yn gwneud penderfyniadau bob dydd ynghylch eu pwysau a'u lles.

Rydym yn gweithio ar ganllawiau i hybu/hysbysebu dewisiadau iach yn ei gorsafoedd. Hefyd, rydym yn darparu mannau ail-lenwi poteli dŵr am ddim mewn llawer o'n gorsafoedd.

Arlwyo ar y trên

Ym mis Ionawr 2020, fe wnaethon ni ddechrau cynnig gwasanaethau arlwyo ar y trên ar ein gwasanaethau rheilffordd, gan groesawu dros 100 o staff i bump depo i dîm TrC o'r sector preifat. Bellach, rydym yn datblygu ac yn gwella ein gwasanaethau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid. Bydd hyn yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig lleol.

Ehangu ein tîm ymgynghori

Yn 2019/20, fe wnaethon ni ehangu ein tîm ymgynghori, gan roi hwb i'n galluoedd mewnol drwy benodi rheolwyr prosiect ychwanegol, peirianwyr prosiect a phrentis i gefnogi swyddogaeth priffyrdd Llywodraeth Cymru. Bellach, ein bwriad yw ehangu'r tîm ymhellach, gan recriwtio mwy o gynllunwyr trafnidiaeth a rheolwyr prosiect, i roi hwb i'n gallu i ddarparu prosiectau mawr fydd yn sylfaen i rwydwaith trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol.

Ein huned ddadansoddi

Yn TrC, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y penderfyniadau a wnawn wedi'u seilio ar dystiolaeth ac yn 2019/20, fe wnaethon ni ehangu ein huned ddadansoddi i gynnwys amrywiaeth o swyddogaethau dadansoddi trafnidiaeth mewnol.

Ein nod yw deall y defnydd presennol a'r defnydd y dymunir ei wneud yn y dyfodol ar drafnidiaeth yng Nghymru er mwyn gwella ansawdd a chysondeb y dystiolaeth sy'n sylfaen i benderfyniadau a buddsoddiad a wneir mewn trafnidiaeth yng Nghymru.

Yn 2019/20, fe wnaeth ein huned ddadansoddi:

- Dechrau datblygu modelau trafnidiaeth newydd yn ymwneud â De-orllewin, Canolbarth a Gogledd Cymru. Bydd y modelau newydd hyn yn cyd-fynd â'r model cyfredol ar gyfer De-ddwyrain Cymru gan ddarparu cynrychiolaethau cyfrifiadurol o deithiau pobl ar drenau, bysiau ac ar y ffordd.
- Darparu tystiolaeth wedi'i arwain gan ddata i helpu Llywodraeth Cymru i baratoi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fel y cynllun datblygu newydd i Gymru
- Sefydlu gweithgor ar y cyd ar gyfer yr Arolwg Teithio Cenedlaethol newydd i Gymru

  Drwy weithio mewn ffordd mwy rhagweithiol i ddadansoddi'r galw sydd am drafnidiaeth a datblygu modelau trafnidiaeth, bydd TrC yn gallu sicrhau bod prosiectau a rhaglenni trafnidiaeth y dyfodol yn cael eu darparu yn fwy effeithiol, eu bod yn fwy cost-effeithiol ac yn diwallu anghenion pobl Cymru.

'Yn 2019/20, fe wnaethon ni ddatblygu cysylltiadau cryf gyda'n cwsmeriaid, partneriaid a rhanddeiliaid er mwyn gallu deall mewnwelediadau pwysig o ddata o ansawdd uchel a ffynonellau gwybodaeth ac i sicrhau y seilir ein penderfyniadau ar y dystiolaeth gywir.'

Adeiladu sefydliad a phartneriaethau sydd â'r gallu i gyflawni ein nodau

Roedd ein diwylliant cryf, tîm galluog a phartneriaethau agos yn hanfodol i'n cyflawniadau yn 2019/20.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr o ddewis. Rydym am i'n staff a'n partneriaid fod yn falch o weithio i ni. Yn 2019/20, fe wnaethon ni greu 90 o swyddi gan gyflawni sgoriau o 97% am les, a 75% am fodlonrwydd staff yn ein arolwg ymgysylltu â staff ym mis Hydref 2019.

Nod TrC yw darparu buddsoddiad cyhoeddus gyda phwrpas cymdeithasol sydd wedi'i alinio'n llwyr gyda pholisïau Llywodraeth Cymru ac sydd o fudd i bobl a chymunedau Cymru. Fe wnaethon ni gyflwyno amrywiaeth o fentrau i'n helpu i gyflawni hyn yn 2019/20.

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Ym mis Ebrill 2019, roedd Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau (GPG) TrC yn 18.6% ac erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019, roedd wedi cwympo i 14%. Rhwng Ionawr a Mawrth 2020, cynyddodd nifer ein staff i 305 o 136 ym mis Rhagfyr 2019. Roedd y cynnydd hwn yn cynnwys 104 o gydweithwyr arlwyo. Gyda'r mwyafrif o swyddi rheolwyr uwch a rheolwyr canol yn gydweithwyr gwrywaidd, mae ein GPG wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan y trosglwyddo hwn.

Bydd ein model cyflog yn sicrhau y bydd, yn y dyfodol, yr unig wahaniaethau mewn cyflog yn cael eu seilio ar gyfraniad a pherfformiad. Bydd hyn yn cymryd cryn amser i effeithio ar ein ffigurau GPG mewn ffordd bositif. Hefyd, mewn cyfnod pan rydyn ni'n lansio ein hamcanion cydraddoldeb, rydym yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod cydraddoldeb cyfleoedd i'n holl staff.

Astudiaeth achos

Tâl teg am ddiwrnod teg o waith

Mae ein hachrediad fel Cyflogwr Cyflog Byw yn golygu y bydd pawb sy'n gweithio i TrC yn derbyn lleiafswm cyflog bob awr o £9.30, sy'n sylweddol uwch na'r lsafswm Cyflog Cenedlaethol o £8.21 yr awr ar gyfer y rhai dros 25 oed.

Fel cwmni Llywodraeth Cymru nid-er-elw, mae TrC yn ceisio cyflawni buddsoddiad cyhoeddus gyda diben cymdeithasol sy'n unol â pholisi Llywodraeth Cymru ac sy'n dod â buddion i bobl, cymunedau a busnesau Cymru.

Mae TrC wedi ymuno â thros 5,500 o gyflogwyr cyfrifol yn y DU i ymrwymo yn wirfoddol i wella'r isafswm cyflog cenedlaethol er mwyn sicrhau bod eu holl weithwyr yn ennill digon i fyw arno.

Fel rhan o'n Cynllun Datblygu Cynaliadwy, rydym wedi ymrwymo yn ogystal i dalu'r Cyflog Byw i'n isgontractwyr, ac yn y dyfodol byddwn yn dewis cyflenwyr yn unig sy'n talu'r Cyflog Byw i'w gweithwyr.

"Rydym yn falch y gall TrC chwarae ei ran i gefnogi nod Llywodraeth Cymru i wneud Cymru yn Wlad o Waith Teg ac rydym wrth ein boddau bod TrC yn cael ei gydnabod yn ffurfiol yn awr fel Cyflogwr Cyflog Byw.

"Rydym yn adeiladu tîm amrywiol yn TrC, sy'n adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu ac mae ymrwymiad ein gweithwyr yn hanfodol ar gyfer ein llwyddiant. Rydym yn dymuno gweld pawb sy'n gweithio i TrC yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael gyrfa foddhaus a chredwn fod diwrnod teg o waith yn haeddu tâl teg."

Lisa Yates, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol, Trafnidiaeth Cymru

Niferoedd Staff Mawrth 2019



Niferoedd Staff Mawrth 2020



Cyflogres 2020

£7.7miliwn

2019

£2.0miliwn

Cyfraddau Cadw

98.7%

Canolrif tâl

2020

Gwryw £17.44

Benyw £10.20

2019

Gwryw £27.73

Benyw £22.56

Bwlch yn y canolrif tâl rhwng y rhywiau

2020

41.5% (DU: 17.3%)

2019

18.6% (DU: 17.9%)

Adeiladu ein partneriaeth gymdeithasol

Mae undebau llafur yn rhan bwysig o adeiladu ein cwmni ac rydym wedi dewis cydnabod yr holl undebau llafur perthnasol yn y sectorau rydym yn gweithredu ynddyn nhw er mwyn adeiladu partneriaeth gymdeithasol effeithiol.

Yn 2019/20, cynigiwyd cytundeb partneriaeth wedi'i seilio ar ymddiriedaeth a chyd-ddealltwriaeth gyda'n partneriaid yn yr undebau llafur sy'n cydnabod y gallwn ni ond gyflawni ein nodau pan rydym yn cydweithio ac yn cydweithredu. Mae ein ffordd gydweithredol a thryloyw o adeiladu partneriaeth gymdeithasol effeithiol yn annog llwyddiant parhaus, gan sicrhau bod TrC yn gyflogwr yr hoffai pobl weithio iddo. Hefyd, croesawyd cynrychiolydd o'n hundebau llafur cydnabyddedig i arsylwi yn ein cyfarfodydd Bwrdd. Mynychodd Gareth Howells (Prospect) ein cyfarfod Bwrdd rhwng Hydref a Rhagfyr 2019 a mynychodd Natalie Feeley o'r TSSA (Sefydliad Staff Trafnidiaeth Cyflogedig) y cyfarfod ym mis Mawrth 2020.

Ein prentisiaethau

Ein nod yw denu pobl frwdfrydig, tra medrus a chymwys i TrC ac yn 2019/20, fe wnaethon ni groesawu ein prentisiaid cyntaf i'n rhaglen brentisiaeth. Fe wnaethon ni recriwtio saith prentis yn rheolwyr prosiect i weithio yn ein timau Seilwaith a Gwasanaethau Corfforaethol.

Creu arweinwyr y dyfodol

Ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, fe wnaethon ni gefnogi Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 er mwyn helpu i greu arweinwyr y dyfodol ac i gefnogi pobl ifanc a rhoi cyfleoedd iddyn nhw ddysgu a gwella eu sgiliau. Mae un o'n gweithwyr yn cymryd rhan yn y rhaglen ddeg mis hon a ddechreuodd ym mis Ionawr 2020.

Ein hymrwymiad i Gyflog Byw Gwirioneddol ar hyd ein cadwyn gyflenwi

Ym mis Tachwedd 2019, cawsom ein hardystio yn Gyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol gan sicrhau bod gweithwyr cymwys yn cael isafswm o gyflog bob awr sydd 13% yn uwch na'r isafswm cyflog presennol. Gyda tua 268,000 o swyddi yng Nghymru yn talu llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol, fel cwmni nid-er-elw Llywodraeth Cymru, rydym hefyd yn sicrhau bod ein cyflenwyr yn talu'r cyflog byw hefyd.

Penodiadau newydd i'r bwrdd

Ym mis Hydref 2019, ymunodd Vernon Everitt, Rheolwr Gyfarwyddwr Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Thechnoleg Transport for London â'n Bwrdd fel Cyfarwyddwr Anweithredol.

Uned Fusnes Gogledd Cymru

Yn 2018, fe wnaethon ni agor Uned Fusnes Gogledd Cymru yn Wrecsam gyda dim ond dau aelod o staff. Bellach, mae gennym dîm o 11 ac yn fuan, bydd yr uned yn symud i gartref newydd fydd â digon o le i 24 o gydweithwyr cyn symud i Orsaf Ganolog Wrecsam fel rhan o Hyb Wrecsam.

Symud i Bontypridd

Yn 2019/20, roedd y gwaith adeiladu yn ein pencadlys newydd yn Llys Cadwyn, Pontypridd yng nghanol y dref yn dod yn ei flaen yn dda ac fe lofnodwyd cytundeb i rentu'r adeilad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ym mis Rhagfyr 2019. Rydym yn creu pencadlys fydd, rydym yn gobeithio, yn sefydliad o safon fyd-eang ynghyd â bod yn lle bywiog i weithio ynddo sy'n meithrin diwylliant o gydweithio ac arloesi ac sydd hefyd yn llesol i les ein staff.

Rydym wedi ymrwymo i adfywiad economaidd ac yn falch o allu chwarae ein rhan yn hybu twf cynaliadwy yn economi Cymru. Ein uchelgais yw y bydd Llys Cadwyn yn hyb ar gyfer swyddi gwerth uchel yn y sector trafnidiaeth i bobl leol. Mae Llys Cadwyn yn rhan o gynllun adfywio ehangach fydd yn cyflawni buddiannau economaidd sylweddol i Rhondda Cynon Taf ac rydym am i bobl leol ymfalchïo yn y ffaith bod ein pencadlys ym Mhontypridd.

Erbyn mis Mawrth 2020, roedd 99.82% o wastraff adeiladu o'r prosiect wedi cael ei ailgyfeirio o safle tirlenwi ac ers i'r gwaith adeiladu ddechrau ym Mawrth 2018, mae dros 2,700 wythnos o waith wedi cael eu creu i bobl leol, o bobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod maith i hyfforddeion a phrentisiaid.

Yn 2019/20, fe wnaethon ni ddechrau ystyried ffyrdd o annog adfywio lleol a dechrau meithrin cysylltiadau gyda busnesau lleol. Hefyd, fe wnaethon ni ddechrau rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned trwy ein gweithgareddau gwirfoddoli ac aeth ein staff ati i wirfoddoli eu hamser yn ystod stormydd Chwefror 2020.

Her sgiliau dyfodol Cymru

Rydym yn chwarae rôl bwysig yn llywio gweithlu Cymru yn y dyfodol a helpu economi Cymru i ffynnu.

Bydd y prosiectau adeiladu a seilwaith y byddwn yn eu rhoi ar waith yn darparu cyfleoedd gwaith newydd ac er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r her sgiliau hon, fe wnaethon ni ymuno â gweithgor cynllun Cyflogaeth a Sgiliau y Bartneriaeth Sgiliau sydd â'i nod ar ddeall y sgiliau sydd ar gael ynghyd â'r sgiliau fydd eu hangen yn y dyfodol. Hefyd, mae'n fwriad gan y gweithgor hwn greu mwy o gysylltiadau rhwng y comisiynwyr seilwaith, llywodraeth, busnes ac ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant er mwyn ymwreiddio gweithio ar y cyd a goresgyn rhwystrau i ddarparu prosiectau buddsoddi sylweddol yng Nghymru.

Cyflog a holl fuddion

Yn 2019/20, yn unol â'n nod i fod yn gyflogwr blaengar ac i sefydlu diwylliant sydd wedi'i seilio ar ddysgu sy'n annog perfformiad uchel, fe wnaethon ni gyflwyno ein system holl fuddion cyflog a chyflogai newydd.

Datblygu ein systemau a'n prosesau cyllid ac adnoddau dynol

Yn 2019-20, fe wnaethon ni roi ar waith ein system gyllid newydd, gan ein galluogi i symleiddio ein prosesau cyfrifyddu prosiect gyda dulliau cymeradwyo llif gwaith sy'n cael eu rheoli'n ddiogel. Mae hyn yn gwneud y gorau o'n perfformiad ariannol ac yn ein gwneud yn fwy effeithiol wrth wneud penderfyniadau. Mae hefyd yn ein galluogi i ddatblygu cysylltiadau effeithiol gyda'n cyflenwyr.

Fe wnaethon ni gaffael a rhoi ar waith ein system AD (adnoddau dynol) newydd. Fe wnaethon ni hefyd roi ar waith amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau newydd er mwyn ein galluogi i dyfu tra'n parhau i gydymffurfio mewn meysydd pwysig fel fetio at ddibenion diogelwch a chyfraith cyflogaeth.

'Ein nod yw denu pobl frwdfrydig, tra medrus a chymwys i TrC.'

Astudiaeth achos

Buddsoddi yn nhalent y dyfodol

Fel partneriaid Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym yn buddsoddi mewn creu etifeddiaeth arweinyddiaeth sy'n cefnogi'r rhai hynny sydd angen gweithredu heddiw er mwyn creu yfory gwell.

Rhaglen bartneriaeth yw Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cael ei harwain gan Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae'r Academi yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu a gwella eu sgiliau, er mwyn sicrhau bod gennym ni arweinyddiaeth gref yng Nghymru heddiw ac yn y dyfodol.

Mae TrC hefyd wedi buddsoddi mewn prentisiaethau yn ystod 2019/2020 ac mae saith o brentisiaid yn gweithio gyda ni ar hyn o bryd yn dilyn Prentisiaeth Rheoli Prosiectau Lefel 4. Mae'r rhaglen 18 mis hon yn cynnwys dysgu seiliedig ar waith, gweithdai ynghyd ag archwilio egwyddorion rheoli prosiectau.

Ymunodd Alannah Lewis â TrC ym mis Medi 2019. Roedd yn ddisgybl yn Ysgol St Martin yng Nghaerffili cyn iddi astudio'r Gyfraith drwy'r Brifysgol Agored.

"Roeddwn i eisiau bod yn rhan o rywbeth newydd a chyffrous. Rydw i wrth fy modd gyda pha mor flaengar ac arloesol yw TrC. Rydym yn trawsnewid Cymru go iawn ac rydw i'n falch o fod yn rhan o'r tîm.

"Mae fy ngyrfa wedi cychwyn mewn ffordd wych, ac mewn gwirionedd, rydw i'n mwynhau gweithio ar brosiectau mor gyffrous. Rydw i hefyd yn cydnabod pa mor ffodus yr ydw i o fod yn rhan o ddiwylliant sy'n magu'r fath deimlad positif, arloesedd a hunanddatblygiad."

Alannah Lewis, Prentis, Trafnidiaeth Cymru

Edrych ymlaen – ein hamcanion strategol

Rydym yn dechrau oes newydd i drafnidiaeth yng Nghymru ac rydym eisoes wedi dechrau rhaglen fuddsoddi sylweddol yn ein seilwaith trafnidiaeth.

Mae cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru yn esblygu'n barhaus ac eisoes yn cynnwys mwy na rheilffyrdd. Yn 2019/20 gwnaethom barhau i dyfu a chyflawni amrywiaeth o brosiectau ar draws gwahanol ddulliau o drafnidiaeth. Ymhlith yr enghreifftiau allweddol oedd cydweithio â holl awdurdodau lleol Cymru a Llywodraeth Cymru i gyflwyno Cardiau Teithio Rhatach yn ogystal â llywio cynlluniau ar gyfer dyfodol gwasanaethau bysiau Cymru, Trafnidiaeth Ymatebol Integredig a Theithio Llesol.

Mae trafnidiaeth yn debygol o barhau i newid yn y dyfodol ac er bod gennym lawer i'w wneud yn y blynyddoedd i ddod, bydd ein gweledigaeth a'n pwrpas yn sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio, yn croesawu newid ac yn helpu i lywio a llunio ein penderfyniadau.

Coronafeirws a'n cynlluniau yn y dyfodol

Rydym wedi bod wrthi yn datblygu ein cynlluniau uchelgeisiol ers i Trafnidiaeth Cymru gael ei sefydlu a chyn y pandemig coronafeirws presennol. Rydym yn gwmni hyblyg ac wedi addasu i'r sialensiau sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd tra hefyd yn adolygu a datblygu ein cynlluniau tymor hwy ac yn rheoli'r canlyniadau ariannol sy'n deillio o hynny'n effeithiol.

Roedd amserlen llai rheolaidd ar waith yn ystod y cyfnod clo i gefnogi gweithwyr allweddol a chwsmeriaid oedd yn gwneud siwrneiau hanfodol. Tynnwyd y gwasanaethau arlwyo o'n trenau ym mis Mawrth 2020 ac rydym wedi parhau i gefnogi ein gweithwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Rhoddwyd mesurau ar waith i gefnogi ymbellhau cymdeithasol ar ein trenau a'n gorsafoedd. Lansiwyd hefyd ein hymgyrch Teithio'n Saffach a chefnogwyd ymgyrch Diogelu Cymru Llywodraeth Cymru yn ogystal â chydweithio'n agos â gweithredwyr bysiau yng Nghymru, gan gynnwys lansio'r fflecsi newydd, cynllun peilot archebu bysiau ar rai siwrneiau penodol yng Nghasnewydd.

Gan gydnabod effaith hirdymor y coronafeirws, byddwn yn addasu ein cynlluniau gydol 2020/21 fel bod cwsmeriaid yn gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus mor ddiogel a chyfleus â phosibl yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n cwsmeriaid, busnesau, rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru wrth i ni ddatblygu a gweithredu ein cynlluniau. Byddwn hefyd yn ystyried sut gall technoleg a ffyrdd newydd o redeg gwasanaethau ein helpu i addasu.

.

Byddwn yn addasu ein cynlluniau gydol 2020/21 fel bod cwsmeriaid yn gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus mor ddiogel a chyfleus â phosibl yn y dyfodol.

DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

Creu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, cynaliadwy, cadarn ac effeithiol

Ein nod yw gwneud teithio'n haws a gwella cysylltiadau rhwng gwahanol ddulliau o drafnidiaeth a rhanbarthau gwahanol, drwy ddarparu seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth integredig o ansawdd uchel. Rydym yn trawsnewid ein rhwydwaith trafnidiaeth i rwydwaith sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac y gall ein cwsmeriaid ddibynnu arno. Felly, os yw ein cwsmeriaid yn teithio ar drên, bws, beic neu'n cerdded, gallwch ddisgwyl siwrneiau mwy diogel a chydgysylltiedig.

Rydym hefyd yn gwneud y mwyaf o dechnoleg i sicrhau bod ein rhwydwaith cyfan yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn fwy cydgysylltiedig. Mae datblygu cynaliadwy yn ganolog, gan helpu i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd, a sicrhau ein bod yn cael effaith fesuradwy ar gymdeithas yng Nghymru drwy gyfrannu at economi Gymreig ffyniannus yn y presennol a'r dyfodol.

Ein pwyslais yn 2020/21 yw:

Cyflwyno a rheoli gwasanaethau ar draws gwahanol ddulliau o drafnidiaeth	• Rydym yn cynhyrchu cynllun gwella gwasanaethau ar gyfer gwasanaeth trenau Cymru a'r Gororau. • Ar ôl cymryd perchnogaeth o Linellau Craidd y Cymoedd ddiwedd Mawrth 2020, rydym yn dechrau adeiladu Metro De Cymru, rhwydwaith trafnidiaeth newydd cyffrous o'r radd flaenaf a fydd yn trawsnewid y ffordd rydym yn teithio, naill ai ar drên, bws, beic neu ar droed. • Rydym yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau ymgynghori, ymgysylltu, hyfforddi, cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth, i wella gweithrediad Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, yn ogystal â helpu gyda chaffael gwasanaethau ar lefel Cymru fel ehangu cynlluniau llogi beiciau cyhoeddus.
Gwreiddio cynaliadwyedd yn ein rhwydwaith trafnidiaeth	• Byddwn yn cyflawni allyriadau carbon net-sero erbyn 2030 drwy fabwysiadu dull net-sero i'n gweithrediadau ein hunain a'r rhai rydym yn dylanwadu arnynt - rydym yn datblygu cynllun i gyflwyno fflyd o fysiau, tacsis a cherbydau hurio preifat (PHV) allyriadau sero yng Nghymru erbyn 2028. • Drwy ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy ar gyfer ein gweithrediadau, byddwn yn lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn lleihau gwastraff lle bo'n bosibl.
Adeiladu rhwydwaith trafnidiaeth cadarn	• Rydym wedi creu Rheolwr Seilwaith Dewis Olaf (IMLR) a Thrwydded Rhwydwaith Cysgodol ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae hyn yn golygu y gallwn weithredu gwasanaeth rheilffordd Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru os na all ein partner datblygu seilwaith wneud hynny mwyach. • Rydym yn adolygu ein capasiti rheilffordd hirdymor, gan gynnwys datblygu cynllun sydd wedi'i gostio a dull caffael i wireddu twf yn y dyfodol. • Drwy gynnal asesiadau risg ac asesiadau effaith, byddwn yn sicrhau bod gennym gynlluniau addasu cadarn i ymateb i newid hinsawdd, yn ogystal ag effaith y pandemig Coronafeirws.
Cynllunio a chyflwyno rhwydwaith trafnidiaeth integredig, deallus o'r dechrau i'r diwedd	• Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu seilwaith trafnidiaeth integredig i ddiwallu anghenion preswyl, busnes a gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys Uwch-gynllun Caerdydd Canolog, Metro, ein rhwydwaith bysiau a Thrafnidiaeth Ymatebol Integredig. • Byddwn yn darparu mwy o wasanaethau integredig drwy ein system docynnau sy'n seiliedig ar gyfrifon, meithrin cysylltiadau gyda systemau llogi beiciau, gwasanaethau bysiau a systemau adnabod rhifau cofrestru ceir yn awtomatig ym meysydd parcio Trafnidiaeth Cymru.

Datblygu profiad sy'n gwella'n barhaus - gan roi'r cwsmer wrth wraidd yr hyn a wnawn

Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn cael profiad eithriadol pan maen nhw'n teithio ar ein rhwydwaith ac yn defnyddio ein gwasanaethau. Dyna pam mae ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn ac rydym yn gwella ein dealltwriaeth o'u hanghenion drwy'r amser.

Rydym am ddechrau drwy sicrhau bod ein gwasanaethau'n hygyrch, yn ddibynadwy, yn ddiogel ac yn werth da am arian, ond rydym hefyd yn mynd ymhellach o lawer. Bydd ein pobl yn gwneud i'n cwsmeriaid deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a'u bod yn cael gofal. Byddant yn rhoi cwsmeriaid yn gyntaf a byddwn yn eu grymuso i wneud y penderfyniadau cywir.

Rydym yn adeiladu rhwydwaith trafnidiaeth effeithlon a chydgysylltiedig ac yn darparu gwybodaeth well i gwsmeriaid am deithio fel y gallant wneud y gorau ohoni.

Ein pwyslais yn 2020/21

Cynllunio ar gyfer profiad teithio a thrafnidiaeth ein cwsmeriaid	• Pan rydym yn cynllunio profiad teithio di-dor i'n cwsmeriaid, byddwn yn ystyried patrymau ac anghenion teithio o'r dechrau i'r diwedd i ddarparu gwasanaethau a datblygu partneriaethau i wneud teithio'n haws. • Byddwn yn gwella cysylltiadau rhwng gwahanol ddulliau o drafnidiaeth ar draws ein rhwydwaith drwy ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth integredig o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid yn y presennol a'r dyfodol. • Byddwn hefyd yn cefnogi proses o gaffael a gweithredu gwasanaeth newydd yn lle'r trenau yn 2020/21.
Cyflwyno gwasanaethau trafnidiaeth fforddiadwy, apelgar a hygyrch	• Byddwn yn cefnogi gwelliannau hygyrchedd ar draws ein rhwydwaith trafnidiaeth a chwilio am gyfleoedd i drosglwyddo unrhyw arbedion o'n harbedion effeithiolrwydd i wneud ein gwasanaethau yn fwy fforddiadwy a helpu i leihau tlodi. • Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu i ddod yn sefydliad 'Dementia-Gyfeillgar' ac ymgysylltu â Chymdeithas Clefyd Alzheimer's Cymru i wella ein gorsafoedd, arwyddion canfod ffordd a hygyrchedd
Ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n cymunedau	• Cyflwyno rhaglen hyfforddi ac ymgysylltu gwasanaeth cwsmeriaid newydd i'r holl weithwyr er mwyn gwreiddio diwylliant sy'n canolbwyntio ar y cwsmer o fewn Trafnidiaeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys datblygu dull newydd o reoli cysylltiad â chwsmeriaid. • Drwy sicrhau ein bod yn deall anghenion trafnidiaeth y presennol a'r dyfodol ar draws Cymru gyfan wrth gynllunio gwelliannau i'r rhwydwaith, byddwn yn parhau i gydweithio ac ymgysylltu'n genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol i ddatblygu ein dealltwriaeth ac i sicrhau ein bod yn darparu'r gwerth gorau. • Parhau i ddatblygu ein strwythur ymgynghorol newydd drwy weithredu panel rhithwir o gwsmeriaid - grŵp cynrychioliadol o gwsmeriaid Trafnidiaeth Cymru i'n cynghori ar wella ymgysylltiad ac ymgynghori â chwsmeriaid. • Datblygu ein mewnwelediad drwy ymgysylltu â'r cyhoedd i ddeall pryderon y rheini sydd ddim yn defnyddio trafnidiaeth. • Cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu Arolwg Trafnidiaeth Cenedlaethol i Gymru. Byddwn hefyd yn cydweithio â Croeso Cymru i helpu i wella profiad twristiaid, fel y nodir yn Croeso i Gymru – Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-25.

Bydd ein pobl yn gwneud i'n cwsmeriaid deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a'u bod yn cael gofal.

Dylanwadu ar newid positif o ran ymddygiad cwsmeriaid a llywio disgwyliadau	• Drwy godi ymwybyddiaeth o'r angen am wasanaethau cynaliadwy, annog mwy o ddewisiadau teithio cyfrifol a lansio ymgyrchoedd cyfathrebu i bennu disgwyliadau a dylanwadu'n bositif ar ddewisiadau teithio.
Creu profiad sy'n seiliedig ar fyw'n iach	• Creu profiad pleserus, iach a diogel i'n cwsmeriaid, pa bynnag amser o'r dydd neu'r nos maen nhw'n defnyddio ein gwasanaethau, beth bynnag fo'r tywydd. • Canolbwyntio ar hyrwyddo teithio llesol a lleihau sŵn, gwella ansawdd aer a darparu bwyd maethlon, dŵr a lloches i'n cwsmeriaid pan fyddant yn defnyddio ein gwasanaethau. • Adolygu ac asesu effaith allyriadau llygryddion o'n holl weithrediadau presennol ac yn y dyfodol i sicrhau nad ydynt yn mynd y tu hwnt i derfynau Ewropeaidd neu genedlaethol o ran ansawdd aer amgylcheddol. Byddwn yn adolygu hyn yn flynyddol ac yn anelu at weithredu technolegau allyriadau isel iawn. • Datblygu cynllun i ddarparu pwyntiau ail-lenwi dŵr i'r cyhoedd am ddim mewn cynifer o'n gorsafoedd newydd, cyfnewidfeydd trafnidiaeth newydd, mannau gwefru cerbydau trydan a safleoedd eraill â phosibl.
Bod yn frand uchel ei barch, dwyieithog sy'n canolbwyntio ar y cwsmer	• Rydym yn falch o fod yn sefydliad Cymreig ac eisiau ennill ymddiriedaeth ein cwsmeriaid drwy adeiladu brand uchel ei barch, dwyieithog sy'n canolbwyntio ar y cwsmer a fydd yn dod yn rhan o wead bywyd Cymru. • Datblygu cynllun i integreiddio ac ail-frandio rhai o'n gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys y Metro a chynlluniau llogi beiciau ar draws Cymru – a chyflwyno systemau tocynnau integredig lle gallwn. • Bydd cwsmeriaid rheilffyrdd yn elwa o blatfformau digidol newydd yn ystod 2020. • Parhau i chwarae rhan bwysig wrth gefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru, i warchod ei threftadaeth a bodloni gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. • Datblygu a hyrwyddo brand a gwerthoedd Trafnidiaeth Cymru yn fewnol ac allanol, i wella canfyddiadau lle bo'n bosib. • Darparu gwybodaeth ystyrlon ac amserol am wasanaethau a gwella tryloywder ein deunydd cyfathrebu ac ymgorffori rhagoriaeth yn ein gwasanaethau i gwsmeriaid a'n marchnata, yn enwedig ar adegau o darfu. • Parhau i awgrymu a chyflwyno syniadau beiddgar ac uchelgeisiol yn y tymor hwy i helpu i gefnogi'r uchelgeisiau hirdymor rydym wedi'u nodi yn ein nodau strategol.

Darparu cyngor arbenigol dibynadwy drwy arwain, arloesi a chydweithio

Gan edrych i'r dyfodol, rydym am barhau i ddatblygu ein capasiti fel cynghorydd dibynadwy i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth. Rydym yn gwybod y gallwn wneud hyn drwy gydweithio â'n cwsmeriaid, partneriaid a rhanddeiliaid, bod yn arweinydd o fewn y sector a chael ein parchu am ein cyngor gwybodus a dibynadwy.

Rydym am ddarparu arweinyddiaeth mewn trafnidiaeth, helpu ein partneriaid a'r gadwyn gyflenwi i gynnal perthnasedd y farchnad ac ennill ymddiriedaeth a pharch ein cwsmeriaid, partneriaid a rhanddeiliaid. Byddwn yn nodi, gwerthuso a chefnogi cyfleoedd i wella arbedion effeithlonrwydd, archwilio ffrydiau refeniw newydd ac ail-fuddsoddi mewn trafnidiaeth.

Ein pwyslais yn 2020/21

Cynghori ar ddefnydd tir a chynlluniau trafnidiaeth	• Parhau i adeiladu ein huned ddadansoddol Cymru gyfan i gefnogi system fodelu sy'n seiliedig ar alw, sicrwydd dadansoddol a chasglu tystiolaeth. Byddwn hefyd yn ail-lansio'r Arolwg Trafnidiaeth Cenedlaethol. • Datblygu ein capasiti a'n gallu i ddarparu gwasanaethau ymgynghorol proffesiynol ac i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu achosion busnes a chynnal astudiaethau dichonoldeb. Yn 2020/21 bydd ein pwyslais yn cynnwys cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno adrannau pum a chwech o gynllun ffordd Blaenau'r Cymoedd a datblygu achos busnes llawn dros ailddatblygu gorsaf Caerdydd Canolog.
Bod yn arweinydd ac yn bartner cyflenwi credadwy o fewn y sector trafnidiaeth	• Cefnogi datblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, drwy helpu i ddiogelu trafnidiaeth yng Nghymru ar gyfer y dyfodol. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi gwaith Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru a chydweithio â Chomisiwn Dylunio Cymru. • Ymgysylltu ag awdurdodau lleol Cymru, Aelodau'r Senedd, Aelodau Seneddol Cymru, aelodau'r cyhoedd a'r cyfryngau i helpu ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd ddeall ein cyfrifoldebau, yn ogystal â'n cynlluniau busnes a gweithredol. • Drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru, byddwn yn cymryd mwy o rôl wrth ddyfarnu cynlluniau grant trafnidiaeth lleol, i gefnogi datblygiad parhaus trefniadau cyflenwi a monitro effeithiol. • Cydweithio ar ddiwygiadau deddfwriaethol llywodraeth leol a llunio rheoliadau polisi ar gyfer trafnidiaeth sy'n berthnasol i ddata, technoleg a meysydd eraill lle bo'n berthnasol.
Buddsoddi mewn ymchwil, datblygu ac arloesedd	• Buddsoddi yn ein gallu ymchwil a datblygu i wella ein ffordd o feddwl ar gymhwyso technolegau newydd arloesol i fodloni anghenion trafnidiaeth Cymru, ymchwilio i fodelau busnes newydd a harneisio pŵer ein data. • Parhau i archwilio syniadau a chyfleoedd arloesol i ehangu ein portffolio a darparu gwasanaethau trafnidiaeth mwy effeithiol.
Cynnal cryfder ariannol ac ail-fuddsoddi mewn trafnidiaeth	• Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau arbedion effeithlonrwydd o 15-20% mewn gwariant cyfalaf yn ystod y pum mlynedd nesaf, gan wella gwerth am arian i drethdalwyr. • Datblygu cynllun i gynhyrchu digon o arbedion effeithlonrwydd i ysgwyddo costau ein gweithrediadau drwy ddefnyddio technoleg i symleiddio prosesau, dileu dyblygu a gwella ein heffeithlonrwydd. • Parhau i ddatblygu ac ystyried cynigion i fuddsoddi mewn busnesau darparu trafnidiaeth. • Gweithio gyda Banc Datblygu Cymru i nodi atebion cyllido arloesol a allai wneud y mwyaf o gyfleoedd i'n cadwyn gyflenwi yng Nghymru.
Gwireddu gwerth ecolegol, buddion cymdeithasol a ffyniant economaidd	• Nodi, gwerthuso a chefnogi cyfleoedd i ailfeddwl am y broses o gofnodi gwerth tir, gwthio gwerth a chadw bioamrywiaeth. • Dechrau datblygu cyfnewidfeydd trafnidiaeth, cynlluniau adfywio a datblygiadau darfodol mewn ardaloedd o amgylch ein gorsafoedd trenau. • Cefnogi Llywodraeth Cymru gyda'i ddatblygiad polisi ar gerbydau trydan a dechrau caffael partner a all helpu i ariannu, adeiladu a gweithredu rhwydwaith o fannau gwefru i gerbydau trydan Cymru gyfan.

Adeiladu sefydliad a phartneriaethau sy'n gallu cyflawni ein pwrpas

Mae gennym gynlluniau uchelgeisiol ac er mwyn cyflawni ein nodau mae angen i ni ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ein pobl. Rydym yn angerddol am greu gweithle teg, amrywiol a chynhwysol a gwneud Trafnidiaeth Cymru yn lle gwych i weithio.

Ein pwyslais yn 2020/21

Bod yn gyflogwr o ddewis	• Recriwtio a chadw'r gweithwyr gorau a pharhau i amrywio ein gweithgareddau recriwtio drwy waith allgymorth mewn cymunedau lleol. • Atgyfnerthu ein hymrwymiadau i'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru fel sefydliad dwyieithog ac ariannu/cefnogi pob cydweithiwr sydd eisiau dysgu Cymraeg. • Datblygu ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, adolygu ein polisïau recriwtio a chynllunio olyniaeth.
Datblygu partneriaethau a chroesawu galluoedd ein cadwyn gyflenwi	• Datblygu partneriaethau strategol drwy ein fframwaith caffael i helpu i lywio ein gweledigaeth ar draws ystod o weithgareddau gan gynnwys teithio llesol, sicrhau ansawdd ac ymchwil. Mewn partneriaeth â phrifysgolion, canolfannau rhagoriaeth addysgol ac eraill i dreialu'r defnydd o uwch dechnoleg i wella diogelwch, gwella cynaliadwyedd a lleihau effaith amgylcheddol ein rhwydwaith trafnidiaeth. • Nodi cyfleoedd cydweithio i sicrhau'r gwerth gorau am arian, gan ddatblygu cynghrair strategol gyda Network Rail, er enghraifft, i wella effeithiolrwydd cynllunio a chyflawni prosiectau ar draws ein seilwaith rheilffyrdd. Byddwn yn llunio cynghreiriau gyda busnesau bach a chanolig yn ogystal â sefydliadau mwy i gaffael mwy o wasanaethau yn lleol ac yn rhanbarthol. Byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio â rhanddeiliaid i gyflawni argymhellion Adolygiad Rheilffyrdd Williams.
Creu diwylliant sefydliadol hyblyg, cynaliadwy sy'n perfformio ar lefel uchel	• Rydym am greu diwylliant hyblyg, gafaelgar a chynaliadwy i wella perfformiad a gwella boddhad gweithwyr. Gan ganolbwyntio ar ddiogelwch, iechyd, llesiant a chynaliadwyedd, byddwn yn grymuso ein pobl i ddarparu ein gwasanaethau i'r safonau uchaf. • Datblygu cynllun i gyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, hyrwyddo iechyd a llesiant ein gweithwyr ac adrodd ar sut mae ein ffyrdd o weithio a'n nodau llesiant yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. • Archwilio ffyrdd newydd a hyblyg o weithio i ddatblygu diwylliant ymgysylltiedig sy'n perfformio'n uchel, wedi'i gefnogi gan ein pwyslais cryf ar gwsmeriaid a'n gwerthoedd.
Datblygu ein tîm, sgiliau ac arweinyddiaeth	• Gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer ein pobl i ddysgu, uwchsgilio a datblygu eu gyrfaoedd, eu sgiliau a'u gallu i arwain. • Cymryd rôl arweiniol wrth ddatblygu rhaglenni prentisiaethau a chreu swyddi crefftus yn agosach at adref gyda'n partneriaid cyflenwi. • Buddsoddi i hyfforddi ein pobl er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau o ran sgiliau a chyfrannu at economi ffyniannus Cymru. Byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd i'n pobl ddatblygu gallu a sgiliau trawsnewid, rheoli newid ac arweinyddiaeth.
Paratoi ein gweithlu a'r seilwaith cysylltiedig ar gyfer y dyfodol	• Gweithredu ein strategaeth gweithle pan fyddwn yn symud i Lys Cadwyn i nodi a lleihau unrhyw aneffeithlonrwydd posibl yn ein systemau a'n prosesau. • Gosod cynlluniau seiberddiogelwch 'gorau yn y dosbarth', gan fynd i'r afael â'r bylchau yn ein Adroddiad Archwilio Seiberddiogelwch mewnol, gan gynnwys bygythiadau seiber sy'n dod i'r amlwg. • Cyflwyno peiriant prosesu tocynnau clyfar i ddarparu hwb trafodion canolog a diogelwch ar gyfer clwydi ein gorsafoedd, peiriannau tocynnau ar fysiau, siopau a mannau gwerthu ar-lein a systemau eraill.

Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro

Risg

Rydym yn wynebu risgiau cymhleth a chynhwysfawr. Mae rheoli risg yn effeithiol yn hanfodol i'n gweithrediadau a'n strategaeth.

Mae hyn yn cynnwys risg wrth reoli'r contract i redeg gwasanaeth rheilffordd Cymru a'r Gororau a'r angen i sicrhau ein bod yn fodlon, er enghraifft, bod risgiau fel diogelwch, cwsmeriaid a'r amgylchedd yn cael eu rheoli'n briodol gan Wasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru. Hefyd ceir amrywiaeth o risgiau sy'n gysylltiedig â thrawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd wrth i'n Partneriaid Datblygu Seilwaith adeiladu Metro De Cymru.

Rydym hefyd yn rheoli risgiau wrth ddarparu ein gwasanaethau arlwyo ar drenau. Mae ein rôl a'n harweinyddiaeth mewn prosiectau allweddol fel adnewyddu'r Teithio Rhatach a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru hefyd wedi golygu ein bod wedi gorfod rheoli risgiau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r prosiectau hyn.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein Fframwaith Rheoli Risg yn ystod 2019/20 ac wedi gwreiddio rheoli risg yn fwyfwy o fewn Trafnidiaeth Cymru. Mae prosesau adnabod a rheoli risg yn ffurfiol yn sicrhau ein bod yn nodi, gwerthuso a, lle bo'n bosibl, lliniaru risgiau yn barhaus yn ein gweithrediadau o ddydd i ddydd, yn ogystal â'n hamgylchedd allanol a'r economi yn ehangach.

Mae Bwrdd Trafnidiaeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn cynnal system rheoli risg a rheolaeth fewnol gadarn.

Nodir yn yr adran hon:

- disgrifiad o'n hamcanion rheoli risg
- rôl unigolion a thimau wrth reoli risg
- disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd sy'n wynebu Trafnidiaeth Cymru

Amcanion rheoli risg

Prif amcan ein system rheoli risg yw sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi'n effeithiol, camau lliniaru'n cael eu datblygu, a chamau rheoli yn cael eu cyflawni i leihau lefel risg y busnes i lefel ddiogel. Fel cwmni sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, mae ein ffordd gyffredinol o reoli risg yn cael ei hategu gan yr angen i ddiogelu arian cyhoeddus drwy ddarparu gwerth am arian i drethdalwyr drwy ddefnydd economaidd, effeithiol ac effeithlon o'r adnoddau a roddir i ni.

Mae ein systemau rheoli yn gweithio i gyflawni'r amcanion canlynol:

- Sicrhau bod rheoli risg wedi'i wreiddio'n y sefydliad. Mae gwreiddio rheoli risg yn golygu y gellir dod o hyd i dystiolaeth o weithredu polisïau a gweithdrefnau yn hawdd o fewn y sefydliad a'i adlewyrchu yn yr allbynnau y mae Trafnidiaeth Cymru yn eu darparu
- Sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu rhoi i reoli risg yn effeithiol, yn unol â'r archwaeth risg berthnasol ac i gefnogi datblygiad diwylliant risg sy'n gryf ac wedi'i wreiddio ar draws y cwmni
- Sicrhau, cyn belled ag y bo'n bosibl, bod yr arfer o Reoli Risg ein cadwyn gyflenwi yn gyson â'n ffordd o weithredu
- Profi a meincnodi ein harferion rheoli risg yn erbyn y rhai a fabwysiadwyd mewn sefydliadau eraill drwy gael cydnabyddiaeth ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol
- Bod yn rhagweithiol wrth ofyn am adborth ynglŷn ag effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein harferion rheoli risg gan randdeiliaid a gweithwyr, yn gyfrinachol ac i'r gwrthwyneb

Rolau a chyfrifoldebau rheoli risg

Mae'n ofynnol i holl weithwyr Trafnidiaeth Cymru gadw at ein polisïau a gweithdrefnau rheoli risg. Mae polisïau a gweithdrefnau rheoli risg Trafnidiaeth Cymru yn berthnasol i bob cydweithiwr, ymgynghorwyr a benodwyd a'r rheini ar secondiad.

Mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau rheoli risg priodol ac effeithiol yn cael eu datblygu a'u gweithredu yn y busnes, gan ddarparu adroddiadau ar broffil risg a chynghori ar gamau lliniaru.

Rydym yn cyflogi sawl gweithiwr proffesiynol i reoli risg, sydd â chymwysterau priodol yn eu maes i ddatblygu, rheoli a chynghori ar ein systemau a'n prosesau rheoli risg. Maent yn ymgynghori'n rheolaidd â chyrff allanol i sicrhau bod ein dulliau a'n harferion yn gyson ag arferion da a gofynion cyfreithiol lle bo'n berthnasol.

Bob mis, fan lleiaf, mae Uwch Dîm Arweinyddiaeth Trafnidiaeth Cymru yn gyfrifol gyda'i gilydd am adolygu risgiau strategol a gweithredol, darparu adroddiad i'r Bwrdd ar sut mae'r risgiau hynny'n cael eu rheoli, eu haeddfedrwydd a'r camau lliniaru a gymerir i'w lleihau neu eu dileu.

Mae'r Bwrdd yn adolygu'r adroddiad hwn ym mhob cyfarfod ac yn trafod a herio'r rheolwyr ar eu hasesiadau. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cwrdd bob chwarter ac mae'n gyfrifol am oruchwylio'r fframwaith rheoli risg, polisi a gweithdrefnau rheoli risg Trafnidiaeth Cymru ac am sicrhau bod y camau rheoli a roddwyd ar waith i gefnogi'r camau lliniaru yn briodol. Fe'i cefnogir gan yr adran archwilio mewnol wrth adolygu'r fframwaith rheolaeth fewnol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn gofyn am fwy o wybodaeth a sicrwydd ynglŷn ag arferion Trafnidiaeth Cymru, herio tybiaethau a chwilio am newid a datblygiad lle bo angen.

Prif risgiau

Mae'r tabl drosodd y dudalen yn nodi'r prif risgiau a allai effeithio ar Trafnidiaeth Cymru fel y penderfynir gan y Bwrdd. Serch hynny, ni fwriedir i gynnwys y tabl fod yn rhestr gynhwysfawr o'r risgiau a'r ansicrwydd a allai godi.

Mae'r tabl yn nodi'r camau lliniaru sydd yn eu lle; sylwebaeth ar gynnydd wrth reoli risg; asesiad i weld a yw effaith bosib y risg yn cynyddu, yn lleihau neu'n sefydlog; pa mor gyflym y mae'r risg yn debygol o gael effaith; a, lle bo'n briodol, a oes cysylltiad â Datganiad Cadernid Trafnidiaeth Cymru

Mae Bwrdd Trafnidiaeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn cynnal system rheoli risg a rheolaeth fewnol gadarn.

Enw'r risg	Disgrifiad o'r risg	Camau lliniaru	Cynnydd	Pa mor gyflym y mae'r risg yn debygol o gael effaith
Methiant busnes y Partner Datblygu Seilwaith	Methiant busnes y Partner Datblygu Seilwaith yn ystod ailddatblygu Llinellau Craidd y Cymoedd, gan arwain at ostyngiad mewn perfformiad, diffyg gweithwyr ar gael ac amharu ar ddatblygiad seilwaith	• Cynnal asesiadau o sefydlogrwydd cyflenwyr yn y cam caffael • Monitro iechyd y gadwyn gyflenwi yn rheolaidd i ddeall iechyd cyflenwyr • Dull caffael drwy fframweithiau pwrpasol, gan alluogi gwaith i'w gomisiynu drwy gyflenwyr eraill lle bo angen	• Cymerwyd camau rhagweithiol i ymgysylltu â chyflenwyr yn ystod yr argyfwng Coronafeirws ac i ddeall sut gall pwysau arnynt gael ei gefnogi gan TrC • Mae systemau rheoli'r gadwyn a rheoli contractau wedi'u galluogi gan TrC, gan ddarparu mwy o eglurder a mewnwelediad	Llai na thri mis
Methiant busnes y partner darparu gwasanaethau rheilffyrdd (ODP)	Methiant busnes yr ODP yn ystod oes y Cytundeb Grant. Gall hyn gael ei achosi gan ddigwyddiadau fel yr argyfwng Coronafeirws, gofyniad hirdymor am gyllid ychwanegol, oedi i raglenni mawr fel cyflenwi cerbydau neu newidiadau macro-economaidd fel Prydain yn gadael yr UE	• Mae'r Cytundeb Grant yn darparu ar gyfer newidiadau i berchnogaeth gweithredwyr - yn benodol o ran yr endid cyfreithiol sy'n darparu gwasanaethau (Keolis Amey Wales Cymru Limited)	• Gwnaed taliadau cymorth i'r ODP yn ystod argyfwng Coronafeirws i sicrhau sefydlogrwydd parhaus • Trafodaethau'n parhau ar ddyfodol sefydlogrwydd y contract a chymorth ariannol pellach a all fod yn ofynnol	Llai na blwyddyn
Coronafeirws yn dychwelyd	Risg y gallai'r Coronafeirws ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig, gan effeithio ar y busnes oherwydd salwch gweithwyr a chwsmeriaid, gan arwain at ostyngiad o ran argaeledd a'r defnydd o wasanaethau a'r effeithiau ariannol o ganlyniad	• Mae dysgu o argyfwng Mawrth 2020 wedi llywio cynlluniau parhad busnes, gan alluogi gwaith paratoi mwy manwl • Systemau TG yn cael eu datblygu a'u profi i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer gweithio o bell pe bai achos arall	• Ymgysylltu'n rheolaidd a Llywodraeth Cymru i ddeall tebygolrwydd ac effaith achosion • Paratoadau wedi'u datblygu a'u profi yn ystod argyfwng Mawrth 2020, gan alluogi TrC i baratoi'n well ar gyfer unrhyw achosion yn y dyfodol	Llai na thri mis
Cyflenwi trawsnewidiad Llinellau Craidd y Cymoedd	Risg na fydd rhaglen drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn cael ei chyflenwi'n brydlon/o fewn y gyllideb ac nad yw'r system wedi'i hintegreiddio'n iawn. Gallai oedi yn y rhaglen arwain at golli cyllid ERDF o bosib.	• Rheolaethau rheoli a rheoli rhaglenni a phrosiectau cadarn • Adolygiadau rhaglenni rheolaidd • Gweithredu dulliau llywodraethu a chraffu gwell	• Adolygiadau rhaglenni rheolaidd ac ail-osod y llinell sylfaen • Trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ymestyn cerrig milltir ERDF • Datblygu is-bwyllgor y Bwrdd i fonitro a chefnogi prosiectau mawr	Llai na thri mis
Tywydd eithafol	Mae risg y gellid tarfu'n ddifrifol ar y rhwydwaith oherwydd tywydd eithafol fel llifogydd, eira trwm a gwyntoedd stormus	• Monitro rhybuddion tywydd a sicrhau bod digon o wasanaethau trafnidiaeth eraill wrth law os yw'r tywydd yn tarfu ar bethau • Sicrhau bod rhaglen o arolygiadau yn cael ei chynnal ar safleoedd sy'n cael eu heffeithio gan Dymheredd Rheilffordd Critigol • Adolygu safleoedd llifogydd ac ystyried mecanweithiau ychwanegol i amddiffyn rhag llifogydd neu gamau lliniaru • Caniatau i docynnau tymor gael eu defnyddio ar linellau cyfagos eraill a chynnal cytundebau gyda gweithredwyr bysiau	• Rydym yn gweithio gyda Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru a Network Rail ar gynlluniau'r hydref, gan gynnwys gwasanaethau trafnidiaeth eraill yn lle trenau • Opsiynau yn cael eu hystyried ar gyfer systemau rhybuddion cynnar ar gyfer gwyntoedd cryfion • Mae safleoedd a effeithiwyd gan lifogydd yn ystod gaeaf 2019/20 wedi'u harchwilio ac mae cynlluniau'n cael eu datblygu • Rydym yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i ddeall effaith tywydd eithafol er mwyn ystyried cynlluniau ar y cyd	Llai na thri mis

Sylwer: Mae'r holl risgiau yn y tabl hwn yn gysylltiedig â'n datganiad cadernid.

Addasu i'r hinsawdd a chadernid

Mae allyriadau trafnidiaeth gyfystyr â 14% o holl allyriadau Cymru. Mae cludo teithwyr ar y rheilffyrdd ond yn 1% o'r allyriadau hynny, gyda 55% yn dod o geir. Mae Trafnidiaeth Cymru yn cydnabod mai'r effaith fwyaf sylweddol y gall ei chael o ran newid hinsawdd yw newid moddol, symud siwrneiau o gerbydau modur i drafnidiaeth gyhoeddus, cerbydau trydan a theithio llesol.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau tryloywder a gweithredu mewn perthynas â risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â hinsawdd ac mae'n cefnogi argymhellion gwirfoddol Tasglu'r Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â Hinsawdd.

Llywodraethu

Mae Bwrdd Trafnidiaeth Cymru yn cydnabod newid hinsawdd fel mater sy'n berthnasol i'w fusnes, yn enwedig yng ngoleuni'r argyfwng hinsawdd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2019 a tharged Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau CO_{2e} 95% erbyn 2050.

Mae'r Bwrdd yn archwilio'n fanwl y materion sy'n wynebu Trafnidiaeth Cymru wrth wynebu'r her o leihau ei allyriadau cyfwerth â CO_2 (CO_{2e}) a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae dyfodol carbon isel yn eu cynnig. Mae'r Bwrdd cyfan, o leiaf unwaith y flwyddyn, yn cael trafodaethau manwl ar sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar Trafnidiaeth Cymru, ein hymateb a strategaethau a chamau gweithredu arfaethedig.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am sicrhau bod yr hyn a ddatgelir yn yr adroddiad hwn, yn gyson â gofynion datgelu'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â Hinsawdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn gyfrifol am oruchwylio rheolaeth effeithiol y risgiau sy'n gysylltiedig â hinsawdd ar draws y busnes.

Strategaeth

Cyhoeddodd Trafnidiaeth Cymru Strategaeth Carbon Isel ar gyfer 2019/20 sydd ar gael yn:

https://trc.cymru/sites/default/files/inline-files/Low impact carbon4 english.pdf

Mae'n nodi'n fanwl strategaeth a thargedau Trafnidiaeth Cymru.

Daw'r mwyafrif llethol o allyriadau CO_{2e} Trafnidiaeth Cymru yn y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2020 o danwydd disel a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tren i deithwyr. Daw gweddill ôl troed carbon Trafnidiaeth Cymru o swyddfeydd Trafnidiaeth Cymru mewn lleoliadau amrywiol.

Her fwy i Trafnidiaeth Cymru yw'r cynnydd mewn digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd. Er enghraifft, y stormydd ar ddechrau 2020, yn ogystal ag achosi anghyfleustra i deithwyr, ac amgylchedd mwy peryglus i staff, gall hefyd arwain at ganlyniadau ariannol niweidiol sylweddol, yn enwedig o gofio mai Trafnidiaeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli a chynnal a chadw Llinellau Craidd y Cymoedd. Er gwaethaf yr effaith uniongyrchol ar Trafnidiaeth Cymru, mae Trafnidiaeth Cymru hefyd yn cydnabod yr effaith sylweddol y mae tywydd eithafol yn ei chael ar bobl a chymunedau ar draws ei rwydwaith a'i rôl fel aelod cyfrifol o gymdeithas wrth gefnogi ymdrechion ehangach i adfer ar ôl digwyddiadau o'r fath.

Rheoli risg

Mae nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â hinsawdd wedi'u hintegreiddio'n llawn â phroses rheoli risg gyffredinol Trafnidiaeth Cymru, sy'n cael ei nodi rywle arall yn yr adroddiad hwn.

Mae rheolwyr hefyd yn sicrhau bod risgiau a chyfleoedd newid hinsawdd wedi'u gwreiddio i ddiwylliant y busnes o ddydd i ddydd, ac yn cael eu hystyried a'u gweithredu'n frwd o fewn rhaglen drawsnewid Trafnidiaeth Cymru.

Metrigau a thargedau

Y prif fetrigau a ddefnyddir gan Trafnidiaeth Cymru i asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â hinsawdd yw:

- Allyriadau CO_{2e} uniongyrchol (cwmpas 1)
- Allyriadau CO_{2e} anuniongyrchol (cwmpas 2)
- Newid moddol (cwmpas 3) Cyfanswm y tunelli o garbon a arbedwyd (wedi'i rannu rhwng Llinellau Craidd y Cymoedd a Cymru a'r Gororau).

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi gosod y targedau canlynol:

- Allyriadau cwmpas 1 (Tyniant) Llinellau Craidd y Cymoedd – gostyngiad o 100% erbyn diwedd 2023
- Allyriadau cwmpas 1 (Tyniant) Cymru a'r Gororau - gostyngiad o 30% erbyn diwedd 2023
- Allyriadau cwmpas 2 - gostyngiad o 100% erbyn diwedd 2023

Risgiau a chyfleoedd

Nodir isod ddadansoddiad o risgiau a chyfleoedd Trafnidiaeth Cymru ar newid hinsawdd:

Risg	Cyfle
Byr dymor (un i ddwy flynedd)	**Byr dymor (un i ddwy flynedd)**
Mae cyflawni ein targedau CO_2 mewn perygl oherwydd yr oedi wrth dderbyn trenau sy'n fwy effeithlon o ran tanwydd a chadw ein Pacers i fynd am gyfnod hirach. Gallai rhedeg amserlen llai cyson yn ystod pandemig y Coronafeirws wneud cyfraniad positif at gyflawni ein targedau, a gallai newidiadau posibl o ran ymddygiad teithwyr yn y dyfodol wrthbwyso'r cyfraniad hwn.	Gallai cyfrifoldebau Trafnidiaeth Cymru, a gymerir yn 2019/20 ar gyfer cerbydau trydan a theithio llesol, leihau ôl troed carbon pobl Cymru os ydynt yn llwyddiannus.
Tymor canolig (dwy i bum mlynedd)	**Tymor canolig (dwy i bum mlynedd)**
Gallai oedi godi yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, o gyflwyno mwy o drenau sy'n effeithiol o ran tanwydd a'r pandemig Coronafeirws, wneud y targedau yn llai cyraeddadwy.	Gallai gwasanaeth gwell gan drenau newydd ac ehangu'r amserlen arwain at "newid moddol" sylweddol, yn enwedig os yw Llywodraeth y DU yn mabwysiadu trefn drethiant flaengar ar gyfer petrol a disel.
Tymor hwy (dros bum mlynedd)	**Tymor hwy (dros bum mlynedd)**
Cynnydd yn nifer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd sy'n deillio o newid hinsawdd.	Gallai cwblhau metros Gogledd Cymru a De Cymru gynyddu graddau'r "newid moddol" yn sylweddol.

Ein bwrdd

Mae gan ein Bwrdd rôl hollbwysig yn llwyddiant rhwydwaith trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru yn cyflawni ei strategaeth a'r amcanion strategol a nodir yn llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru.

Yn cynnwys y Cadeirydd, pump o Gyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol a dau Gyfarwyddwr Gweithredol, gan gynnwys ein Prif Weithredwr, mae ein Bwrdd yn darparu llywodraethiant cryf a gweledigaeth strategol, drwy:

- Darparu arweinyddiaeth effeithiol a sefydlu ein gweledigaeth, cenhadaeth, pwrpas a gwerthoedd yn ogystal â datblygu ein cyfeiriad strategol a gosod ein hamcanion strategol.
- Goruchwylio ac arwain sut mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithredu, yn pennu ein strwythur ac yn sicrhau bod gweithgareddau Trafnidiaeth Cymru yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Cynghori a mentora Uwch Dîm Arweinyddiaeth Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu'r strategaeth fusnes a pharhau i wella perfformiad busnes.
- Monitro perfformiad i sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru yn cyflawni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad.
- Sicrhau bod adnoddau digonol ar gael, a bod olyniaeth wedi'i chynllunio'n dda ar lefel uwch.
- Bod yn atebol i Lywodraeth Cymru a bod yn gyfrifol i randdeiliaid perthnasol, gan gefnogi a rhoi her adeiladol i'n Uwch Dîm Arweinyddiaeth.
- Hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus a chynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian.

Mae Bwrdd Trafnidiaeth Cymru yn cynnwys:

Cyfarwyddwyr Anweithredol:

- Scott Waddington, Cadeirydd,
- Sarah Howells, Cadeirydd, Pwyllgor Cyfathrebu a Chwsmeriaid
- Alison Noon-Jones, Cadeirydd, Pwyllgor Pobl Cadeirydd, Pwyllgor Taliadau
- Nicola Kemmery, Cadeirydd, Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant
- Alun Bowen, Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg
- Vernon Everitt

Cyfarwyddwyr Gweithredol:

- James Price, Prif Weithredwr
- Heather Clash, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid

Ein bwrdd a strwythur pwyllgorau

Bwrdd TrC

Cadeirydd: Scott Waddington
Cwrdd: 11 gwaith y flwyddyn
Goruchwylio gweithgareddau TrC
Darparu arweinyddiaeth a gweledigaeth strategol
Sicrhau safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol a bod ffyrdd o weithio yn cael eu cynnal

Pwyllgor Archwilio a Risg

Cadeirydd: Alun Bowen
Cwrdd: Chwarterol
Darparu trosolwg o systemsu rheoli risg, systemau rheolaeth fewnol ac adrodd ariannol TrC

Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu

Cadeirydd: Sarah Howells
Cwrdd: Chwarterol
Adolygu, monitro a phennu cyfeiriad o ran cwsmeriaid

Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Cadeirydd: Nicola Kemmery
Cwrdd: Chwarterol
Adolygu trefniadau rheoli iechyd a diogelwch, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau.
Monitro cydymffurfiaeth a sicrhau gwelliannau parhaus

Pwyllgor Pobl

Cadeirydd: Alison Noon-Jones
Cwrdd: Chwarterol
Yn gyfrifol am gymeradwyo a herio agenda pobl TrC

Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Cadeirydd: James Price, Prif Weithredwr
Cwrdd: Wythnosol
Yn gyfrifol am reolaeth weithredol a strategol TrC o ddydd i ddydd

Pwyllgor Taliadau

Cadeirydd: Alison Noon-Jones
Cwrdd: Chwarterol
Ystyried, cytuno ac argymell i'r Bwrdd bolisi taliadau cyffredinol gydag athroniaeth sy'n cyd-fynd â'r strategaeth fusnes, amcanion, gwerthoedd a buddiannau hirdymor

Aelodau'r bwrdd

Scott Waddington

Cadeirydd

Yn wreiddiol o Abertawe ac wedi graddio o Brifysgol Reading, mae Scott wedi cael amrywiaeth o rolau uwch o fewn y sector lletygarwch, yn bennaf ym maes marchnata diodydd a manwerthu mewn tafarndai.

Bu'n gyn brif weithredwr y bragdy a'r cwmni tafarndai Cymreig SA Brain & Co am 17 mlynedd lle arweiniodd adolygiad cynhwysfawr o'i strategaeth gorfforaethol, gan ail-osod brand Brains a buddsoddi'n helaeth i ehangu ystâd y dafarn a goruchwylio'r broses o greu menter ar y cyd i ailddatblygu hen safle'r bragdy yn y Cei Canolog.

Scott oedd Cadeirydd CBI Cymru yn 2010 a 2011. Bu'n Gomisiynydd Cymru i Gomisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r DU am bum mlynedd o Ebrill 2012 a chadeiriodd Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru.

Ar hyn o bryd, mae'n Gadeirydd Clwb Busnes Caerdydd ac mae'n aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

James Price

Prif Weithredwr

Yn gyn-Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, cymerodd James yr awenau yn Trafnidiaeth Cymru ym mis Ionawr 2018 ar ôl bod yn Gadeirydd Trafnidiaeth Cymru yn ystod y cyfnod cychwynnol.

Yn wreiddiol dechreuodd James ei yrfa mewn contractio peirianneg sifil. Yn economegydd proffesiynol, mae wedi cael sawl rôl wahanol ar draws Llywodraeth y DU a Chymru yn ogystal ag asiantaethau sy'n eiddo i'r llywodraeth yng Nghymru a Lloegr.

Tan ddiwedd 2017, James oedd y swyddog cyfrifyddu ychwanegol ar gyfer yr Economi, Trafnidiaeth, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, gan arwain tîm o tua 2,500 o weision sifil.

Roedd gan James gyfrifoldeb am gyflenwi seilwaith ar gyfer Llywodraeth Cymru ers 2007, yn gyntaf fel Cyfarwyddwr Trafnidiaeth ac yna fel Cyfarwyddwr Cyffredinol a Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol. Mae bellach yn gyfrifol am weithrediadau Trafnidiaeth Cymru o ddydd i ddydd a stiwardiaeth briodol arian cyhoeddus.

Heather Clash

Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyllid

Ar ôl byw, astudio a gweithio yng Nghymru ers dros 25 mlynedd, ymunodd Heather â Trafnidiaeth Cymru ym mis Gorffennaf 2018.

Fel gweithiwr cyfrifyddu proffesiynol a astudiodd ym Mhrifysgol Caerdydd, gweithiodd ym meysydd cyllid drwy gydol ei gyrfa.

Mae'n arbenigo mewn rheolaeth ariannol a rheoli portffolios o gontractau allanol a swyddogaethau corfforaethol o fewn sefydliadau corfforaethol mawr. Cyn ymuno â Trafnidiaeth Cymru, bu'n Gyfarwyddwr Cyllid mewn amrywiaeth o sefydliadau mawr, gan gynnwys Is-adran Gwasanaethau TG Capita Group Plc a Gwerthiant a Marchnata DU ar gyfer Compass Group UK & Ireland.

Yn Trafnidiaeth Cymru, mae'n aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac mae'n gyfrifol am strategaeth a chynllunio ariannol, dadansoddi perfformiad a risg y sefydliad yn ogystal â goruchwylio ei swyddogaeth llywodraethiant a chyllid, yn ogystal â'r holl reolaethau archwilio ac ariannol mewnol.

Sarah Howells

Cyfarwyddwr Anweithredol; Cadeirydd, Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu

Wedi'i magu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Sarah yw Pennaeth Gwasanaethau Cwsmer Orangebox ar hyn o bryd, busnes Cymreig llwyddiannus sy'n cynllunio ac yn cynhyrchu dodrefn arloesol ar gyfer marchnad fyd-eang.

Mae'n gyfrifol am arwain tîm gweithrediadau cwsmer rhyngwladol, gan wella profiad y gwasanaeth, cyflwyno a thrawsnewid yr holl systemau rheng flaen yn barhaus sy'n cynnwys systemau cynllunio CRM, Gwerthu, Maes a Thrafnidiaeth.

Mae gan Sarah dros 20 mlynedd o brofiad mewn gwasanaethau cwsmer ar draws amrywiaeth o ddiwydiannau. Mae hi wedi bod mewn sawl rôl uwch mewn sefydliadau mawr, adnabyddus yn y DU a Seland Newydd, gan gynnwys Virgin Media, Vodafone, Les Mills Clothing & Merchandising a 2 Degrees Mobile. Arweiniodd hefyd dîm o dros 1,000 o bobl i ddarparu cymorth i wasanaethau pan oedd hi'n Bennaeth Gwasanaethau Cwsmer Tesco.

Mae gan Sarah enw da wrth ddatblygu pobl, gwella gallu digidol a sicrhau newid trawsnewidiol.

Aelodau'r bwrdd

Nicola Kemmery

Cyfarwyddwr Anweithredol; Cadeirydd, Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Gyda phrofiad sylweddol dros gyfnod o 28 mlynedd, Nicola yw Pennaeth Iechyd a Diogelwch Dŵr Cymru, lle bu'n gweithio ers symud i Gymru yn 2010.

Ar ôl treulio'r rhan fwyaf o'i gyrfa yn y diwydiant dŵr, mae Nicola yn gyfrifol am ddatblygu ac arwain strategaeth iechyd, diogelwch a gwella Dŵr Cymru. Gweithredodd y dull newydd hwn yn fuan ar ôl ymuno er mwyn helpu'r sefydliad i gadw ac ymestyn ei achrediadau OHSAS 18001 ac ISO14001.

Yn weithiwr proffesiynol iechyd a diogelwch cofrestredig, cafodd Nicola ei geni a'i magu yn Swydd Efrog lle bu'n gweithio am 14 mlynedd gyda'r cwmni preifat Kelda Group (Yorkshire Water Services) fel Rheolwr Iechyd a Diogelwch, gan weithredu strategaeth iechyd a diogelwch y Grŵp.

Bu'n aelod brwd o Grŵp Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Water UK am 20 mlynedd, a chafodd ei hethol yn aelod o Gyngor y Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol o 2013 tan fis Medi 2019.

Alun Bowen

Cyfarwyddwr Anweithredol; Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg

Ar ôl graddio yn y gwyddorau naturiol yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt, gweithiodd Alun i KPMG am 37 mlynedd, gan ddal amrywiaeth o swyddi ar draws y byd – yng Nghaerdydd, Llundain, Hong Kong, Sydney a Kazakhstan.

Yn wreiddiol o Landeilo, Alun oedd prif ymgynghorydd cynllunio busnes Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru. Bu'n Bennaeth Personél KPMG yn Llundain cyn cymryd cyfrifoldeb dros 600 o bobl yn is-adran Canol Asia.

Yn gyn-Gadeirydd Busnes yn y Gymuned Cymru, bu Alun yn aelod o Bwyllgor Archwilio Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr yng Nghymru a Lloegr ac yn aelod o gyngor Prince's Trust Cymru.

Ar hyn o bryd, mae'n Gadeirydd Pwyllgor Risg ac Ymddygiad grŵp gwasanaethau ariannol Hodge yng Nghaerdydd, ac mae'n cadeirio Pwyllgor Archwilio Severstal, y cwmni dur cwbl integredig mwyaf yn Rwsia.

Alison Noon-Jones

Cyfarwyddwr Anweithredol; Cadeirydd, Pwyllgor Pobl

Alison Noon-Jones yw Is Lywydd, Pobl a Diwylliant ar gyfer Leidos yn y DU ac Ewrop. Mae hi'n gyfrifol am arwain tîm o 25 o weithwyr Adnoddau Dynol proffesiynol, gan ddarparu gwasanaethau AD i gefnogi'r busnes $500m sy'n cynnwys 1,200 o weithwyr a chontractwyr ar 11 safle ar draws y DU ac Ewrop. Ymunodd Alison â Leidos yn 2016 a chyn cymryd y rôl hon, Alison oedd Cyfarwyddwr AD y rhaglen LCST, rhaglen logisteg amddiffyn £8bn ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Mae gan Alison 35 mlynedd o brofiad Adnoddau Dynol, 25 mlynedd ar lefel bwrdd cenedlaethol a rhyngwladol o fewn amrywiaeth o sefydliadau uchel eu proffil, gan gynnwys Invacare Corporation, General Motors Acceptance Corporation ac Airbus Defence and Security, a gweithiodd ar draws Ewrop ac yn y Dwyrain Canol. Mae gan Alison radd mewn ieithoedd modern o Brifysgol Abertawe, mae'n Gymrawd CIPD ac yn Hyfforddwraig a Mentor Gweithredol cymwys.

Treuliodd Alison ran helaeth o'i gyrfa mewn rhaglenni trawsnewid a rhaglenni newid AD strategol ar raddfa fawr, ac mae'n ffynnu ar feithrin timau i roi'r perfformiad gorau posibl. Mae hi'n gydweithredol ac yn adeiladu partneriaethau cryf ar draws rhaglenni a busnesau.

Vernon Everitt

Cyfarwyddwr Anweithredol

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad ar draws amrywiaeth o sectorau, Vernon yw Rheolwr Gyfarwyddwr Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Thechnoleg Transport for London (TfL), ac ef yw aelod mwyaf newydd y Bwrdd, ar ôl ymuno â Trafnidiaeth Cymru fel cyfarwyddwr anweithredol ym mis Tachwedd 2019.

Mae'n gyfrifol am roi cwsmeriaid wrth wraidd gweithrediadau TfL, edrych ar sut gall technoleg a data gynnig siwrneiau gwell yn ogystal â chefnogi a gweithio mewn partneriaeth â sector technoleg ffyniannus y brifddinas a sicrhau cynlluniau TfL ar gyfer dyfodol hirdymor Llundain.

Vernon wnaeth arwain strategaeth farchnata a chyfathrebu lwyddiannus o fewn y diwydiant ac ar draws y Llywodraeth ar gyfer Gemau 2012, yr ymgyrch integredig fwyaf o'i math erioed.

Cyn ymuno â TfL, gweithiodd Vernon yn yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) a Banc Lloegr mewn amrywiaeth o swyddi bancio, rheoleiddio, corfforaethol a chyfathrebu. Mae'n aelod o Fwrdd Amgueddfa Drafnidiaeth Llundain.

Pwyllgorau'r bwrdd

Yn ogystal â Bwrdd Trafnidiaeth Cymru, mae gennym bump o is-bwyllgorau.

Yn 2019/20, lansiwyd ein Pwyllgor Taliadau i osod egwyddorion a pharamedrau polisi taliadau Trafnidiaeth Cymru a goruchwylio polisïau a chanlyniadau taliadau i bawb sy'n gweithio i'r cwmni.

Mae pob pwyllgor yn cael ei gadeirio gan aelod gwahanol o'r Bwrdd, ac maent yn cwrdd yn chwarterol i adolygu cynnydd. Maent yn cynnwys:

- Archwilio a Risg
- Cwsmeriaid a Chyfathrebu
- Iechyd, Diogelwch a Llesiant
- Pobl
- Taliadau

Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn darparu trosolwg o system rheoli risg, rheolaeth fewnol ac adrodd ariannol Trafnidiaeth Cymru.

Dyma fy ail adroddiad fel Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg Trafnidiaeth Cymru. Bu'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 yn heriol wrth i Trafnidiaeth Cymru ehangu'n gyflym, ac o'r herwydd, amrywiaeth a chymhlethdod ei weithgareddau. Roedd mis Mawrth 2020 yn cynnwys dau ddigwyddiad a gafodd effaith sylweddol ar waith y Pwyllgor Archwilio a Risg; trosglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd o Network Rail; a dechrau effaith economaidd y pandemig coronafeirws. Mae'r Pwyllgor yn llawn edmygedd ac yn diolch i staff Trafnidiaeth Cymru am allu cynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol hwn, ac yn benodol y tîm cyllid wrth gynhyrchu'r datganiadau ariannol i'r amserlen y cytunwyd arni'n wreiddiol.

Alun Bowen
Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg

Cynnydd yn ystod y flwyddyn

Pan ysgrifennais fy adroddiad y llynedd, nodais nifer o faterion, ar wahân i'n gwaith arferol, y byddai'r Pwyllgor yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Mae'r rhain yn cael eu rhestru isod, ac rwy'n gwneud sylwadau ar y cynnydd sydd wedi'i wneud:

Maes i ganolbwyntio arno	Cynnydd
Cefnogi'r tîm cyllid i ddarparu gwybodaeth gyfoes, gywir i Trafnidiaeth Cymru i gefnogi ei broses o wneud penderfyniadau	Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn ac wrth weithredu'r system gyllid newydd. Yn ogystal, mae'r swyddogaeth gyllid wedi datblygu systemau i gyfrif am weithrediadau arlwyo Trafnidiaeth Cymru
Cynorthwyo rheolwyr i barhau i adeiladu swyddogaeth archwilio fewnol sydd wedi'i ysgogi â staff da i hwyluso'r Pwyllgor i gyflawni agweddau ar ei rôl oruchwylio	Gwnaed cynnydd da a rhoddir sylwadau arnynt yn yr adran archwilio mewnol isod
Cefnogi'r swyddogaeth rheoli risg wrth iddo geisio ymgorffori arferion da o fewn y sefydliad mewn ffordd fodern ac effeithiol	Caiff ei gwmpasu o dan y pennawd "risg a'r amgylchedd rheoli" isod
Sicrhau bod gan y sefydliad agwedd briodol tuag at seiberddiogelwch	O ganlyniad i adolygiad a gynhaliwyd gan yr adran archwilio mewnol gydag adnoddau arbenigol, nodwyd sawl bwlch yng ngallu seiberddiogelwch Trafnidiaeth Cymru. Cymerodd y rheolwyr gamau ymhell cyn i'r adroddiad gael ei gwblhau i adfer y sefyllfa ac erbyn diwedd y flwyddyn, gwnaed cynnydd sylweddol, er y bydd y broses weithredu yn parhau yn ystod 2020
Goruchwylio gwelliannau parhaus i ddulliau adrodd Trafnidiaeth Cymru, yn enwedig o ran gwybodaeth anariannol i ddarparu mwy o eglurder a thryloywder i randdeiliaid a sicrhau eu bod yn derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn y ffordd fwyaf effeithiol	Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cynnwys am y tro cyntaf: Datganiad Cadernid yn unol â'r argymhellion a wnaed gan Syr Donald Brydon; a datgeliad newid hinsawdd yn unol â'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â Hinsawdd "(TCFD")

Adrodd

Un o gyfrifoldebau allweddol y Pwyllgor yw sicrhau bod gwybodaeth ariannol Trafnidiaeth Cymru a chynnwys yr Adroddiad Blynyddol hwn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Mae'r Pwyllgor yn herio'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon a wnaed gan reolwyr wrth baratoi'r datganiadau ariannol. Isod ceir crynodeb o'r materion perthnasol a ystyriwyd gennym yn ein trafodaethau.

Maes i ganolbwyntio arno	Gwaith a wnaed	Casgliad/camau a gymerwyd
Llinellau Craidd y Cymoedd: prynwyd Llinellau Craidd y Cymoedd wrth Network Rail ar 28 Mawrth 2020. Mae'n drafodiad o bwys mawr ar gyfer mantolen Trafnidiaeth Cymru ar 31 Mawrth 2020	Mae'r rheolwyr wedi ystyried yr opsiynau sydd ar gael iddynt wrth benderfynu pa un yw'r dull mwyaf priodol o brisio'r asedau a gafwyd wrth Network Rail. Mae wedi llunio'r datganiadau ariannol drwy ddefnyddio cost fel sail, yn enwedig o ystyried agosrwydd y caffaeliad at ddiwedd y flwyddyn. Trafododd y Pwyllgor opsiynau prisio posib eraill gyda'r rheolwyr a hefyd y dull a ddefnyddiwyd i ddyrannu cost i'r amrywiol asedau a brynwyd	Cytunodd y Pwyllgor â'r rheolwyr mai'r dull a fabwysiadwyd oedd y mwyaf priodol o dan yr amgylchiadau, er ei fod hefyd yn cydnabod y gallai fod angen ailedrych ar hyn yn ystod 2020/21
Coronafeirws: roedd angen adolygu rhagdybiaeth busnes gweithredol Trafnidiaeth Cymru yn sgil y pandemig a'i effeithiau economaidd cysylltiedig	Adolygodd y Pwyllgor ddadansoddiad y rheolwyr o'r materion ariannol sy'n deillio o'r newid mewn gweithgaredd economaidd; goblygiadau i'r llif arian; a chanlyniad trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru	Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod rheolwyr wedi ystyried digwyddiadau ac amodau a allai arwain at ansicrwydd o bwys a chytunwyd â chasgliadau'r rheolwyr nad oedd yr amrywiaeth o ganlyniadau posibl yn bwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol, yn arbennig, o ganlyniad i'r gefnogaeth barhaus a roddir gan Lywodraeth Cymru
Datganiad Cadernid: Mae'r Datganiad Cadernid yn nodi barn y cyfarwyddwyr o gadernid Trafnidiaeth Cymru yn y byr dymor, y tymor canolig a'r tymor hwy i'r heriau, ym marn y cyfarwyddwyr, y mae Trafnidiaeth Cymru yn debygol o'u hwynebu, a'i allu i wrthsefyll yr effeithiau ariannol a amcangyfrifwyd o ran yr heriau hynny	Trafododd y Pwyllgor â'r rheolwyr y gwaith a wnaed i baratoi'r Datganiad Cadernid, yn enwedig y broses o wneud penderfyniadau ar sefyllfaoedd o straen a ddewiswyd i sefydlu cadernid Trafnidiaeth Cymru a'i resymau i beidio â gweithredu'n llawn y sefyllfaoedd straen tymor canolig eleni	Cytunodd y Pwyllgor â'r rheolwyr bod y dull a fabwysiadwyd yn gyson ag ysbryd yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Syr Donald Brydon ym mis Rhagfyr 2019 ac yn cefnogi barn y rheolwyr am y sefyllfa ariannol

Maes i ganolbwyntio arno	Gwaith a wnaed	Casgliad/camau a gymerwyd
Perthynas â Llywodraeth Cymru: Mae'r berthynas rhwng Trafnidiaeth Cymru a'i randdeiliaid (Gweinidogion Cymru) a datgelu trafodion rhwng Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru yn sylfaenol i baratoi'r datganiadau ariannol	Mae'r Pwyllgor wedi adolygu y gwaith a wnaed gan reolwyr i sicrhau bod y trafodion rhwng Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru wedi'u cyfrif yn gywir a bod datgeliad priodol wedi'i wneud yn y datganiadau ariannol	Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y cyfrifyddu a'r datgeliad cysylltiedig yn y datganiadau ariannol ar gyfer trafodion rhwng Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru yn briodol
Trafnidiaeth Cymru a Keolis Amey: mae'r berthynas rhwng Trafnidiaeth Cymru a KeolisAmey Wales Cymru Limited, sy'n cael ei lywodraethu gan gontract rhwng KeolisAmey Wales Cymru Limited a Gweinidogion Cymru yn arwyddocaol i'r datganiadau ariannol. Yn benodol, ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn cymorth ar gyfer rheilffyrdd yng Nghymru, o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws, a oedd ar ffurf wahanol i'r pecyn cymorth ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer masnachfreintiau rheilffyrdd yn Lloegr	Trafododd y Pwyllgor â'r rheolwyr y digwyddiadau mawr yn ystod y flwyddyn yn y berthynas rhwng Trafnidiaeth Cymru a KeolisAmey Wales Cymru Limited. Yn benodol, trafododd y pecyn cymorth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd hyn wedi'i weithredu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, felly bydd yn effeithio ar flwyddyn ariannol 2020/21	Mae'r datgeliad yn y datganiadau ariannol wedi gwella eleni ac mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y wybodaeth ychwanegol yn gwneud y datgeliadau'n fwy defnyddiol i ddarllenwyr
Datgeliadau newid hinsawdd: mae'r datgeliadau yn yr Adroddiad Blynyddol yn briodol ac yn gyson â gofynion y TCFD	Trafododd y Pwyllgor â'r rheolwyr y datgeliadau a wnaed yn yr Adroddiad Blynyddol ar ôl darllen ac ystyried yr adroddiadau a gyhoeddwyd gan y TCFD	Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y datgeliadau ar newid hinsawdd a wnaed yn yr Adroddiad Blynyddol yn briodol
Adroddiad Blynyddol: O'i gymryd yn llawn, mae angen i'r Adroddiad Blynyddol fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy er mwyn iddo fod yn berthnasol i ddarllenwyr	Cynhaliwyd cyfarfodydd paratoadol gyda'r rheolwyr i bennu fformat yr Adroddiad Blynyddol. Trafodwyd y gwersi a ddysgwyd o baratoi'r adroddiad y llynedd, sef y flwyddyn gyntaf, er mwyn sicrhau bod y broses yn well. Adolygwyd drafft terfynol yr Adroddiad Blynyddol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor a thynnwyd sylw at feysydd dyfarnu fel yr adran risg a'r Datganiad Cadernid	Cafodd y gwersi a ddysgwyd o'r flwyddyn flaenorol eu gweithredu'n wych, gan sicrhau proses lawer mwy effeithlon ac effeithiol gyda mwy o ymrwymiad ac ymgysylltiad amlwg gan yr holl bartïon perthnasol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr Adroddiad Blynyddol, o'i gymryd yn llawn, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Archwilio allanol

Mae'r Pwyllgor yn rhoi pwys mawr ar ansawdd ac effeithiolrwydd ei archwilio allanol. Wrth asesu ansawdd ac effeithiolrwydd, mae'r Pwyllgor yn troi at y tîm archwilio am wrthrychedd; amheuaeth broffesiynol; annibyniaeth; a'i berthynas â'r tîm rheoli.

Cynhaliwyd proses dendro archwilio allanol lawn ar ddechrau 2019. Rees Batley o KPMG oedd Uwch Archwilydd Statudol y ddwy flynedd ddiwethaf, ac rydym yn cyfathrebu'n rheolaidd, ar wahân i'r rheolwyr.

Yn ogystal â'r gwerthusiad blynyddol o berfformiad yr archwilydd corfforaethol, mae'r Pwyllgor yn cynnal asesiad parhaus o ansawdd y broses archwilio drwy:

- trafod a chytuno ar gwmpas yr archwiliad cyn ei gychwyn a'r meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt yn yr archwiliad;
- trafod cywirdeb (perthnasedd) gyda KPMG am wallau cyfrifyddu a ddaw i sylw'r Pwyllgor a'r symiau y byddai angen eu haddasu fel bod y datganiadau ariannol yn cael eu cyflwyno'n deg;
- trafod gyda'r archwilydd corfforaethol ei farn am y dyfarniadau a gymerwyd gan reolwyr wrth baratoi'r datganiadau ariannol a lle gallai'r dyfarniadau hyn fod mewn ystod dderbyniol o geidwadol i feiddgar

Rwyf hefyd yn trafod gyda KPMG allbwn yr adolygiadau a gynhaliwyd gan y rheoleiddiwr ar sut mae ei argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd wedi'u hymgorffori yn ei gynlluniau archwilio.

Ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor yn derbyn: diweddariad ar waith KPMG; ei annibyniaeth; a'i ganfyddiadau. Ar ddiwedd y flwyddyn, ceir trafodaeth fanwl am ganfyddiadau archwilio KPMG, gan gynnwys unrhyw gamddatganiadau archwilio sydd heb eu cywiro sy'n deillio o'r archwiliad. Nid oedd unrhyw gamddatganiad archwilio sydd heb ei gywiro yn berthnasol yn ansoddol nac yn feintiol, ym marn y Pwyllgor, i fynnu addasu'r datganiadau ariannol.

Ffioedd archwilio KPMG ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2020 oedd £50,000 (2019: £29,000). Y ffioedd heblaw archwilio, a chymeradwywyd pob un ohonynt yn unol â pholisi ffioedd heblaw archwilio Trafnidiaeth Cymru oedd £36,000 (2019: £4,000).

Archwilio mewnol

Mae'r model archwilio mewnol yn parhau i ddatblygu. Y bwriad yw bod y model sy'n rhannol cael ei drefnu drwy gontract allanol, sydd wedi gweithio'n effeithiol hyd yma, yn parhau hyd y gellir rhagweld. Mae'r model, sy'n cynnwys y Rheolwr Archwilio Mewnol yn goruchwylio gwaith y rhai sydd wedi'u secondio o Lywodraeth Cymru ar gyfer archwiliadau penodol ac mae'r defnydd o arbenigwyr i adolygu materion fel seiberddiogelwch, yn hyblyg ac yn fy marn i, yn diwallu anghenion sefydliad sy'n esblygu ar hyn o bryd.

Cwblhawyd y cynllun ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 yn foddhaol gyda phwyslais penodol ar gaffael safonol ac ansafonol, hawliadau cyllid Ewropeaidd, seiberddiogelwch a'r gyflogres.

Mae gan y swyddogaeth archwilio mewnol raglen uchelgeisiol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021, gan fynd i'r afael â phrif risgiau Trafnidiaeth Cymru sydd bellach wedi'u halinio'n llawn â barn y Bwrdd ar risg. Bydd angen i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor sicrhau bod pobl briodol yn gweithredu i alluogi i'r cynllun gael ei gyflawni'n effeithiol.

Risg a'r amgylchedd rheoli

Mae rheoli risg yn effeithiol yn elfen hanfodol o strategaeth a gweithrediadau Trafnidiaeth Cymru. Mae nodi risgiau mewn ffordd gywir ac amserol, ac asesu a rheoli risgiau wedi hynny, yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel reoli. Mae hyn yn sicrhau y gall Trafnidiaeth Cymru gyflawni ei nodau strategol ac i wireddu ei Ddangosyddion Perfformiad Allweddol.

Yn ystod y flwyddyn, mae cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Pwyllgor wedi'u hegluro. Cyflwynir gwybodaeth am risg ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd, ac mae'n darparu digon o wybodaeth i'r Bwrdd herio asesiad rheolwyr o risg a'i farn ynghylch a yw tebygolrwydd risg gros a'r risg ar ôl lliniaru yn briodol.

Cyfrifoldeb y Pwyllgor yw:

- goruchwylio'r fframwaith rheoli risg, y polisi rheoli risg a'i weithrediad;
- adolygu ac asesu'r camau rheoli a roddwyd ar waith gan reolwyr i liniaru risg; ac
- asesu'r broses sydd gan reolwyr ar waith i ddiwygio newidiadau yn eu hasesiad o effeithiolrwydd mesurau lliniaru

Gwnaed cynnydd sylweddol wrth ddatblygu pob agwedd ar y broses risg yn ystod y flwyddyn, yn enwedig o ran nodi ac asesu risg.

Mae angen gwneud gwaith pellach, serch hynny, i sicrhau bod y broses ar gyfer sicrhau bod lliniaru risg yn briodol, wedi'i dogfennu ac yn effeithiol.

Mae gan reolwyr gynlluniau i symud tuag at fodel risg "tair llinell o amddiffyniad" sydd wedi'i ddiffinio'n gliriach, ac fel rhan o hynny, maent yn bwriadu creu rôl Pennaeth Risg, a fydd yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol a finnau.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau ar seiberddiogelwch a rheoli contractau i wella ei wybodaeth o'r amgylchedd risg yn y meysydd hyn a sicrhau bod y swyddogion gweithredol sy'n gyfrifol yn gallu cyfleu a dangos y rheolaethau sydd ar waith ganddynt i liniaru risg. Bydd y rhaglen hon o gyflwyniadau yn parhau yn ystod y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

Effeithiolrwydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio

Cynhaliwyd hunan-asesiad o berfformiad y Bwrdd a'i bwyllgorau ym mis Ionawr 2020, ac yn unol â hynny, penderfynwyd gohirio'r hunan-asesiad manwl o berfformiad y Pwyllgor tan 2021.

Edrych ymlaen

Mae gan y Pwyllgor y cynlluniau canlynol ar ei agenda ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021, yn ogystal â'i fusnes arferol:

Cynllun	Sylw
Goruchwylio cynlluniau rheolwyr i wella amddiffynfeydd Trafnidiaeth Cymru yn erbyn ymosodiad seiberddiogelwch	Mae gan yr adroddiad archwilio mewnol, y gwnaed sylwadau arno yn gynharach, sawl cam y mae'n rhaid eu datrys ac mae'r ymdrech hon, ynghyd â gwelliannau pellach a phrofi amddiffynfeydd seiberddioglewch Trafnidiaeth Cymru, yn parhau gydol y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021
Drafftio Polisi Archwilio a Sicrwydd ac ymgynghori â chyfranddalwyr a rhanddeiliaid Trafnidiaeth Cymru	Bydd y Pwyllgor yn paratoi drafft o Bolisi Archwilio a Cysur ar gyfer y tair blynedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024, yn unol ag argymhellion adolygiad Syr Donald Brydon, a chynllun i gwblhau'r polisi ar ddechrau 2021
Cefnogi cynlluniau rheolwyr i wella fframwaith rheoli risg Trafnidiaeth Cymru, yn enwedig yng ngoleuni prynu Llinellau Craidd y Cymoedd	Mae gan reolwyr gynlluniau, y cyfeirir atynt uchod, i adeiladu ei swyddogaeth risg bwrpasol ymhellach. Bydd y Pwyllgor yn gweithio gyda'r rheolwyr i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu mewn ffordd mor effeithiol ac amserol â phosibl
Goruchwylio cynlluniau rheolwyr i brisio asedau Llinellau Craidd y Cymoedd	Mae gan reolwyr gynlluniau i newid y polisi cyfrifyddu ar gyfer prisio asedau Llinellau Craidd y Cymoedd yn unol â pholisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru, sef prisio'r asedau gan ddefnyddio'r dull Cost Amnewid Dibrisiedig
Cefnogi datblygiad parhaus y swyddogaeth archwilio mewnol	Bydd yr heriau sy'n wynebu'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cynyddu wrth i gymhlethdod Trafnidiaeth Cymru gynyddu, a bydd angen ei asesu a'i gefnogi'n rheolaidd i sicrhau y gall ddarparu'r gwasanaeth sydd ei angen

Pwyllgor iechyd, diogelwch a llesiant

Mae ein Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn gweithredu fel corff llywodraethu a galluogi i sicrhau bod ein strategaethau yn y maes hwn yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Pwyslais allweddol ein Polisi Iechyd, Diogelwch a Llesiant yw bod ein cwsmeriaid, ein cyflenwyr a'n gweithwyr yn cael profiad diogel, hapus ac iach wrth ddelio â ni.

Nicola Kemmery

Cadeirydd, Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Beth gafodd ei wneud yn 2019/20:

- Datblygwyd ac adolygwyd ein metrigau adrodd ar berfformiad iechyd a diogelwch – dangosyddion rhagweld a dangosyddion perfformiad blaenorol. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau o anafiadau ac achosion yn ymwneud â gweithwyr, contractwyr a chwsmeriaid. Gwnaethom sicrhau bod y gwersi allweddol wedi'u nodi a bod camau gwella addas wedi'u cymryd
- Archwiliwyd yr holl risgiau a rheolaethau iechyd a diogelwch presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg ar draws yr holl swyddogaethau busnes ond yn benodol lle roedd newidiadau mawr wedi digwydd, fel dod â'r gweithrediadau arlwyo i mewn yn fewnol
- Adolygwyd risgiau iechyd a diogelwch penodol a mentrau gwella, gan gynnwys:
  - Diwylliant Gwasanaethau Rheilffyrdd ac 'Egwyddorion Achub Bywydau'
  - Trosedd, tresbasu, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymosodiadau
  - Rheoli risg ar groesfannau
  - Rheoli blinder a Faint o Signalau Stop sy'n cael eu Pasio (SPADs)
  - Paratoi ar gyfer yr hydref a rheoli llystyfiant
  - Iechyd a llesiant galwedigaethol
  - Datblygu dull positif tuag at Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
- Cynhaliwyd teithiau diogelwch i gyfarwyddwyr yn ogystal â sesiynau briffio iechyd a diogelwch i gydweithwyr lle rhannwyd yr hyn a ddysgwyd.
- Adolygwyd gweithgareddau Grŵp Gweithredu Llesiant Gweithwyr Trafnidiaeth Cymru, gan gynnwys canfyddiadau o'n harolygon ar ddiwylliant diogelwch ymhlith gweithwyr a mynegai llesiant MIND.

Edrych ymlaen

Yn ystod 2020-21 byddwn yn:

- Monitro perfformiad Trafnidiaeth Cymru o ran iechyd, diogelwch a llesiant, gan sicrhau ein bod yn dysgu o unrhyw achosion, yn fewnol ac yn allanol
- Nodi cyfleoedd a datblygu ymyriadau rhagweithiol i wella sut rydym yn rheoli ein risgiau iechyd, diogelwch a llesiant ac yn atal anafiadau ac afiechyd
- Ymgysylltu â'n gweithwyr, cyflenwyr a rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn gweithredu arfer gorau ac yn meithrin diwylliant o welliant parhaus
- Sicrhau bod gan y busnes brosesau effeithiol ar waith i barhau i reoli materion iechyd, diogelwch a llesiant yn effeithiol wrth i Trafnidiaeth Cymru ddatblygu ac ysgwyddo swyddogaethau a chyfrifoldebau ychwanegol



Pwyllgor pobl

Mae'r Pwyllgor Pobl yn adolygu priodoldeb strwythur Trafnidiaeth Cymru fel sefydliad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn ogystal â'n strategaethau ar gyfer twf, trawsnewid ac integreiddio.

Mae Trafnidiaeth Cymru eisiau denu, cadw a chefnogi ei holl weithwyr i sicrhau sefydliad sy'n perfformio'n dda. Mae'r Pwyllgor Pobl yn cefnogi'r nod hwn drwy fonitro cydymffurfiaeth â pholisïau allweddol, adolygu priodoldeb strwythur y sefydliad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, cynllunio a gweithredu fframweithiau a strategaethau perfformio a gwobrwyo a chydnabod cyfraniad gwerthfawr ein gweithwyr.

Alison Noon-Jones
Cadeirydd, Pwyllgor Pobl

Beth gafodd ei wneud yn 2019/20:

- Adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor a'i aelodaeth, gan gynnwys penodi cynrychiolydd o blith y gweithwyr
- Gwreiddio polisïau i gefnogi ein gweithwyr ar sail gwerthoedd ein sefydliad
- Cytuno ar fframwaith i weithio gyda'r undebau llafur gan ddangos ein dull cynhwysol o ymdrin ag arferion gwaith modern a hyblyg
- Cynllunio a gweithredu dull gwobrwyo o ran taliadau, perfformiad a buddion
- Ymgysylltu â'n gweithwyr i'w cefnogi wrth symud i'n pencadlys newydd ym Mhontypridd ddiwedd 2020 mewn ffordd sy'n caniatáu iddynt fod yn gynhyrchiol wrth gynnal hyblygrwydd, cyfleoedd gwaith deinamig a sicrhau lefelau uchel o foddhad
- Gweithredu system AD newydd
- Rhoi pecynnau cymorth a llesiant i'r holl weithwyr sy'n sail i iechyd meddwl, personol a sefydliadol
- Denu sgiliau perthnasol iawn i'r Bwrdd a adlewyrchir ym mhrofiad a gravitas penodiadau diweddar y Cyfarwyddwyr Anweithredol
- Arsylwi ar lywodraethiant drwy sicrhau bod gweithwyr yn cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol
- Dod â gweithgareddau recriwtio yn fewnol i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y sefydliad

Edrych ymlaen

Yn ystod 20/21 byddwn yn:

- Creu cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl weithwyr
- Cyflwyno strategaeth rheoli talent i hwyluso datblygiad gyrfa a thwf unigolion i baratoi'r sefydliad ar gyfer y dyfodol
- Creu llwybrau i fapio talent ac olyniaeth drwy strategaethau hyfforddi a mentora gweithredol
- Ehangu mentrau gyrfaoedd cynnar i gynnwys rhaglen i raddedigion, mwy o gyfleoedd i brentisiaid a phartneriaeth sgiliau gyda'n cadwyn gyflenwi
- Cefnogi datblygiad sefydliadol blaengar sy'n cydnabod clystyrau perthnasol o gyfrifoldeb o fewn rhychwantau rheolaeth rhesymol
- Sefydlu cynhwysiant fel rheidrwydd sefydliadol drwy welliant cydnabyddedig o ran amrywiaeth poblogaeth y gweithwyr, datblygiadau positif mewn metrigau cyflog rhwng y rhywiau ac wrth ddatblygu pob gweithiwr
- Annog a gofyn am adborth adeiladol, wrth hunan-adlewyrchu a dysgu o brofiadau arweinyddiaeth



Pwyllgor taliadau

Mae ein pwyllgor mwyaf newydd, y Pwyllgor Taliadau, wedi'i sefydlu i osod egwyddorion a pharamedrau polisi taliadau Trafnidiaeth Cymru a goruchwylio polisïau a chanlyniadau taliadau i bawb sy'n gweithio i'r cwmni.

Pwyslais allweddol fydd sicrhau bod ein polisi taliadau yn deg, ei fod yn adlewyrchu perfformiad gweithwyr ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Alison Noon-Jones
Cadeirydd, Pwyllgor Taliadau

Beth gafodd ei wneud yn 2019/20

- Sefydlwyd y Pwyllgor newydd ym mis Medi 2019 a chymeradwywyd ei gylch gorchwyl
- Penodwyd aelodau'r Pwyllgor a chytunwyd ar ddiben a chyfrifoldebau allweddol

Edrych ymlaen

Yn ystod 2020/21 byddwn yn

- Pennu a chymeradwyo'r contractau cyflogaeth gan gynnwys pob agwedd ar dâl y Prif Weithredwr a phob cyfarwyddwr, ac unrhyw unigolyn arall lle mae ei gyflog sylfaenol dros £100,000.
- Cymeradwyo'r egwyddorion a'r polisi taliadau ar gyfer yr holl weithwyr eraill sy'n gweithio i Trafnidiaeth Cymru.
- Cytuno ar y polisi pensiynau i bob cydweithiwr.
- Pennu'r gyllideb ar gyfer codiadau cyflog blynyddol y Prif Weithredwr a'r holl gyfarwyddwyr.
- Pennu cymhwysedd unrhyw gynlluniau tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad blynyddol ac yna cytuno ar eu dyluniad ac unrhyw dargedau. Os caiff ei gyflwyno, byddwn wedyn yn dechrau adolygu perfformiad unigolion yn erbyn y rhain.
- Monitro'r polisi taliadau yn rheolaidd i adolygu ei effeithiolrwydd ac i adlewyrchu deddfwriaeth sy'n dod i'r amlwg, codau ymddygiad ac arfer gorau yn rheolaidd.
- Adrodd i'r Bwrdd yn flynyddol i roi sicrwydd ar y polisi taliadau.
- Cydlynu'n agos â'r adran Adnoddau Dynol a'r timau Cyllid yn ogystal ag unrhyw ymgynghorwyr i sicrhau bod gennym y cymorth a'r cyngor gorau i wneud y polisi mor effeithiol â phosibl.

Pwyllgor cwmseriaid a chyfathrebu

Mae'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu yn goruchwylio strategaeth a chynllun gweithredu cwsmeriaid Trafnidiaeth Cymru. Mae hefyd yn adolygu metrigau perfformiad gweithredol anariannol Trafnidiaeth Cymru yn ogystal ag adborth cwsmeriaid a rhanddeiliaid.

Pwyslais allweddol y pwyllgor yw sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu rhoi wrth wraidd ein holl weithrediadau, a'i rôl yw sicrhau bod cynllun clir ar waith i gyflawni'r trawsnewidiad disgwyliedig yn ein gwasanaeth i gwsmeriaid a'n deunydd cyfathrebu.

Sarah Howells

Cadeirydd, Pwyllgor Cwmseriaid a Chyfathrebu

Beth gafodd ei wneud yn 2019/20:

- Adolygu a monitro cynllun gwella Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru
- Rhoi metrigau perfformiad ar waith i fesur profiad y cwsmer a monitro'r rhain yn agos
- Adolygu'r holl fentrau a chynlluniau a roddwyd ar waith i gyflawni'r strategaeth gwsmeriaid. Roedd y rhain yn cynnwys:
  - Darparu cerbydau newydd
  - Amserlen well, cynyddu gwasanaethau a chapasiti i gwsmeriaid
  - Gweithredu ad-daliadau oedi a phrisiau is
- Monitro datblygiad ein paneli cynghori i randdeiliaid

Edrych ymlaen

Yn ystod 2020-21 byddwn yn:

- Adolygu'r hyn a ddysgwyd o berfformiad tywydd garw diweddar a chyflwyno cynlluniau adfer a chyfathrebu gwell i'n teithwyr
- Defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'n arolygon cwsmeriaid i awgrymu gwelliannau pellach i brofiad cwsmeriaid a'n strategaethau cysylltu â chwsmeriaid
- Adeiladu ar y cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud gan y paneli cynghori i randdeiliaid a sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru yn datblygu ac yn blaenoriaethu unrhyw fentrau gwella parhaus sy'n cael eu hawgrymu
- Datblygu panel rhithwir i ehangu ein proses adborth i gwsmeriaid a defnyddio hynny, ochr yn ochr ag adborth y panel cynghori, i helpu i flaenoriaethu mentrau newid yn y dyfodol
- Adolygu a monitro cynnydd ein datblygiadau arloesol o ran prisiau a thocynnau
- Cynnal trafodaethau gyda sefydliadau gwahanol fel Prifysgol Caerdyddd a Transport Focus ynglŷn â gwella dadansoddiad ansoddol o'n data
- Ymchwilio i ba mor ymarferol yw defnyddio ein ap newydd i deithwyr fel ffynhonnell ddata ar gyfer ein hymchwil profiad cwsmer
- Lansio system CRM newydd i wella'r cysylltiad â chwsmeriaid gyda golwg ar un cwsmer unigol
- Datblygu ein gweithgareddau ymgysylltu i adeiladu perthnasoedd cydweithredol â chynrychiolwyr etholedig yng Nghymru a'r Gororau.



Datganiad cadernid

Cefndir

Mae nifer o'r gweithgareddau y mae Trafnidiaeth Cymru yn gysylltiedig â nhw, gan gynnwys: cynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith; mwy o integreiddio o fewn systemau trafnidiaeth Cymru; sicrhau dyfodol carbon is; goruchwylio'r contract 15 mlynedd gyda Keolis Amey Wales Cymru Limited; adfywio Llinellau Craidd y Cymoedd; a datblygiad Metros Gogledd Ddwyrain Cymru a De Cymru.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio ar gynllun pum mlynedd tan 31 Mawrth 2025 sy'n nodi ei gynlluniau ar gyfer y cyfnod hwnnw ac amcangyfrif Trafnidiaeth Cymru o'r gofynion cyfalaf a refeniw i gyflawni ei gynllun.

Ym mis Mawrth bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei lythyr cylch gorchwyl, sy'n cynnwys y gyllideb y mae Llywodraeth Cymru wedi'i neilltuo i Trafnidiaeth Cymru i gynnal gweithgareddau penodol yn y flwyddyn sy'n cychwyn ar 1 Ebrill.

Mae dadansoddiad Trafnidiaeth Cymru o'i gadernid tymor hwy yn seiliedig ar wybodaeth y cyfarwyddwyr o'r gweithgareddau hynny y gofynnwyd iddynt gymryd cyfrifoldeb amdanynt gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'n rhagweld effaith cymryd mwy o weithgaredd a allai gael effaith bosib ar gadernid Trafnidiaeth Cymru yn y byr dymor a'r tymor canolig.

Cadernid tymor byr

Mae'r cyfarwyddwyr wedi penderfynu mai'r "tymor byr" at ddibenion y Datganiad Cadernid hwn yw'r deuddeg mis ar ôl llofnod y datganiadau ariannol h.y. 30 Mehefin 2021. Mae hyn yn cyd-fynd â'r cyfnod o asesiad y cyfarwyddwyr bod Trafnidiaeth Cymru yn fusnes gweithredol at y diben o baratoi datganiadau ariannol Trafnidiaeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu'r cyllid angenrheidiol ar gyfer y cyfnod tan 31 Mawrth 2021 ac nid yw'r cyfarwyddwyr yn ymwybodol o unrhyw reswm pam na ddylai hynny barhau ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Mehefin 2021.

Mae'r "sioc" i economïau Cymru a'r DU o ganlyniad i'r camau gweithredu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i frwydro yn erbyn lledaeniad y coronafeirws wedi rhoi straen sylweddol ar Trafnidiaeth Cymru, sy'n ddigynsail o ran ei ddifrifoldeb yn y ganrif hon, gan ei fod wedi effeithio'n uniongyrchol ar weithgaredd beunyddiol pobl Cymru o ran defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Ni fydd yr ymateb cychwynnol wedi cael llawer o effaith ar y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Fodd bynnag, ers y cyfnod hwnnw, mae'r gefnogaeth ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wedi dangos pa mor barod ydynt i ymateb mewn cyfnod o straen eithriadol, gan gynnwys y gostyngiad sylweddol yn nifer y teithwyr.

Ers 1 Mai 2020, fel y nodwyd mewn man arall yn yr adroddiad hwn, cafwyd newid sylfaenol ym model gweithredu Trafnidiaeth Cymru a Keolis Amey Wales Cymru Limited. Hyd at ganol Hydref 2020, mae TrC ar ran Llywodraeth Cymru yn rheoli perthynas sylfaenol wahanol gyda Keolis Amey Wales Cymru Limited, lle mae'r holl risgiau refeniw yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru gyda Keolis Amey Wales Cymru Limited yn derbyn ffi rheoli am weithredu gwasanaeth trenau.

Cadernid tymor canolig

Cyn dechrau effeithiau iechyd ac economaidd y pandemig coronafeirws, mae'r cyfarwyddwyr wedi sefydlu nifer o sefyllfaoedd ar gyfer y cyfnod at 31 Mawrth 2025. Roedd y sefyllfaoedd hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad y cyfarwyddwyr o risg, y cyfeirir ato yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Dyma'r sefyllfaoedd yr oedd y cyfarwyddwyr wedi'u hystyried yn eu dadansoddiad:

- Sefyllfa sy'n seiliedig ar y straen a ddefnyddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (Prudential Regulation Authority) yn 2019 ar gyfer banciau'r DU, sy'n rhagweld straen macro-economaidd y DU a byd-eang, dros gyfnod o bum mlynedd hyd ddiwedd 2023, y prif ragdybiaethau sy'n effeithio ar Trafnidiaeth Cymru yw bod Cynnyrch Domestig Gros (GDP) y DU yn disgyn 4.7% ac y byddai diweithdra'r DU yn cyrraedd 9.2% ("straen PRA"). Ystyriwyd ystwytho'r prawf straen PRA ar gyfer amgylchiadau a allai fod yn wahanol yng Nghymru, serch hynny, roedd y cyfarwyddwyr o'r farn ei bod yn annhebygol y byddai economi Cymru yn perfformio'n sylweddol wahanol i economi gweddill y DU.

- Sefyllfa lle mae Keolis Amey Wales Cymru Limited yn tynnu nôl o'i rwymedigaethau o dan ei gontract gyda Llywodraeth Cymru ac mae darpariaethau deddfwriaethol y Gweithredwr Dewis Olaf ("OLR") a Rheolwr Seilwaith Dewis Olaf ("IMLR") yn cael eu gweithredu – straen OLR/IMLR.

Gweler isod sylwadau am y ddau fath o straen:

Straen PRA– sefyllfa wedi'i chynllunio

Rhagwelwyd y byddai effaith y dirywiad mewn GDP a'r cynnydd mewn diweithdra yn arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y teithwyr yn enwedig ymhlith cymudwyr amser brig lle mae'r prisiau ar eu huchaf, a byddai'r cyfuniad yn cael effaith sylweddol ar refeniw teithwyr. Gallai camau lliniaru posibl olygu lleihau'r amserlen.

Straen OLR/IMLR– sefyllfa wedi'i chynllunio

Gallai gweld Keolis Amey Wales Cymru Limited yn tynnu nôl fel darparwr gwasanaeth o'i rwymedigaethau, arwain at weithredu darpariaethau OLR ac IMLR. Byddai hyn yn golygu bod yr holl risgiau refeniw a risgiau cost yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru. Efallai y byddai oedi i brosiectau seilwaith gan arwain at gostau cynyddol.

Straen coronafeirws – y realiti

Mae'r pandemig Coronafeirws wedi arwain at straen sy'n fwy na'r hyn a ragwelwyd gyda straen PRA. Yn wir, mae effaith lawn y pandemig Coronafeirws ar drafnidiaeth gyhoeddus heb ei theimlo'n llawn eto. Hefyd, mae'r model gweithredu rhwng Gweinidogion Cymru a Keolis Amey Wales Cymru Limited wedi newid yn sylweddol, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod risgiau refeniw a chost yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru.

Barn y cyfarwyddwyr

Mae'r ansicrwydd sy'n deillio o'r pandemig coronafeirws gymaint fel nad yw'r cyfarwyddwyr yn ystyried bod datblygu sefyllfaoedd ariannol yn ddefnyddiol i ddarllenwyr yr Arolwg Blynyddol hwn mewn amgylchiadau lle: nid yw model busnes Trafnidiaeth Cymru yn glir y tu hwnt i fis Hydref 2020; ac mae cymaint o ansicrwydd, er enghraifft, y posibilrwydd y bydd angen ymbellhau'n gymdeithasol yn barhaus ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Cadernid hirdymor

Yn y cyfnod hyd at 2035, mae Trafnidiaeth Cymru, yn ogystal ag effeithiau tymor hwy y pandemig coronafeirws, yn debygol o wynebu nifer o heriau pellach, a fydd yn effeithio ar ei gadernid yn y tymor hwy:

- Newid hinsawdd – bydd symud i economi carbon is yn cael effaith sylweddol ar Trafnidiaeth Cymru ac mae'r rhain wedi'u nodi mewn adran ar wahân ar newid hinsawdd.
- Newidiadau posibl i bolisi trafnidiaeth y DU a Chymru yn y dyfodol.

Mae dull Trafnidiaeth Cymru o nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg, sganio'r gorwel ac ymwneud â chyrff o Gymru, y DU ac yn rhyngwladol, yn rhoi rhywfaint o gysur i'r cyfarwyddwyr y bydd amser i allu mynd i'r afael â materion o'r fath ymhell o flaen llaw, yn amodol ar gyllid priodol.

Fframwaith llywodraethu



Datganiad adran 172

Mae TrC wedi dewis cydymffurfio â Rheoliadau Cwmnïau (Adrodd Amrywiol) 2018 (2018 MRR) yn wirfoddol yn 2020. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfarwyddwyr egluro sut roeddent yn ystyried buddiannau rhanddeiliaid allweddol a'r materion ehangach a nodir yn adran 172(1) (A) i (F) o Ddeddf Cwmnïau 2006 ('A172') wrth gyflawni eu dyletswydd i hyrwyddo llwyddiant y Cwmni o dan A172.

Mae gan ein Bwrdd fframwaith clir ar gyfer pennu'r materion o fewn ei gylch gwaith a osodir gan Lywodraeth Cymru ac wedi cymeradwyo Cylch Gorchwyl am faterion a ddirprwywyd i'w Bwyllgorau. Penderfynwyd ar rai trothwyon ariannol a strategol i nodi materion y mae angen i'r Bwrdd eu hystyried a'u cymeradwyo, y manylir arnynt mewn Matrics Dirprwyo sy'n nodi'r broses ddirprwyo a chymeradwyo ar draws y cwmni.

Mae Cyfarwyddwyr Trafnidiaeth Cymru wedi gweithredu yn unol â'u dyletswyddau o fewn y gyfraith, sy'n cynnwys eu dyletswydd i weithredu mewn ffordd, sydd yn eu barn nhw yn ddidwyll, fyddai fwyaf tebygol o hyrwyddo llwyddiant y Cwmni er budd ei aelodau drwyddi draw, gan ystyried y rhanddeiliaid a'r materion a nodir yn adran 172(1) o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae ystyriaethau Adran 172 wedi'u gwreiddio yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefel Bwrdd a thrwy'r cwmni. Ceir materion, ffactorau a rhanddeiliaid y mae'r Cyfarwyddwyr wedi'u hystyried wrth gyflawni eu dyletswydd o dan adran 172(1) drwy gydol yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Mae ein gweledigaeth, pwrpas a gwerthoedd wedi'u nodi yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, felly hefyd y risgiau sy'n wynebu ein sefydliad a'r camau lliniaru a gymerwn, ein harferion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, enghreifftiau o ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwybodaeth am ein hymgysylltiad â gweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr. Mae gweithgaredd amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu'r cwmni, dan oruchwyliaeth y Bwrdd, yn cael eu disgrifio drwy gydol yr adroddiad.

Datganiad llywodraethu corfforaethol

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Trafnidiaeth Cymru, rwy'n gyfrifol yn bersonol am reolaeth a llywodraethiant cyffredinol y cwmni. Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn amlinellu sut rwy'n cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Trafnidiaeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i'r safonau llywodraethu, atebolrwydd a thryloywder uchaf sy'n hanfodol bwysig i lwyddiant pob agwedd o'r cwmni.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cael ei lywodraethu gan:

- Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y cwmni;
- Cyfrifoldeb Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ac yn uniongyrchol i Senedd Cymru, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu dros wariant a rheolaeth y cwmni;
- fy nghyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrifyddu Trafnidiaeth Cymru; a
- Bwrdd Trafnidiaeth Cymru, wedi'i gefnogi gan ei is-bwyllgorau, sydd â chyfrifoldeb ar y cyd am oruchwylio gwaith y cwmni a darparu goruchwyliaeth, craffu a sicrwydd i sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru yn cyflawni ei nodau a'i amcanion gyda lefel briodol o reolaeth.

Mae system lywodraethu Trafnidiaeth Cymru hefyd yn cynnwys yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Y Bwrdd

Mae Bwrdd Trafnidiaeth Cymru yn goruchwylio holl weithgareddau Trafnidiaeth Cymru, drwy ddarparu arweinyddiaeth a gweledigaeth strategol i sicrhau bod safonau uchel o lywodraethu corfforaethol a ffyrdd o weithio yn cael eu cynnal. Mae'n gweithredu ar y cyd, gan ganolbwyntio ar:

- sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i ddarparu goruchwyliaeth a llywodraethiant;
- materion strategol ac arwyddocaol sy'n effeithio ar weithrediadau Trafnidiaeth Cymru wrth gyflawni ei gylch gwaith; a
- gweithredu strategaeth y Bwrdd. Mae'n llywio, craffu a herio effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd perfformiad Trafnidiaeth Cymru gyda'r bwriad o sicrhau ei ddyfodol a'i weledigaeth o greu rhwydwaith trafnidiaeth y gall Cymru fod yn falch ohono.

Mae cyfrifoldebau ein Cadeirydd yn cael eu rhannu a'u cefnogi gan aelodau eraill o'r Bwrdd. Gall y Bwrdd ddirprwyo cyfrifoldeb i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i weinyddu materion rheoli o ddydd i ddydd, ond mae'n parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol am bob mater yn y pen draw.

Darperir gwybodaeth i'r Bwrdd rhwng a chyn pob cyfarfod i ganiatáu trafodaeth agored ac, os yw'n briodol, gwneud penderfyniadau. Mae aelodau o Uwch Dîm Arweinyddiaeth Trafnidiaeth Cymru yn mynychu'n rheolaidd i gyflwyno papurau gydag argymhellion i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf.

Mae ein Cyfarwyddwyr wedi llofnodi datganiad Gwrthdaro Buddiannau ac mae pob un yn cwblhau ffurflen datgan buddiannau bob chwarter. Mae buddiannau sydd wedi'u datgan ar gael ar wefan Trafnidiaeth Cymru. Rhoddir cyfle i ddatgan buddiannau ar ddechrau pob cyfarfod hefyd. Disgwylir i bob Cyfarwyddwr weithredu yn unol â'r saith egwyddor bywyd cyhoeddus ac mae pob un wedi llofnodi Cod Ymddygiad Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau byrddau cyrff cyhoeddus. Ni ddisgwylir i Trafnidiaeth Cymru gydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU ond mae wedi dewis cydymffurfio â'i egwyddorion yn wirfoddol.

Cyfarfu ein Bwrdd un ar ddeg o weithiau yn ystod y flwyddyn. Mae cofnodion yr holl gyfarfodydd Bwrdd yn cael eu cyhoeddi yn https://trc.cymru/board-minutes

Presenoldeb yng nghyfarfod y Bwrdd a'r is-bwyllgorau

	Bwrdd	Archwilio a Risg	Cwsmeriaid a Chyfathrebu	Iechyd, Diogelwch a Llesiant	Pobl
Alun Bowen	6/11	5/5			
Heather Clash	11/11	5/5			
Vernon Everitt*	6/6			2/2	
Sarah Howells	11/11	5/5	4/4		
Nicola Kemmery	10/11			4/4	2/2
Alison Noon-Jones	11/11		1/2		4/4
James Price	11/11		3/4		
Scott Waddington	11/11				

Mae ein Bwrdd yn cyfuno gwybodaeth a sgiliau chwech o aelodau annibynnol anweithredol a dau aelod gweithredol i ddarparu mewnwelediad a phrofiad i helpu i lunio ein cyfeiriad strategol. Mae'r cyfarwyddwyr annibynnol anweithredol yn dod ag ystod eang o sgiliau a phrofiad i'r Bwrdd ac mae pob un ohonynt yn weithwyr proffesiynol blaenllaw yn eu meysydd eu hunain. Maent yn rhoi barn annibynnol ar faterion strategaeth, perfformiad a risg ac mewn sefyllfa dda i herio a chraffu ar berfformiad rheolwyr mewn ffordd adeiladol.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi adolygu ei effeithiolrwydd drwy ymarfer hunan-asesu. Sgoriodd yr asesiad yn uchel ar draws y rhan fwyaf o feysydd. Cytunwyd ar gamau gweithredu lle nodwyd meysydd ar gyfer datblygu a gwella.

Yn ystod y flwyddyn, cafwyd un newid i aelodaeth y Bwrdd:
- Penodwyd Vernon Everitt yn gyfarwyddwyr annibynnol anweithredol ym mis Medi 2019.

Amrywiaeth y Bwrdd

Mae ein Bwrdd wedi ymrwymo i ddenu a chadw pobl dalentog, a gyda hynny mewn cof, caiff amrywiaeth ei gwerthfawrogi ar draws ystod o feini prawf. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod amrywiaeth, yn ei holl ffurfiau, yn allweddol i sicrhau bod gwahanol safbwyntiau'n cael eu cyflwyno i'w prosesau o wneud penderfyniadau. Mae'r Bwrdd o'r farn bod rhywedd yn agwedd bwysig wrth greu'r Bwrdd gorau posib o ran cydbwysedd a chyfansoddiad. Ar hyn o bryd, mae aelodaeth y Bwrdd yn gyfartal o ran rhywedd – pedair benyw a phedwar gwryw.

Pwyllgorau'r bwrdd

Mae ein Bwrdd wedi dirprwyo pwerau penodol i bump is-bwyllgor sy'n gweithredu i helpu'r Bwrdd gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau cyffredinol. Y pump is-bwyllgor yw:

- Archwilio a Risg - i ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd o ran rheoli risg, rheolaeth fewnol ac adrodd ariannol.
- Cwsmeriaid a Chyfathrebu - helpu'r Bwrdd i adolygu, monitro a darparu cyfeiriad ar bynciau sy'n ymwneud â chwsmeriaid wrth geisio cyflawni nod Trafnidiaeth Cymru i Gadw Cymru i Symud yn ddiogel, gan roi sylw arbennig i lais y cwsmer, trawsnewid profiad y cwsmer, arloesi digidol a chyfathrebu agored a gonest.
- Iechyd, Diogelwch a Llesiant – helpu'r Bwrdd i argymell polisi iechyd a diogelwch, monitro ac asesu cydymffurfiaeth, datblygu a darparu gwelliant parhaus, adolygu ac ymchwilio i ddigwyddiadau iechyd a diogelwch ac ystyried materion iechyd a diogelwch a allai fod â goblygiadau strategol o ran y busnes ac enw da'r cwmni, ac argymell mesurau ac ymatebion priodol.
- Pobl – helpu'r Bwrdd ym mhob achos sy'n gysylltiedig â strwythur y sefydliad a chynllunio olyniaeth, cydymffurfio â pholisïau, hyfforddi a datblygu, adolygu ac argymell polisi iawndal, iawndal gweithredol a'r broses o weinyddu'r cynllun buddion.
- Taliadau – gosod egwyddorion a pharamedrau'r polisi taliadau ar gyfer Trafnidiaeth Cymru a goruchwylio'r polisi a chanlyniadau taliadau.

Caiff pob pwyllgor ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol ac mae'n cwrdd o leiaf bob chwarter, gyda chyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau yn cwrdd yn ôl yr angen. Mae gan bob is-bwyllgor awdurdod dirprwyedig o'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau a ddiffinnir yn ei gylch gorchwyl. Mae cylch gorchwyl llawn pob pwyllgor wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan https://tfw.gov.wales/board-minutes

Mae Cadeirydd pob is-bwyllgor yn diweddaru'r Bwrdd am y gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y mis blaenorol a lle bo angen, gwneud argymhellion ar ran yr is-bwyllgor i'r Bwrdd eu cymeradwyo.

Fframwaith llywodraethu

Mae ein Bwrdd yn atebol i Weinidogion Cymru, sef unig aelodau'r cwmni. Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am bolisi strategol sy'n ymwneud â holl faterion trafnidiaeth sydd wedi'u datganoli. Mae'r Prif Weinidog wedi rhoi'r prif gyfrifoldeb am oruchwylio Trafnidiaeth Cymru i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru. Mae'r Gweinidog yn pennu cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru drwy osod amcanion, blaenoriaethau a chyllidebau gweithredol a chyfalaf, sy'n sail i gynllun busnes a chorfforaethol Trafnidiaeth Cymru.

Mae'r berthynas o ran rheolaeth ariannol a llywodraethu corfforaethol rhwng Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru wedi'i hamlinellu yn y Cytundeb Rheoli. Mae'r ddogfen hon yn nodi telerau'r cytundeb rhwng Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i gefnogi perthnasoedd adeiladol a chlir rhyngddynt. Mae'r Cytundeb Rheoli cyfredol wrthi'n cael ei adolygu a bydd dogfen fframwaith ddiwygiedig yn ei lle ar gyfer 2020/21.

Yr uwch dîm arweinyddiaeth

Mae ein Uwch Dîm Arweinyddiaeth, gan gynnwys finnau fel Prif Swyddog Gweithredol, saith o gyfarwyddwyr gweithredol a thri cyfarwyddwr, yn gyfrifol am reoli Trafnidiaeth Cymru o ddydd i ddydd. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cwrdd bob wythnos i drafod ac i wneud penderfyniadau ar faterion gweithredol a strategol gyda chyfrifoldeb am gyllid, iechyd a diogelwch, pobl, rheoli risg, llywodraethu a pherfformiad a chynnydd prosiectau a rhaglenni.

Fframwaith rheolaeth fewnol

Mae pob corff sy'n cael ei ariannu gan arian cyhoeddus yn amodol ar reolaethau mewnol ac allanol i sicrhau cydymffurfiaeth â fframweithiau Llywodraeth Cymru fel Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi gweithredu trefniadau rheoli cadarn i roi sicrwydd i'r Bwrdd, ei Brif Swyddog Cyfrifyddu a Gweinidogion Cymru fod arian cyhoeddus ac adnoddau yn cael eu defnyddio'n iawn ac yn effeithlon.

Mae ein Atodlen Ddirprwyo yn nodi lle mae awdurdod o fewn y cwmni am benderfyniadau penodol a wneir yn enw Trafnidiaeth Cymru neu ar ei ran, a lle mae'r Bwrdd wedi dirprwyo unrhyw benderfyniad o'r fath i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth neu un o'i is-bwyllgorau. Mae'r Atodlen yn nodi'r materion sydd wedi'u neilltuo'n unswydd ar gyfer Llywodraeth Cymru, y Bwrdd, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac mae'n cynnwys y broses o wneud penderfyniadau corfforaethol ac awdurdodau gwariant.

Llywodraethu a rheolaeth ariannol

Mae cynllunio busnes Trafnidiaeth Cymru yn cael ei benderfynu gan y gyllideb a bennir gan Lywodraeth Cymru fel y nodir yn ein llythyr cylch gwaith blynyddol. Mae'r canlyniadau gwirioneddol yn cael eu cymharu â rhagolygon ac yn cael eu hadolygu bob mis i sicrhau bod gwariant yn cael ei reoli yn unol â chyllidebau cymeradwy ac i roi sicrwydd a chyngor i'r Bwrdd.

Twyll, llwgrwobrwyo a chwythu'r chwiban

Mae Trafnidiaeth Cymru yn arddel polisi 'dim goddefgarwch' o ran twyll neu lwgrwobrwyo. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cytuno ar bolisïau a gweithdrefnau Gwrth-Dwyll, Llygredd a Gwrth-Lwgrwobrwyo a pholisi a gweithdrefn chwythu'r chwiban. Ymchwilir yn llawn i unrhyw achosion lle ceir amheuaeth o dwyll neu lygredd, a chymerir camau disgyblu a/neu gyfreithiol lle bo'n briodol yn unol â'n polisi. Yn 2019-20, ni chofnodwyd unrhyw achosion o dwyll neu lwgrwobrwyo yn Trafnidiaeth Cymru.

Mae'n ofynnol i holl weithwyr Trafnidiaeth Cymru wneud hyfforddiant Gwrth-Dwyll a Gwyngalchu Arian.

Mae ein polisi a'n gweithdrefn chwythu'r chwiban wedi'u cynllunio i sicrhau diwylliant o hyder ac amgylchedd diogel pe bai pryder yn cael ei godi. Ni chodwyd unrhyw bryderon drwy ein gweithdrefn chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn. Mae gennym banel chwythu'r chwiban a swyddogion enwebedig yn eu lle.

Bod yn agored a thryloyw

Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored a thryloyw o ran y ffordd y mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithredu fel busnes ac wedi mabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi Gwybodaeth Enghreifftiol a baratowyd a chymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Cynllun yn ymrwymo Trafnidiaeth Cymru i sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn.

Yn 2019-20, derbyniodd Trafnidiaeth Cymru 114 o geisiadau am wybodaeth a bodlonodd y dyddiadau cau statudol ar gyfer bron pob un o'r ceisiadau. Nid oedd Trafnidiaeth Cymru yn destun unrhyw adolygiadau gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn 2019-20.

Rheoli risg

Mae ein Bwrdd yn gyfrifol am reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau Trafnidiaeth Cymru. Mae'r Cwmni wedi cynnal asesiad o'r risgiau y mae'n eu hwynebu. Cofnodir risgiau allweddol yn y Gofrestr Risg Strategol y mae'r Bwrdd yn ei hadolygu ym mhob cyfarfod. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ystyried y Cofrestrau Risg Gweithredol a Strategol yn ei gyfarfodydd.

Mae ein Cofrestrau Risg yn nodi risgiau posibl a'u blaenoriaethu yn ôl effaith a thebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd. Cyflwynir camau lliniaru ochr yn ochr â phob risg er mwyn rheoli a lleihau'r risgiau a nodwyd.

Sicrwydd

Daw prif ffynhonnell sicrwydd Trafnidiaeth Cymru o nodi pa mor dda y mae ei amcanion yn cael eu cyflawni a'r risgiau yn cael eu rheoli. Yn ogystal â threfniadau archwilio mewnol Trafnidiaeth Cymru, ceir sicrwydd hefyd drwy adroddiadau misol i'r Bwrdd, is-bwyllgorau'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ynghyd â chofrestrau risg a mathau eraill o wybodaeth reoli. Rydym hefyd yn darparu adroddiadau am uchafbwyntiau gweithredol misol i Lywodraeth Cymru.

Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd yn amodol ar adolygiadau allanol. Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd staff Trafnidiaeth Cymru dystiolaeth ddwywaith i Bwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau y Cynulliad Cenedlaethol. Gellir cynnal adolygiadau allanol hefyd gan Archwilydd Cenedlaethol Cymru.

Mae ein gweithgareddau archwilio mewnol yn parhau i esblygu a chryfhau. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Risg y cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2020-21 ar 13 Mawrth 2020.

Roedd yr archwiliadau mewnol a gynhaliwyd gennym eleni yn ymdrin ag amrywiaeth o feysydd gan gynnwys Cyllid Ewropeaidd, caffael, ceisiadau amrywiad masnachol, rheoli risg, seiberddiogelwch, prynu i dalu, cyflogres, treuliau, lechyd a Diogelwch, parhad busnes, cydymffurfiaeth rheoliadol a rheoli contractau a chyflenwyr. Cwblhawyd y rhaglen a gynlluniwyd a rhoddodd yr adroddiadau a ddeilliodd o hynny sicrwydd rhesymol a gwnaed argymhellion ar gyfer gwelliannau, y mae pob un ohonynt wedi'u derbyn. Mae'r holl welliannau yn cael eu gweithredu yn unol ag amserlen y cytunwyd arni gan yr adran archwilio mewnol i gryfhau prosesau rheolaeth fewnol.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20, rwy'n fodlon nad oedd unrhyw wendidau sylweddol yn fframwaith llywodraethu a systemau rheolaeth fewnol Trafnidiaeth Cymru. Fe wnaethant gefnogi llwyddiant polisïau, nodau ac amcanion Trafnidiaeth Cymru, hwyluso arferion effeithiol o swyddogaethau'r Cwmni a diogelu arian cyhoeddus ac asedau y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol amdanynt yn bersonol.

James Price
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol hwn gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 29 Mehefin 2020. Mae pob un o'r cyfarwyddwyr oedd yn eu swyddi ar ddiwrnod cadarnhau'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, bod yr Adroddiad Blynyddol, o'i gymryd yn llawn, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i randdeiliaid i asesu sefyllfa a pherfformiad, model busnes a strategaeth Trafnidiaeth Cymru.



Pont Werdd Cymru

Adroddiad ar daliadau

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl aelodau'r Bwrdd.

Cyfanswm tâl unigol

Cyfarwyddwr	Cyflog 2019-20	Cyflog 2018-19	Buddion pensiwn 2019-20	Buddion pensiwn 2018-19	Cyfanswm 2019-20	Cyfanswm 2018-19
James Price Prif Swyddog Gweithredol (wedi'i secondio o Lywodraeth Cymru)	155-160	155-160	60-65	35-40	220-225	195-200
Heather Clash Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol o fis Gorffennaf 2018	120-125	90-95 (cyfwerth â blwyddyn lawn 120-125)	5-10	5-10 (cyfwerth â blwyddyn lawn 5-10)	130-135	95-100 (cyfwerth â blwyddyn lawn 125-130)
Scott Waddington Cyfarwyddwr anweithredol - Cadeirydd o fis Ionawr 2019*	25-30	5-10	-	-	25-30	5-10
Nick Gregg Cyfarwyddwr anweithredol - cadeirydd interim tan fis Ionawr 2019*	-	15-20	-	-	-	15-20
Sarah Howells Cyfarwyddwr anweithredol o fis Gorffennaf 2018	5-10	0-5	-	-	5-10	0-5
Nicola Kemmery Cyfarwyddwr anweithredol o fis Gorffennaf 2018	5-10	0-5	-	-	5-10	0-5
Alison Noon-Jones Cyfarwyddwr anweithredol o fis Gorffennaf 2018	5-10	0-5	-	-	5-10	0-5
Alun Bowen Cyfarwyddwr anweithredol o fis Ebrill 2019	0-5	-	-	-	0-5	-
Vernon Everitt Cyfarwyddwr anweithredol o fis Medi 2019	0-5	-	-	-	0-5	-
Martin Dorchester Cyfarwyddwr anweithredol hyd at fis Medi 2018*	-	0-5	-	-	-	0-5
Peter Kennedy Aelod o'r bwrdd hyd at fis Gorffennaf 2018**	-	-	-	-	-	-
Brian McKenzie Aelod o'r bwrdd hyd at fis Gorffennaf 2018**	-	-	-	-	-	-
Andrew Falleyn Aelod o'r bwrdd hyd at fis Mai 2018**	-	-	-	-	-	-

*Cyfarwyddwyr Anweithredol a gafodd eu penodi a'u talu gan Lywodraeth Cymru
**Aelodau'r Bwrdd na gafodd gyflog penodol/ychwanegol am fod yn aelod o'r bwrdd oherwydd eu dyletswyddau gwasanaeth sifil o fewn Llywodraeth Cymru

Manylion pensiwn

Cyfarwyddwr	Pensiwn buddion diffiniedig cronedig ar oedran pensiwn ar 31/03/20 £000	Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £000	CETV ar 31/03/20 £000	CETV ar 31/03/2019 £000	Gwir gynnydd yn y CETV £000	Cyfraniad at gynllun cyfraniadau diffiniedig £000
James Price Prif Swyddog Gweithredol (wedi'i secondio o Lywodraeth Cymru)	60-65	2.5-5	855	782	31	-
Heather Clash Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol	-	-	-	-	-	5-10

Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros a goramser. Ni chafodd buddion o fath arall eu talu gan TrC.

Pensiynau

Mae James Price, fel un o weithwyr Llywodraeth Cymru, yn aelod o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS). Mae'r ffigur Buddion Pensiwn ar gyfer y CSPS yn cynrychioli gwerth oes buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn a gyfrifwyd gan (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) a (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Effeithir arno gan effaith chwyddiant a all arwain at amrywiadau sylweddol rhwng blynyddoedd.

Mae gweithwyr TrC yn aelodau o gynllun pensiwn cyfrannol diffiniedig. Mae'r ffigur Buddion Pensiwn ar gyfer y cynllun hwn yn cynrychioli cyfraniad y cyflogwr o 8%.

Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol yn aelodau o gynllun pensiwn cyflogwyr TrC.

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Gwerth y buddion yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall yw CETV pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm aelodaeth y cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maen nhw hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydyn nhw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

Gwir gynnydd yn y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun pensiwn neu drefniant arall) a defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Cymarebau tâl

Tâl band y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf yn TrC yn ystod y flwyddyn ariannol 2019-20 oedd £155-160,000 (2018-19: £155-160,000. Roedd hyn 5.3 gwaith (2018-19: 3.1 gwaith) tâl canolrifol y gweithlu, sef £29,879 (2018-19: £51,400). Gellir priodoli'r cynnydd o un flwyddyn i'r llall i drosglwyddo'r gwasanaeth arlwyo mewnol ar drenau ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau o fis Ionawr 2020 ymlaen. Trosglwyddodd 104 o gydweithwyr arlwyo o'r sector preifat i TrC, a effeithiodd ar ddosbarthiad y gweithwyr ar draws y strwythur graddio rôl. Ni chafodd unrhyw weithiwr dâl a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf.

Mae cyfanswm y tâl ar gyfer y sawl cyfrifiad cyflog yn cynnwys cyflog ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Ein strwythur talu a graddio

Mae'r tabl canlynol yn cynnwys strwythur tâl a graddio TrC, gan gynnwys y bandiau cyflog ar gyfer pob swydd a'r nifer o unigolion a oedd ym mhob band ym mis Mawrth 2020.

Band Cyflog	Cyflog Sylfaenol (Isafswm)	Cyflog Sylfaenol (Pwynt Canol)	Cyflog Sylfaenol (Uchafswm)	Nifer y Staff ar 31 Mawrth 2020
Band Cyflog 2 y Cyfarwyddwr Gweithredol (gan gynnwys aelodau gweithredol o'r bwrdd)	£117,200	£146,500	£175,800	4
Band Cyflog 1 y Cyfarwyddwr Gweithredol (gan gynnwys aelodau gweithredol o'r bwrdd)	£96,800	£121,000	£150,600	5
1	£70,000	£87,500	£105,000	11
2	£50,400	£63,000	£75,600	30
3	£37,200	£46,500	£55,800	48
4	£28,400	£35,500	£42,600	53
5	£22,000	£27,500	£33,000	29
6	£16,800	£21,000	£25,200	125

Datganiadau ariannol

31 MAWRTH 2020

Rhif cofrestru 09476013

Adroddiad strategol

Mae Trafnidiaeth Cymru'n cyflwyno ei adroddiad strategol, adroddiad y cyfarwyddwyr a'i ddatganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gwmni nid er elw, sydd ym mherchnogaeth llwyr Llywodraeth Cymru, ac sy'n gyrru gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, integredig, fforddiadwy a chynaliadwy o safon uchel y mae pobl Cymru yn falch ohono. Mae Trafnidiaeth Cymru yn hanfodol i gyflawni themâu allweddol Llywodraeth Cymru fel sydd wedi'u nodi yn Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol ac yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Adolygiad busnes

Mae 2019/20 wedi bod yn flwyddyn o newid a thwf i TrC gan weithio gyda'n partneriaid - mae ein prif lwyddiannau eleni'n cynnwys:

- Cwblhau'r broses o drosglwyddo llinellau Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert, sy'n cael eu hadnabod fel Llinellau Craidd y Cymoedd, o Network Rail i TrC.
- Parhau i weithio gyda Keolis Amey Cymru Limited, sef ein partner gweithredu a chyflawni, i ddylunio a chyflawni'r rhaglen waith ar gyfer trosglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd, gan gynnwys dechrau adeiladu ein Canolfan Reoli Metro sydd werth £100 miliwn yn Ffynnon Taf – cyfleuster cynnal a chadw ar gyfer y trenau tram newydd a fydd yn rhedeg ar y Metro a chanolfan reoli yn goruchwylio gweithrediad Metro De Cymru. Cefnogir y gwaith hwn gan gyllid ERDF drwy Lywodraeth Cymru.
- Agor ein Canolfan Seilwaith Metro yn Nhrefforest sy'n gartref i tua 200 o gydweithwyr TrC, Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, a phartneriaid datblygu;
- Dechrau'r gwaith o adeiladu gorsaf rheilffordd newydd sydd werth £8 miliwn yn Bow Street, Ceredigion;
- Gweithredu gwasanaethau arlwyo ar ein trenau, gan groesawu dros 100 o weithwyr i dîm TrC;
- Cydweithio gyda holl awdurdodau lleol Cymru a Llywodraeth Cymru i gyflwyno dros 600,000 o Gardiau Teithio Rhatach newydd ar Fysiau;
- Newid ein hamserlen trenau ar gyfer mis Rhagfyr 2019 er mwyn galluogi cynnydd o 40% yn nifer y gwasanaethau trenau rydyn ni'n eu gwasanaethu ledled Cymru a'r Gororau ar ddydd Sul a lleihau'r amseroedd teithio rhwng Gogledd a De Cymru;
- Cyflwyno 'Ad-daliad am Oedi 15', gan alluogi ein cwsmeriaid i hawlio iawndal os yw eu trên yn cael ei oedi am 15 munud neu fwy;
- Dechrau rhedeg gwasanaethau trên uniongyrchol rhwng Gogledd Cymru a Lerpwl am y tro cyntaf ers 40 o flynyddoedd;
- Datblygu modelau trafnidiaeth newydd sy'n cynnwys De-orllewin, Canolbarth a Gogledd Cymru er mwyn ategu model presennol De-ddwyrain Cymru, gan ddarparu cynrychioliadau cyfrifiadurol o deithiau pobl ar drenau, bysiau a ffyrdd;
- Dod yn Gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig, gan wneud yn siŵr bod pob cyflogwr cymwys yn derbyn isafswm cyflog sydd 13% yn uwch na'r isafswm cyflog presennol.
- Parhau i adeiladu ein pencadlys newydd yn Llys Cadwyn sydd yng nghanol tref Pontypridd;
- Gweithredu systemau cyllid ac adnoddau dynol newydd;
- Recriwtio tri phrentis rheoli prosiect a phedwar prentis seilwaith
- Helpu Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 i roi cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu a gwella eu sgiliau;
- Cwblhau ein Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid sy'n nodi sut byddwn yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid ac yn adeiladu perthnasoedd effeithiol, ac mae hefyd yn cynnwys cod ymarfer newydd sydd wedi'i gymeradwyo gan ein partneriaid
- Sefydlu ein panel cynghori er mwyn ein galluogi ni i ymgysylltu'n rhagweithiol ac yn dryloyw gyda'n rhanddeiliaid i wneud yn siŵr bod amrywiaeth eang o safbwyntiau'n dylanwadu ar ein gwaith;
- Caffael 100% o ynni adnewyddadwy;
- Lansio ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, gan gyhoeddi ein hadroddiad bioamrywiaeth cyntaf a chyflawni gwobr y Ddraig Werdd;
- Gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru i gyflwyno camerâu corff i helpu i leihau ymosodiadau ar ein pobl; a
- Datblygu system wybodaeth ddaearyddol gyda Network Rail gan ddefnyddio data trydydd parti i ddeall yr asedau sy'n wynebu'r risg fwyaf o dywydd eithafol fel llifogydd.

Mae ein ffocws ar gyfer 2020/21 wedi'i osod gan lythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys:

- Sicrhau bod gwasanaethau trên o safon uchel a dibynadwy yn cael eu darparu ledled Cymru a'r gororau;
- Rheoli ein ODP i wneud yn siŵr bod y seilwaith yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn effeithlon er mwyn darparu gwasanaethau trên;
- Datblygu ein cynllun i wneud yn siŵr bod y cerbydau newydd sydd wedi'u harchebu dan gontract y Gwasanaethau Trên ar gael i'w defnyddio cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl;
- Helpu Llywodraeth Cymru i ddarparu cyngor ac ymgynghoriaeth proffesiynol, gan gynnwys ar faterion sy'n ymwneud â'r rhwydwaith bysiau, rhwydwaith ffyrdd strategol, arweiniad ar arfarnu Trafnidiaeth Cymru, teithio llesol a datblygu achos ar gyfer buddsoddi yn y rhwydwaith trafnidiaeth;
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ailystyried yr amserlen weithgareddau ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb o ran cyflawni swyddogaethau amrywiol i TrC;
- Helpu i ddatblygu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru;
- Datblygu ein rôl o ran cefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru; a
- Cefnogi'r ymateb i'r Coronafeirws, sydd wedi cael effaith sylweddol ar y nifer sy'n teithio ar drenau (darllenwch Risgiau ac Ansicrwydd).

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i roi arian i TrC er mwyn helpu i gyflawni'r cylch gwaith hwn.

Canlyniadau ar gyfer y cyfnod

Y digwyddiad mwyaf arwyddocaol yn ystod y cyfnod oedd caffael Llinellau Craidd y Cymoedd gan Network Rail ar 28 Mawrth 2020.

Y pris caffael oedd £469.8m, gyda Threth Trafodiadau Tir a chostau caffael y gellir eu priodoli'n uniongyrchol yn arwain at gost cyfalaf terfynol o £520.9m (sy'n cynnwys gwariant o £5.0m o'r blynyddoedd blaenorol).

Mae'r datganiad incwm hwn yn dangos gwarged o £28,000 ar gyfer y flwyddyn (2019: £27,000) a chostau gweinyddol o £33.5 miliwn ar gyfer y flwyddyn, sy'n gynnydd o 71 y cant o £19.6 miliwn y flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd yn adlewyrchu twf pellach mewn gweithgareddau yn ystod 2019/20 ar ôl cychwyn gwasanaeth trên newydd ar gyfer Cymru a'r Gororau ym mis Hydref 2018 a chyn caffael Llinellau Craidd y Cymoedd ar 28 Mawrth 2020, ynghyd â gweithgareddau ehangach eraill ar brosiectau trafnidiaeth.

Hefyd, talodd TrC £172.8 miliwn o daliadau grant refeniw a £13.9 miliwn o daliadau grant cyfalaf o dan y cytundeb grant rhwng Gweinidogion Cymru a Keolis Amey Cymru Limited (wedi'i eithrio o'r gwariant uchod).

Yn ychwanegol i gaffael Llinellau Craidd y Cymoedd, gwariodd TrC £63.3 miliwn ar brosiectau cyfalaf eraill, yn bennaf ar waith rydym yn ei wneud i helpu i ddatblygu Metro De Cymru (gan gynnwys gwaith uwchraddio sylweddol i Linellau Craidd y Cymoedd), sy'n ychwanegol i'r gwaith sy'n cael ei wneud ar orsaf rheilffordd newydd a chyfleusterau cadw trenau yn Llanwern, ynghyd â'r orsaf rheilffordd newydd yn Bow Street, Ceredigion.

Mae ein balans eiddo, offer a chyfarpar yn £608.4 miliwn ar 31 Mawrth 2020 (2019: £31.6 miliwn). Gwnaethom hefyd dderbyn £1.9 miliwn o wariant cyfalaf a gafodd ei ariannu gan grant er mwyn gwella asedau trydydd partïon nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cyfalafu ar fantolen TrC; mae hyn wedi'i gynnwys yng nghostau gweinyddol y datganiad incwm.

Roedd ein gwarged wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn wedi cynyddu ychydig i £0.68 miliwn (£0.65 miliwn ar 31 Mawrth 2019). Mae'r gwarged wrth gefn hwn yn deillio o'n gwaith ymgynghori, nad oedd yn cael ei ariannu gan grant, a roddwyd i Lywodraeth Cymru a sefydliadau trydydd parti eraill (awdurdodau lleol yn bennaf), a byddwn yn ei ddefnyddio i ariannu gweithgareddau a chostau TrC yn y dyfodol.

Dangosyddion perfformiad allweddol

Mae'r tabl isod yn nodi ein gwariant terfynol o'i gymharu â'r cynllun busnes a gyhoeddwyd. Mae ein alldro terfynol yn cael ei rannu'n wariant sy'n cael ei ariannu gan grant a nodir yn ein cynllun busnes a'r gwasanaethau ychwanegol rydyn ni'n eu darparu i Lywodraeth Cymru a chyrff eraill sydd y tu allan i gylch gwaith ein grant.

	Cylch gwaith £m	Cyllideb ar gyfer gwasanaethau ychwanegol sy'n daladwy £m	Alldro £m			Amrywiaeth yn erbyn cylch gwaith/ cyllideb £m
			Cyfanswm grant Llywodraeth Cymru*	Gwasanaethau ychwanegol sy'n daladwy	Cyfanswm	
Gwariant refeniw gweithredol sydd wedi'i ariannu gan grant	198.1	-	198.1		198.1	-
Gwasanaethau ychwanegol sy'n daladwy*		0.8		2.9	2.9	2.1
Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu gan grant	598.0	-	598.0	-	598.0	-
Cyfanswm	**796.1**	**0.8**	**796.1**	**2.9**	**799.0**	**2.1**

* Gweler y dudalen nesaf am ddadansoddiad

Mae cyfanswm alldro grant Llywodraeth Cymru'n cynnwys yr elfennau canlynol:

	Alldro £m			
	Grant craidd Llywodraeth Cymru	Cyllid grant Gwasanaethau Rheilffordd TrC	Cyllid cyfalaf gwasanaethau canolog	Cyfanswm grant Llywodraeth Cymru
Gwariant refeniw gweithredol sydd wedi'i ariannu gan grant	28.4	172.8	(3.1)	198.1
Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu gan grant	581.0	13.9	3.1	598.0
Cyfanswm	**609.4**	**186.7**	**-**	**796.1**

Mae TrC yn derbyn cyllid grant adnoddau yng nghyswllt ei gyllid craidd ac mae hefyd yn derbyn taliadau grant refeniw gwasanaethau rheilffyrdd a chyllid grant cyfalaf yng nghyswllt taliadau grant cyfalaf gwasanaethau rheilffyrdd o dan y cytundeb grant rhwng Gweinidogion Cymru a Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru. Mae cyllid grant y gwasanaethau rheilffyrdd wedi'u netio yng Ngwariant y datganiad incwm, fel y nodir yn Nodyn 2 y datganiad ariannol.

Risgiau ac ansicrwydd

Mae'r prif risgiau sy'n effeithio ar TrC wedi'u nodi isod:

- Mae'r Coronafeirws wedi cael effaith sylweddol ar y nifer a deithiodd ar drenau yn ystod gwanwyn 2020. Bydd ton arall o'r feirws yn effeithio ar y busnes wrth i weithwyr a chwsmeriaid fynd yn sâl, gan arwain at ostyniad yn y gwasanaethau fydd ar gael, faint sy'n defnyddio'r gwasanaethau ac effeithiau ariannol o ganlyniad i hynny. Fel ymateb i hyn, mae TrC wedi hwyluso cytundeb ariannu dros dro gyda Keolis Amey Cymru Limited, sef ein Partner Gweithredu a Chyflawni, tan ddiwedd mis Ebrill 2020, ac erbyn hyn maent wedi cytuno ar Gytundeb Mesurau Brys sy'n weithredol tan fis Hydref 2020. Mae gwaith yn dal i gael ei wneud i ddeall yr effaith tymor hir ar arian.
- Mae gan TrC gytundeb 15 mlynedd gyda'r ODP i gyflawni gwasanaethau trên ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau a Phartner Cyflenwi Seilwaith i drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. Gallai digwyddiadau fel argyfwng y Coronafeirws, yr angen am arian ychwanegol yn y tymor hir, oedi i raglenni mawr fel cyflenwi cerbydau neu newidiadau macro-economaidd fel Prydain yn gadael yr UE achosi methiant busnes ar gyfer ein prif bartner cyflenwi.
- Mae TrC yn defnyddio arian o'r Gyllideb Datblygu Rhanbarthol Ewrop i helpu i uwchraddio seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd. Efallai y bydd methu darparu'r buddion busnes fel y bwriedir, peidio â chwrdd â cherrig milltir adeiladu, neu beidio â llenwi'r gwaith papur angenrheidiol yn gywir yn arwain at golli cyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.
- Mae TrC yn parhau i ddatblygu ei System Rheoli Diogelwch ac mae'n ymwybodol iawn o'r risg o niwed i bobl ar y rheilffordd neu o'i gwmpas. Os bydd damwain, efallai y bydd caniatâd TrC i weithredu rhwydwaith rheilffyrdd yn cael ei ddiddymu a'i ddisodli gan sefydliad arall.

Mae'r Bwrdd wedi trafod y risgiau a'r ansicrwydd a nodir uchod ac maent yn hyderus bod ganddynt y mesurau rheoli a lliniaru priodol i wneud yn siŵr bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli'n briodol. Mae rhagor o fanylion am weithdrefnau rheoli risg TrC wedi'u nodi yn ein Hadroddiad Blynyddol.

Trwy orchymyn y Bwrdd



J R Price
Cyfarwyddwr/Prif Weithredwr 29 Mehefin 2020

Adroddiad y cyfarwyddwyr

Mae ein cyfarwyddwyr yn cyflwyno'u hadroddiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.

Cyfarwyddwyr

Y cyfarwyddwyr a oedd dal yn eu swydd yn ystod y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn oedd:

Enw	Rôl	Dyddiad penodi/ymddiswyddo
J S Waddington	Cadeirydd / Cyfarwyddwr Anweithredol	
S Howells	Cyfarwyddwr Anweithredol	
N J Kemmery	Cyfarwyddwr Anweithredol	
A J Noon-Jones	Cyfarwyddwr Anweithredol	
D A Bowen	Cyfarwyddwr Anweithredol	Penodwyd 1 Ebrill 2019
V J Everitt	Cyfarwyddwr Anweithredol	Penodwyd 30 Medi 2019
J R Price	Cyfarwyddwr Gweithredol	
H J Clash	Cyfarwyddwr Gweithredol	

Offerynnau ariannol

Hylifedd a risg llif arian

Mae TrC yn monitro ei gyfalaf gweithio'n rheolaidd i wneud yn siŵr bod digon o arian wedi cael ei dynnu i lawr o Lywodraeth Cymru ar gyfer ei rwymedigaethau pan fyddant yn ddyledus.

Risg credyd

Nid yw TrC yn wynebu llawer o risg o ran credyd gan fod y rhan fwyaf o'i weithgarwch yn cael ei ariannu gan grantiau Llywodraeth Cymru, a dderbynnir ymlaen llaw, a gweddill ei weithgarwch yn ymwneud â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Caiff ein risg credyd ei fonitro'n rheolaidd.

Difidend arfaethedig

Nid yw'r cyfarwyddwyr yn argymell talu difidend. Bydd ein gwarged wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i ariannu ein gweithgareddau yn y dyfodol.

Cyfraniadau gwleidyddol

Fel is-gwmni dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru, nid oes gennym yr hawl i gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau gwleidyddol, ac oherwydd hynny nid ydym wedi rhoi unrhyw roddion gwleidyddol na derbyn unrhyw wariant gwleidyddol yn ystod y flwyddyn.

Y drefn ar gyfer chwythu'r chwiban

Mae TrC wedi ymrwymo i wneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd safonau uchel, ac yn cadw'r safonau hynny, o ran ymddygiad yn y gwaith, gwasanaeth i'r cyhoedd, a'i holl arferion gwaith. Disgwylir i'n gweithwyr ymddwyn yn gywir, yn ddiduedd ac yn onest ac rydym yn ceisio datblygu diwylliant lle rydym yn herio ymddygiad annerbyniol ar bob lefel. Er mwyn sicrhau hyn, rydym annog pawb i roi gwybod am bryderon gwirioneddol am gamymarfer, gweithredoedd anghyfreithlon, neu achosion o fethu cydymffurfio â safonau gwaith cydnabyddedig, heb ofni y bydd neb yn gwneud cam â hwy nac yn eu cosbi am wneud hynny.

Darparu gwybodaeth i'r archwilydd

Mae'r cyfarwyddwyr a oedd yn y swydd ar ddyddiad cymeradwyo adroddiad y cyfarwyddwyr yn cadarnhau, hyd y gŵyr pob un ohonynt, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd TrC yn gwybod amdani; ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'i gymryd fel cyfarwyddwr i gael gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilydd y cwmni'n ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Archwilydd

Yn unol ag Adran 487 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ystyrir y bydd yr archwilydd yn cael ei ail-benodi, ac felly bydd KPMG LLP yn parhau yn y swydd.

Trwy orchymyn y Bwrdd



J R Price
Cyfarwyddwr/Prif Weithredwr

Tŷ South Gate, Wood Street Caerdydd, CF10 1EW
29 Mehefin 2020

Datganiad o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr o ran adroddiad y cyfarwyddwyr a'r datganiadau ariannol

Mae ein cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Strategol, Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â deddfau a rheoliadau perthnasol.

Yn ôl y gyfraith cwmnïau, mae'n rhaid i'n cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, maent wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd a'r gyfraith berthnasol.

O dan y gyfraith cwmnïau, ni chaiff ein cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon bod y datganiadau'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni, ac o elw neu golled y cwmni ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n rhaid i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas, a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol, yn berthnasol ac yn ddibynadwy
- nodi a ydyn nhw wedi cael eu paratoi yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd
- asesu gallu'r cwmni i barhau fel busnes gweithredol, a datgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes gweithredol
- defnyddio sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai eu bod naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes ganddyn nhw unrhyw ddewis realistig arall heblaw am hynny.

Mae ein cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigon i ddangos ac egluro trafodiadau TrC a datgelu sefyllfa ariannol y cwmni yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent yn gyfrifol am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol hefyd i gymryd camau o'r fath sydd, o fewn rheswm, ar gael iddynt er mwyn diogelu asedau'r cwmni a rhwystro ac adnabod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Ein cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r wybodaeth ariannol a'r wybodaeth gorfforaethol sydd ar ein gwefan, ac am gywirdeb y wybodaeth honno.

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau Trafnidiaeth Cymru

Barn

Rydyn ni wedi archwilio datganiadau ariannol Trafnidiaeth Cymru ("y cwmni") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, sy'n cynnwys y Datganiad Incwm, Datganiad am y Sefyllfa Ariannol, Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu yn nodyn 1.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o faterion y cwmni ar 31 Mawrth 2020, ac o'i warged am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Y sail ar gyfer ein barn

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) ("ISAs (y DU)") a'r gyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau yn cael eu disgrifio isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan ofynion moesegol y DU – gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol – ac rydym yn annibynnol ar y cwmni yn unol â hynny. Rydym o'r farn bod y dystiolaeth archwilio rydym ni wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i'n barn.

Busnes gweithredol

Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol gan nad ydyn nhw'n bwriadu diddymu'r cwmni na dirwyn ei weithrediadau i ben, a gan eu bod wedi dod i'r casgliad bod hyn yn realistig wrth ystyried sefyllfa ariannol y cwmni. Maent hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd o bwys a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r cwmni i barhau fel busnes gweithredol am flwyddyn o leiaf, o'r dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo ("cyfnod busnes gweithredol").

Mae'n rhaid i ni roi gwybod i chi os ydym wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu yn amhriodol, neu os oes ansicrwydd o bwys heb ei ddatgelu a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros ddefnyddio'r sail honno am gyfnod o flwyddyn o leiaf, o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Wrth werthuso casgliadau'r cyfarwyddwyr, rydyn ni wedi ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â model busnes y cwmni, ac wedi dadansoddi sut gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y cwmni neu ar ei allu i barhau i weithredu yn ystod y cyfnod busnes gweithredol. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Fodd bynnag, gan na allwn ni ragweld yr holl ddigwyddiadau neu amodau a fydd yn codi yn y dyfodol, a gan y byddai digwyddiadau yn y dyfodol yn gallu arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â barn a oedd yn rhesymol ar y pryd, nid yw'r ffaith nad yw'r adroddiad hwn gan yr archwilydd yn cyfeirio at ansicrwydd o bwys yn gwarantu y bydd y cwmni yn parhau i weithredu.

Gwybodaeth arall

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall, sy'n cynnwys yr adroddiad strategol, adroddiad y cyfarwyddwyr a'r holl wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol, gan gynnwys datganiad adran 172, yr adroddiad taliadau a'r datganiad llywodraethu corfforaethol. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio neu, ac eithrio fel y nodir yn benodol isod, unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

Ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth, ar sail gwaith archwilio ein datganiadau ariannol, wedi'i gamddatgan yn sylweddol neu'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth am yr archwiliad. Yn seiliedig ar y gwaith hwnnw'n unig:

- nid ydym wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn y wybodaeth arall;
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddir yn yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol; ac
- yn ein barn ni, paratowyd yr adroddiadau hynny yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

Materion y mae'n rhaid i ni adrodd arnyn nhw drwy eithriad

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'n rhaid i ni roi gwybod i chi os ydym yn credu bod y canlynol yn wir:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw, neu nid oes ffurflenni perthnasol i'n harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw rhai o daliadau'r cyfarwyddwyr, a nodir yn y gyfraith, wedi cael eu datgelu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr

Fel mae datganiad y cyfarwyddwyr ar dudalen 100 yn egluro'n fanylach, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y canlynol: paratoi'r datganiadau ariannol, a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg; y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad; asesu gallu'r cwmni i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes gweithredol; a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu, oni bai eu bod naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes ganddyn nhw unrhyw ddewis realistig arall heblaw am hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, a rhoi ein barn ni ar ffurf adroddiad yr archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi yn sgil twyll neu gamgymeriad, ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os byddai'n rhesymol disgwyl iddynt – yn unigol neu gyda'i gilydd – ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol.

Mae disgrifiad mwy cyflawn o'n cyfrifoldebau ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

Pwrpas ein gwaith archwilio, ac i bwy mae gennym gyfrifoldebau

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud ar gyfer aelodau'r cwmni yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan wrth aelodau'r cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd, ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i neb, ac eithrio i'r cwmni ac aelodau'r cwmni fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.



Rees Batley
Uwch-archwilydd Statudol
ar ran ac yn enw KPMG LLP, Archwilydd Statudol

Cyfrifwyr Siartredig
KPMG LLP
3 Sgwâr y Cynulliad
Cei Britannia
Caerdydd
CF10 4AX

30 Mehefin 2020

Datganiad incwm
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

	Nodyn	2020 £000	2019 £000
Refeniw	2	**33,474**	19,629
Costau gweinyddol		**(33,455)**	(19,597)
Gwarged Gweithredu	6	**19**	32
Treuliau ariannol		**(7)**	-
Costau cyllido net		**(7)**	-
Gwarged cyn treth	7	**12**	
Trethiant		**16**	(5)
Gwarged – cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		**28**	27

Mae'r holl weithrediadau'n parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 108 i 131 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol hyn.

Datganiad am y sefyllfa ariannol
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

	Nodyn	2020 £000	2019 £000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	8	**608,428**	31,593
Asedau anniriaethol	9	**2,173**	-
Buddsoddiadau	10	**-**	-
		610,601	31,593
Asedau cyfredol			
Rhestrau o'r hyn sydd ar gael	11	**74**	-
Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill	12	**35,930**	1,966
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod	13	**16,672**	14,147
		52,676	16,113
Cyfanswm yr asedau		**663,277**	47,706
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill	14	**51,676**	13,128
Treth sy'n daladwy	7	**-**	6
Rhwymedigaethau prydles	18	**125**	-
Grantiau cyfalaf llywodraeth	15	**-**	226
		51,801	13,360
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Rhwymedigaethau prydles	18	**-**	-
Grantiau cyfalaf llywodraeth wedi'u gohirio	15	**610,453**	33,693
Buddion gweithwyr	16	**342**	-
		610,795	33,693
Cyfanswm y rhwymedigaethau		**662,596**	47,053
Asedau net		**681**	653
Ecwiti			
Gwarged wrth gefn		**681**	653
Cyfanswm ecwiti		**681**	653

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 29 Mehefin 2020 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

J R Price, **Cyfarwyddwr**

Rhif cofrestru'r cwmni: 9476013

Datganiad am newidiadau mewn ecwiti
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

	Gwarged wrth gefn £000	Cyfanswm ecwiti £000
Balans ar 1 Ebrill 2018	626	626
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod		
Gwarged	27	27
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod	27	27
Balans ar 31 Mawrth 2019	**653**	**653**
Addasiad o gymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 am y tro cyntaf (nodyn 22)	-	-
Balans ar 1 Ebrill 2019	**653**	**653**
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod		
Gwarged	28	28
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod	28	28
Balans ar 31 Mawrth 2020	**681**	**681**

Datganiad llif arian
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

	Nodyn	2020 £000	2019 £000
Llif arian o weithgareddau gweithredol			
Gwarged am y flwyddyn		**28**	27
Addasiadau ar gyfer:			
Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariadau	8,9	**358**	522
Rhyddhau grantiau'r llywodraeth sydd wedi'u gohirio	15	**(215)**	(522)
Treuliau ariannol		**7**	-
Trethiant	7	**(16)**	5
		162	32
(Cynnydd) / lleihad yn y rhestrau	11	**(74)**	-
(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill	12	**(2,056)**	1,053
Cynnydd mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill	13	**4,896**	2,284
Treth a dalwyd	7	**-**	(120)
Arian parod net o weithgareddau gweithredol		**2,928**	3,249
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, offer a chyfarpar*	8	**(73,111)**	(19,269)
Caffael asedau anniriaethol	9	**(2,173)**	-
Gwariant cyfalaf ar asedau trydydd parti	15	**(1,991)**	(4,082)
Enillion ar ôl derbyn grantiau cyfalaf y llywodraeth*	15,12	**77,042**	32,420
Arian net o weithgareddau buddsoddi		**(233)**	9,069
Llif arian o weithgareddau ariannu			
Elfen gyfalaf taliadau rhent prydles gyllidol		**(163)**	-
Elfen llog ar daliadau rhwymedigaethau prydles		**(7)**	-
Arian net o weithgareddau ariannu		**(170)**	-
Cynnydd net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod		**2,525**	12,318
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar 1 Ebrill		**14,147**	1,829
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth		**16,672**	14,147

* Cafodd y gwaith o gaffael Llinellau Craidd y Cymoedd gan Network Rail ei ariannu gan fecanwaith dim arian – gweler nodyn 8 a 15. Felly, mae hyn wedi'i eithrio o gaffaeliadau ac elw grant.

Nodiadau
yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

1. Polisïau cyfrifyddu

Mae Trafnidiaeth Cymru ("TrC" neu'r "Cwmni") yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi'i gorffori a'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr yn y DU ac sydd â'i ddomisil yno. Y rhif cofrestru yw 09476013 a'r cyfeiriad cofrestredig yw South Gate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW. Mae'r Cwmni yn is-gwmni sy'n dod o dan reolaeth lwyr Gweinidogion Cymru (corff a ddiffinnir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006) ac oherwydd hyn ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Y sail ar gyfer paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi a'u cymeradwyo gan y cyfarwyddwyr yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ("IFRS"), fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar sail costau hanesyddol.

Oni nodir yn wahanol, mae'r polisïau cyfrifyddu isod wedi cael eu cymhwyso'n gyson i bob cyfnod a gyflwynir yn y datganiadau ariannol hyn.

Newid mewn polisïau cyfrifyddu

Rydyn ni wedi mabwysiadu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ("IFRS") canlynol yn y datganiadau ariannol hyn, ac nid oes yr un ohonynt wedi cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol oni nodir yn wahanol:

- IFRS16: Prydlesi. Gweler nodyn 22 am yr effaith. Mae hyn wedi cael ei fabwysiadu gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol wedi'i addasu ac o ganlyniad nid yw'r ffigurau cymharol wedi cael eu hailddatgan ac maen nhw'n cael eu hadrodd o dan IAS 17.
- IFRIC23: Ansicrwydd ynghylch Triniaethau Treth Incwm.
- Diwygiadau i IAS 19: Diwygio Cynllun, Cwtogi neu Setliad.
- Diwygiadau i IFRS 9: Nodweddion Rhagdaliadau gydag Iawndal Negyddol.
- Gwelliannau Blynyddol i Gylch Safonau IFRS 2015-2017.

Busnes gweithredol

Adeg cymeradwyo'r datganiadau ariannol, mae gan ein cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan y Cwmni gyllid digonol wrth Lywodraeth Cymru i gyflawni ei gylch gwaith gweithredol ac i barhau'n fusnes gweithredol am y cyfnod a nodir yng Nghyflwyniad IAS 1 o'r Datganiadau Ariannol h.y. o leiaf 12 mis o ddyddiad y datganiadau ariannol hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi llythyr o gefnogaeth i TrC yn nodi ei fwriad i barhau i ddarparu cyllid am o leiaf 12 mis o ddyddiad llofnodi'r cyfrifon hyn.

Felly, mae'r cyfarwyddwyr yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Amcangyfrifon a rhagdybiaethau

Mae TrC yn gwneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau ar sail profiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Caiff yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau hyn eu hadolygu'n rheolaidd a chaiff addasiadau eu cydnabod yn y cyfnod lle caiff yr amcangyfrif ei addasu.

Ein prif amcangyfrifon sy'n effeithio ar y flwyddyn ariannol gyfredol yw

- y bywydau defnyddiol sy'n berthnasol i eiddo, offer a chyfarpar fel y nodir yn y polisi cyfrifyddu perthnasol
- i ba raddau y gellir adennill asedau contract (mae'r rhain wedi cael eu seilio ar waith sydd wedi'i wneud ond heb ei anfonebu i Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r gorswm (margin) y cytunir arno yng nghyswllt prisiau trosglwyddo) a chostau cyflawni contractau sydd wedi cael eu cydnabod fel ased (sy'n cael eu cydnabod dim ond pan maen nhw'n cael eu hystyried yn uniongyrchol gyfrifadwy ac adenilladwy).

Penderfyniadau cyfrifyddu pwysig wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r Cwmni

Yn ogystal â'r uchod, mae TrC yn gwneud penderfyniadau penodol wrth gymhwyso ei bolisïau cyfrifyddu.

Cyllid gan Lywodraeth Cymru

Mae TrC yn cael grantiau cyfalaf ac adnoddau gan Lywodraeth Cymru. Cynhaliwyd asesiad i weld a ddylid trin y grantiau hyn fel grant gan y llywodraeth, cyfraniad cyfalaf ynteu fenthyciad gan barti cysylltiedig. Daethpwyd i'r casgliad fod y Cwmni, drwy'r llythyr cylch gwaith a gofynion adrodd Llywodraeth Cymru, yn gorfod cyflawni gweithgareddau penodol i gael yr arian, ac felly mae'r arian wedi cael ei drin fel grant gan y llywodraeth.

Wrth ystyried y grant a dderbynnir sy'n cael ei dalu'n uniongyrchol i Keolis Amey Wales Cymru Limited (sy'n masnachu fel Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru) yn unol â chytundeb grant Gweinidogion Cymru a Keolis Amey Wales Cymru Limited, mae'r cyfarwyddwyr wedi penderfynu bod TrC yn gweithredu fel asiant yn unig. Oherwydd hyn, mae'r taliadau grant i Keolis Amey Wales Cymru Limited yn cael eu netio yn erbyn yr incwm grant cyfatebol yn y datganiad incwm.

Cyfalafu asedau

Mae gwaith yn cael ei wneud ar asedau penodol nad yw TrC yn berchen arnyn nhw ar hyn o bryd. Mae gwaith dylunio tuag at asedau y disgwylir i TrC fod yn berchen arnyn nhw (er enghraifft o ganlyniad i drosglwyddiadau tir a ragwelir gan Lywodraeth Cymru) yn cael eu cyfalafu i'r graddau rydyn ni'n disgwyl iddyn nhw wella asedau sy'n eiddo i TrC.

Nid yw gwaith ar asedau eraill nad oes disgwyl i TrC fod yn berchen arnyn nhw yn cael ei gyfalafu. Oherwydd natur y gwaith hwn (dylunio ac adeiladu), cânt eu hariannu drwy grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Caiff y gwaith hwn ei wario gyda'r incwm cyfatebol o grant cyfalaf yn cael ei gydnabod yn y datganiad incwm.

Refeniw

Mae gan TrC bum ffrwd incwm:

- Grantiau'r llywodraeth
- Prosiectau ymgynghori eraill gyda Llywodraeth Cymru
- Contractau ymgynghori trydydd parti
- Incwm arlwyo ar drenau
- Incwm rhent

Grantiau'r llywodraeth

Mae TrC yn cael grantiau adnoddau a chyfalaf gan Lywodraeth Cymru a rhoddir cyfrif amdanyn nhw dan IAS 20 Grantiau'r Llywodraeth.

- *Grant Adnoddau*
  Mae TrC yn cael grant adnoddau gan Lywodraeth Cymru i ad-dalu'r costau gweithredu y mae TrC wedi'u hysgwyddo neu y bydd yn eu hysgwyddo. O ran ad-dalu costau gweithredu, bydd y grant yn cael ei gydnabod fel incwm yn y cyfnod pan ysgwyddir y costau perthnasol, tra bydd y balans sy'n weddill yn cael ei ddangos fel incwm gohiriedig ar y datganiad am y sefyllfa ariannol. Mae incwm sy'n gysylltiedig â chostau gweithredu'r Cwmni yn ymddangos ar linell ar wahân ar y datganiad incwm.

Wrth ystyried y grant a dderbynnir sy'n cael ei dalu'n uniongyrchol i Keolis Amey Wales Cymru Limited (sy'n masnachu fel Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru) yn unol â chytundeb grant Gweinidogion Cymru a Keolis Amey Wales Cymru Limited, mae TrC yn gweithredu fel asiant yn unig. Oherwydd hyn, mae'r taliadau grant i Keolis Amey Wales Cymru Limited yn cael eu netio yn erbyn yr incwm grant cyfatebol yn y datganiad incwm.

- *Grantiau Cyfalaf*
  Mae TrC yn cael grantiau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf sy'n rhan o'i gylch gwaith. Mae TrC wedi dewis cyflwyno'r grant fel incwm gohiriedig yn hytrach na thynnu'r grant o swm cario'r ased. Caiff yr incwm ei gydnabod yn y datganiad incwm i gyd-fynd â'r costau perthnasol. Ar gyfer grant cyfalaf, mae hyn yn golygu cydnabod yr incwm dros oes ddefnyddiol yr ased fel bod y grant yn cyfateb i'r tâl dibrisio (h.y. y gost berthnasol).

Ar gyfer grantiau cyfalaf a dderbynnir a delir yn uniongyrchol i Keolis Amey, yn unol â'r cytundeb grant rhwng Llywodraeth Cymru a Keolis Amey, caiff y taliadau grant i Keolis Amey Wales Cymru Limited eu netio yn erbyn yr incwm grant cyfatebol yn y datganiad incwm.

- *Grantiau eraill gan y llywodraeth*
  Yn ogystal â'r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru, bydd TrC yn cael grantiau gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a'r Adran Drafnidiaeth ar gyfer prosiect trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. Bydd y grantiau hyn yn cael eu trin yr un fath â grantiau Llywodraeth Cymru.

Prosiectau ymgynghori eraill gyda Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu Prosiectau Rheoli Newid ar gyfer gwaith/gwasanaethau y tu allan i gylch gwaith presennol TrC. Caiff y cynigion eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, a byddTrC yn ymateb iddyn nhw gyda chynnig ffurfiol ar gyfer costau a chyflawni. Ar ôl i'r ddau barti gytuno ar y cynnig a'i dderbyn yn ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, mae ein cleient yn Llywodraeth Cymru yn codi archeb brynu ac mae'r gwaith/gwasanaethau'n dechrau.

Tybir bod contract ar gyfer Prosiect Rheoli Newid yn ei le pan fydd TrC a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gynnig. Pris y trafodiad y gall TrC ddisgwyl ei gael yw'r costau fydd yn dod i'w ran wrth gyflawni'r gwaith/gwasanaethau, a'r gorswm (margin) a bennir yng nghyswllt prisiau trosglwyddo.

Caiff pris y trafodiad ei amcangyfrif ar ddechrau'r contract, a bydd yn seiliedig ar gwmpas y gwaith a chynllun y prosiect. Bydd swm y refeniw a gydnabyddir wedi'i gyfyngu i'r swm nad oes disgwyl y bydd yn cael ei wrth-droi yn y dyfodol, h.y. bydd wedi'i gyfyngu i ragolygon diwygiedig a chyfyngiadau wedi'u cymeradwyo gyda'r cwsmer. Ein polisi yw cydnabod refeniw Prosiectau Rheoli Newid dros amser wrth i ni fodloni'r meini prawf a amlinellir:

- Mae'r contractau ar gyfer darparu gwasanaethau ymgynghori (a ddarperir yn uniongyrchol gan TrC neu drwy drydydd partïon drwy gontract gennym) a bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn ac yn defnyddio'r buddion a ddarperir ar yr un pryd pan fyddan nhw'n cael eu cyflawni.
- Mae'r Prosiectau Rheoli Newid ar gyfer gwaith sydd y tu allan i gylch gwaith TrC (er enghraifft, y rhwydwaith ffyrdd yng Nghymru) ac felly mae'r gwaith a wneir yn creu neu'n gwella ased a reolir gan Lywodraeth Cymru.
- Nid oes defnydd amgen ar gyfer y gwaith.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn talu cydnabyddiaeth ar gyfer unrhyw waith a gwblhawyd hyd yma

Bydd swm y refeniw a gydnabyddir dros amser yn cael ei fesur gan y cynnydd a wneir tuag at lwyr fodloni'r rhwymedigaeth perfformio (cwmpas y gwaith a nodir yn y prosiect). Mae TrC wedi dewis seilio mesur y refeniw ar ddull mewnbwn. Mae'r dull hwn yn cydnabod refeniw (y gost a'r gorswm yng nghyswllt prisiau trosglwyddo) ar sail y costau mae TrC wedi'u hysgwyddo, gan fod hyn yn cynrychioli perthynas uniongyrchol rhwng yr hyn a fewnbynnwyd gan TrC a throsglwyddo'r gwaith o reoli gwasanaethau i Lywodraeth Cymru.

Contractau trydydd parti

Mae gan TrC nifer o gontractau gyda thrydydd partïon ar gyfer darparu cymorth ymgynghori.

Wrth ymrwymo i'r contract, gwneir asesiad i weld a fydd rhwymedigaeth(au) perfformiad y contract yn cael eu bodloni dros amser neu pan fydd yr allbwn perthnasol yn cael ei drosglwyddo i'r cwsmer, yn dibynnu a yw'r cwsmer yn derbyn ac yn manteisio ar y buddion a ddarperir ar yr un pryd. Ar gyfer contractau lle cydnabyddir rhwymedigaethau perfformiad ar unrhyw adeg, caiff refeniw ei gydnabod ar ddyddiad cwblhau'r gwasanaethau, h.y. pan fydd gennym yr hawl i dalu a byddwn yn anfonebu'r cwsmer. Ar gyfer contractau lle cydnabyddir refeniw dros amser, mesurir refeniw ar ddull mewnbynnu, gan ddefnyddio'r gost ynghyd â'r gorswm y cytunwyd arno yn y contract.

Incwm arlwyo ar drenau

Ar drenau, mae incwm arlwyo yn cynnwys arian parod a gwerthiant cardiau i gwsmeriaid sy'n teithio ar drenau Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC ac incwm gan Wasanaethau Rheilffyrdd TrC ynghylch gwasanaeth arlwyo dosbarth cyntaf "Gerallt Gymro" sef cyfradd safonol am bob tocyn sy'n cael ei werthu.

Incwm rhent

Mae TrC yn cael incwm rhent gan Keolis Amey Wales Cymru Limited ynghylch prydles asedau Llinellau Craidd y Cymoedd, a ddechreuodd ar 28 Mawrth 2020.

Costau contract

Caiff y costau a ysgwyddwyd wrth gyflawni contractau trydydd parti eu nodi fel ased, ar yr amod bod y costau'n ymwneud yn uniongyrchol â chontract neu gontract disgwyliedig, fod y costau'n creu neu'n gwella adnoddau a ddefnyddir i fodloni rhwymedigaethau perfformiad yn y dyfodol; a bod disgwyl i'r costau gael eu hadennill.

Cofnodir costau cyffredinol a gweinyddol, costau llafur neu ddeunyddiau a aeth yn wastraff, neu gostau sy'n ymwneud â rhwymedigaethau perfformiad sydd wedi'u bodloni yn y contract, fel costau pan maent yn digwydd. Caiff ased contract ei amorteiddio ar sail systemig sy'n cyd-fynd â throsglwyddo'r nwyddau neu'r gwasanaethau y mae'r ased yn berthnasol iddynt i'r cwsmer.

Nid yw TrC yn cydnabod costau cynyddrannol wrth gael contract gan fod cyfnod amorteiddio'r ased y byddai fel arall wedi'i gydnabod yn flwyddyn neu lai.

Offerynnau ariannol

Cydnabyddiaeth a mesuriadau

Mae offerynnau ariannol yn drefniadau contractiol sy'n arwain at ased ariannol un endid ac offeryn atebolrwydd ariannol neu ecwiti endid arall.

Mae asedau ariannol yn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill sy'n cael eu cydnabod i ddechrau pan gânt eu cychwyn a'u mesur yn ôl swm gwreiddiol yr anfoneb ac wedyn eu mesur ar sail cost amorteiddio llai unrhyw golledion amhariad.

Mae rhwymedigaethau ariannol yn gyfwerth â symiau masnach a symiau taladwy eraill, sy'n cael eu cydnabod pan fydd TrC yn dod yn barti i'r darpariaethau cytundebol ar werth teg (y swm a anfonebwyd fel arfer) a'u mesur wedyn ar sail cost amorteiddio.

Asedau ariannol gydag amhariadau o ran credyd

Bydd TrC yn ystyried bod achos o ddiffyg talu'n berthnasol i ased ariannol pan mae'n annhebygol y bydd dyledwr yn talu ei rwymedigaethau credyd yn llawn. Ar bob dyddiad adrodd, bydd y Cwmni'n asesu a oes amhariadau o ran credyd yn gysylltiedig â'r asedau ariannol a gariwyd ar gost wedi'i hamorteiddio. Gellir dweud bod amhariadau o ran credyd yn berthnasol i ased ariannol os oes un neu ragor o ddigwyddiadau sy'n cael effaith niweidiol ar y llif arian a ragwelir ar gyfer y dyfodol wedi digwydd. Bydd swm gros ased ariannol sy'n cael ei gario yn cael ei ddileu (naill ai'n llawn neu'n rhannol) i'r graddau nad yw'n realistig y bydd yn cael ei adennill.

Mae TrC hefyd yn asesu colledion credyd disgwyliedig gyda model blaengar sy'n ystyried gwybodaeth hanesyddol, gyfredol a blaengar. Gan ystyried natur yr hyn y mae'n ei dderbyn, nid yw TrC o'r farn bod y Colledion Credyd Disgwyliedig hyn yn berthnasol, ac felly nid oes darpariaeth ar eu cyfer.

Eiddo, offer a chyfarpar

Bydd eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu cydnabod fel ased dim ond pan mae'n debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i'r Cwmni yn y dyfodol.

Mae'r Cwmni hefyd yn cyfalafu unrhyw gostau y gellir eu priodoli i ddod â'r asedau i'r lleoliad, a'r amodau sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt allu gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys ffioedd proffesiynol, costau paratoi a chlirio'r safle, costau danfon a chostau trafod cychwynnol, costau gosod ac adeiladu a chostau gweithwyr y gellir eu priodoli'n uniongyrchol. Nodir eiddo, offer a chyfarpar gan ddefnyddio'r gost a oedd yn berthnasol gan dynnu colledion yn sgil amhariadau a dibrisiant sydd wedi cronni.

Os bydd oes ddefnyddiol wahanol yn berthnasol i wahanol rannau o eiddo, offer neu gyfarpar, byddant yn cael eu trin fel eitemau ar wahân yn y cyfrifon.

Caiff dibrisiant ei godi ar y Datganiad Incwm ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol amcangyfrifiedig pob rhan o eitem, offer neu gyfarpar. Nid yw tir yn cael ei ddibrisio. Dyma'r oes ddefnyddiol a amcangyfrifir ar gyfer y canlynol:

Gosodiadau a ffitiadau	5 mlynedd
Offer a pheiriannau	5-10 mlynedd
Gwella eiddo	2 flynedd
Offer cyfrifiadurol	3 blynedd
Cerbydau modur	3 blynedd

Mae ased y rhwydwaith rheilffyrdd wedi'i rannu'n gydrannau sy'n cael eu dibrisio gan ddefnyddio'r oes ddefnyddiol canlynol:

Trac	37 - 50 mlynedd
Eiddo gweithredol	32-65 mlynedd
Signalau a phŵer	40 - 52 mlynedd
Gwaith tir	20 - 100 mlynedd
Strwythurau	100 mlynedd

Bydd dulliau o gyfrifo dibrisiant, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yn cael eu hadolygu ar ddyddiad pob datganiad am y sefyllfa ariannol.

Trin Caffael Llinellau Craidd y Cymoedd

Cafodd TrC Asedau Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) gan Network Rail ar 28 Mawrth 2020. Nid yw'r asedau hyn yn bodloni diffiniad busnes yn unol ag IFRS 3 Cyfuniadau Busnes gan nad yw'r caffaeliad yn cynnwys y prosesau sydd ar waith (systemau, prosesau gweithredol a phrotocolau) i ddefnyddio'r asedau. O'r herwydd, maen nhw wedi cael eu cydnabod fel caffael grŵp o asedau a rhwymedigaethau yn unol â'r safon briodol, yn bennaf IAS 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar.

Asedau anariannol ac amhariadau

Caiff symiau cario asedau anariannol TrC eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i benderfynu a oes unrhyw awgrym o amhariadau. Os oes awgrym o hynny, bydd swm adenilladwy'r ased yn cael ei amcangyfrif. Gellir disgrifio swm adenilladwy ased fel ei werth pan mae'n cael ei ddefnyddio neu ei werth teg gan dynnu'r costau i'w werthu, pa un bynnag yw'r mwyaf. Wrth asesu ei werth pan mae'n cael ei ddefnyddio, bydd y llif arian amcangyfrifedig ar gyfer y dyfodol yn cael ei ddisgowntio i'w werth presennol gan ddefnyddio cyfradd ostyngol cyn-treth sy'n adlewyrchu asesiadau'r farchnad o werth amser yr arian a'r risgiau sy'n benodol i ased ar y pryd.

Caiff colled amhariad ei chydnabod os bydd swm cario ased yn fwy na'r swm adenilladwy a amcangyfrifiwyd ar ei gyfer. Bydd colledion amhariadau'n cael eu cydnabod fel elw neu golled.

Bydd colledion amhariadau sydd wedi'u cydnabod mewn cyfnodau blaenorol yn cael eu hasesu ar bob dyddiad adrodd am unrhyw arwydd bod y golled wedi lleihau neu nad yw'n bodoli rhagor. Bydd colled amhariad yn cael ei gwrth-droi os bu newid yn yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i bennu'r swm adenilladwy. Bydd colled amhariad yn cael ei gwrth-droi dim ond i'r graddau nad yw swm cario'r ased yn uwch na'r swm cario a fyddai wedi cael ei bennu, gyda'r gwerth net heb ystyried dibrisiant nac amorteiddiad, os nad oes unrhyw golled amhariad wedi cael ei chydnabod.

Buddion gweithwyr

Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, lle mae'r Cwmni yn talu cyfraniadau penodol i endid ar wahân ac nid oes ganddo rwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu symiau ychwanegol. Caiff rhwymedigaethau i gyfrannu at gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig eu cydnabod fel cost yn y datganiad incwm yn y cyfnodau pan fydd gweithwyr yn darparu gwasanaethau.

Cynlluniau buddion diffiniedig

Mae'r Cwmni wedi sefydlu adran o'r Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd yng nghyswllt staff sy'n trosglwyddo i TrC o Network Rail fel rhan o gaffael asedau Llinellau Craidd y Cymoedd. Cynllun pensiwn buddion diffiniedig yw hwn. Cyfrifir rhwymedigaeth net y Cwmni mewn perthynas â'r cynllun drwy amcangyfrif faint o fudd y mae gweithwyr wedi'i ennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol. Caiff y budd hwnnw ei ddiystyru i bennu ei werth presennol, a chaiff gwerth teg asedau unrhyw gynllun (pris y cais) eu didynnu. Mae'r Cwmni'n pennu'r llog net ar yr atebolrwydd/(ased) buddion diffiniedig net ar gyfer y cyfnod drwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i fesur yr atebolrwydd buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod blynyddol i'r rhwymedigaeth/(asedau) buddion diffiniedig net.

Y gyfradd ddisgownt yw'r arenillion (yield) ar y dyddiad adrodd ar y bondiau sydd â statws credyd sydd o leiaf yn AA ac sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau rhwymedigaethau'r Cwmni ac sydd wedi'u trosi i'r arian cyfred y disgwylir talu'r buddion ynddo.

Mae'r ailfesuriadau sy'n deillio o gynlluniau buddion diffiniedig yn cynnwys enillion a cholledion actiwaraidd, yr enillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio llog) ac effaith y terfyn asedau (os oes rhai, heb gynnwys llog). Mae'r Cwmni'n eu cydnabod ar unwaith mewn incwm cynhwysfawr arall a'r holl dreuliau eraill sy'n gysylltiedig â chynlluniau buddion diffiniedig mewn treuliau budd-daliadau gweithwyr mewn elw neu golled.

Gwneir cyfrifiad rhwymedigaethau y buddion diffiniedig gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd. Pan fydd y cyfrifiad yn arwain at fudd i'r Cwmni, mae'r ased cydnabyddedig wedi'i gyfyngu i werth presennol y buddion sydd ar gael ar ffurf unrhyw ad-daliadau yn y dyfodol o'r cynllun neu ostyngiadau mewn cyfraniadau yn y dyfodol ac mae'n ystyried effaith andwyol unrhyw ofynion cyllido sylfaenol.

Prydlesi (polisi sy'n berthnasol o 1 Ebrill 2019)

Mae'r Cwmni wedi defnyddio IFRS 16 gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol wedi'i addasu ac felly nid yw'r wybodaeth gymharol wedi cael ei hailddatgan ac mae'n dal i gael ei hadrodd o dan IAS 17.

Fel prydlesai

Mae'r Cwmni'n cydnabod ased hawl i ddefnyddio ac atebolrwydd am brydles ar ddyddiad dechrau'r brydles. Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei fesur i ddechrau yn ôl y gost, sy'n cynnwys swm cychwynnol atebolrwydd y brydles a addaswyd ar gyfer unrhyw daliadau prydles a wnaed ar neu cyn y dyddiad cychwyn, ynghyd ag unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol a gafwyd ac amcangyfrif o gostau adfer yr ased sylfaenol (e.e. costau dadfeiliad), llai unrhyw gymhellion les a gafwyd.

Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei ddibrisio wedyn gan ddefnyddio'r dull llinell syth o'r dyddiad dechrau hyd ddiwedd tymor y brydles. Hefyd, caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei leihau o bryd i'w gilydd gan golledion amhariad, os oes rhai, a'i addasu ar gyfer rhai ailfesuriadau o atebolrwydd y brydles.

Mesurir atebolrwydd y brydles i ddechrau ar sail gwerth presennol taliadau'r brydles nad ydyn nhw'n cael eu talu ar y dyddiad cychwyn, eu disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog ymhlyg yn y brydles neu, os na ellir pennu'r gyfradd honno'n rhwydd, cyfradd fenthyca gynyddrannol y Cwmni.

Mae taliadau prydles a gynhwysir wrth fesur atebolrwydd y les yn cynnwys y canlynol:

- taliadau sefydlog, gan gynnwys taliadau sefydlog mewnsylweddau;
- taliadau prydles amrywiol sy'n dibynnu ar fynegai neu gyfradd, a fesurir i ddechrau gan ddefnyddio'r mynegai neu'r gyfradd ar y dyddiad cychwyn; a
- chosbau am derfynu les yn gynnar oni bai fod y Cwmni yn weddol sicr o beidio â therfynu'n gynnar.

Caiff atebolrwydd y brydles ei fesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio drwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Caiff ei ailfesur pan fydd newid mewn taliadau les yn y dyfodol yn deillio o newid mewn mynegai neu gyfradd, mae newid yn amcangyfrif y Cwmni o'r swm y disgwylir iddo fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol neu os oes taliad les sefydlog mewnsylweddau diwygiedig.

Pan ailfesurir atebolrwydd y brydles fel hyn, gwneir addasiad cyfatebol i swm cario'r ased hawl i ddefnyddio, i'r graddau y caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei leihau i ddim, gydag unrhyw addasiad pellach sy'n ofynnol o'r ailfesur yn cael ei gofnodi mewn elw neu golled.

Prydlesi tymor byr a phrydlesi asedau gwerth isel

Mae'r Cwmni wedi dewis peidio â chydnabod asedau hawl i ddefnyddio ac atebolrwyddau prydlesu ar gyfer prydlesi asedau gwerth isel a phrydlesi tymor byr. Mae'r Cwmni'n cydnabod taliadau'r brydles sy'n gysylltiedig â'r lesoedd hyn fel cost ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Fel prydleswr

Pan fydd y Cwmni'n gweithredu fel prydleswr, bydd yn penderfynu ai prydles gyllid ynteu prydles weithredol yw pob prydles.

Mae'r Cwmni'n cydnabod taliadau prydles a geir o dan brydlesi gweithredol fel incwm ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles fel rhan o incwm rhent.

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu ond heb gael eu cymhwyso eto

Mae'r IFRSau Mabwysiadu canlynol wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydyn nhw wedi cael eu cymhwyso yn y datganiadau ariannol hyn. Nid oes disgwyl i'w mabwysiadu gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol:

- Diwygiadau i Gyfeiriadau at y Fframwaith Cysyniadol yn Safonau IFRS (dyddiad dod i rym 1 Ionawr 2020).
- Diwygiadau i IAS 1 ac IAS 8: Diffiniad o Ddeunydd (dyddiad dod i rym 1 Ionawr 2020).

2. Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid

Dadgyfuno refeniw

Yn y tabl canlynol, mae'r refeniw yn cael ei rannu yn ôl llinellau gwasanaeth/cynhyrchion mawr ac amser cydnabod y refeniw.

	2020 £000	2019 £000
Llinellau gwasanaeth/cynhyrchion mawr		
Grant refeniw craidd Llywodraeth Cymru	**28,368**	13,620
Rhyddhau grant cyfalaf Llywodraeth Cymru yn unol â dibrisiant ac amhariad	**215**	522
Datganiad grant cyfalaf Llywodraeth Cymru o ran y gwariant ar asedau trydydd parti	**1,991**	4,082
Prosiectau ymgynghoriaeth eraill Llywodraeth Cymru	**2,176**	1,295
Ymgynghori trydydd parti a phrosiectau eraill a ariennir gan drydydd parti	**502**	110
Incwm arlwyo ar drenau	**199**	-
Incwm rhent	**23**	-
Cyfanswm	**33,474**	19,629
Amser trosglwyddo nwyddau neu wasanaethau		
Incwm grant wedi'i gyfrifo o dan IAS 20	**30,574**	18,225
Cynhyrchion a gwasanaethau a drosglwyddwyd ar bwynt penodol	**655**	110
Cynhyrchion a gwasanaethau a drosglwyddwyd dros amser	**2,222**	1,294
Incwm rhent y cyfrifwyd amdano dan IFRS 16	**23**	-
Cyfanswm	**33,474**	19,629

Mae TrC hefyd yn cael arian grant adnoddau yng nghyswllt taliadau grant refeniw ar gyfer gwasanaethau trên, ac arian grant cyfalaf yng nghyswllt taliadau grant cyfalaf ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd. Caiff yr arian ei drosglwyddo'n uniongyrchol i ddarparwr ein gwasanaethau rheilffyrdd, Keolis Amey Wales Cymru Limited (yn masnachu fel Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru), yn unol â'r cytundeb grant rhwng Gweinidogion Cymru a Keolis Amey Wales Cymru Limited. Dim ond yn y trefniant hwn y mae TrC yn gweithredu fel asiant. O'r herwydd, mae'r taliadau a'r incwm wedi'u netio o dan Gwariant yn y datganiad incwm.

Manylir isod gyfanswm yr arian grant sydd wedi'i netio yn y gwariant:

	2020 £000	2019 £000
Cyllid grant refeniw Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru	**172,769**	88,290
Cyllid grant cyfalaf Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru	**13,877**	17,276
Cyfanswm	**186,646**	105,566

Balansau contract

Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am agor a chau symiau derbyniadwy, asedau contract a rhwymedigaethau contract o gontractau gyda chwsmeriaid, heb gynnwys incwm grant.

	Nodyn	31 Mawrth 2020 £000	1 Ebrill 2019 £000
Symiau derbyniadwy	12	**2,468**	1,310
Asedau contract (incwm cronedig)	12	**667**	475
Rhwymedigaethau contract (incwm gohiriedig)	14	**(751)**	(225)

Mae'r asedau contract yn ymwneud â hawliau TrC i gael cydnabyddiaeth am waith sydd wedi'i gwblhau ond heb gael ei filio ar y dyddiad adrodd ar wasanaethau ymgynghori a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru a chwsmeriaid trydydd parti (incwm cronedig). Bydd asedau contract yn cael eu trosglwyddo i fod yn symiau derbyniadwy pan fydd yr hawliau'n dod yn ddiamod. Disgwylir y bydd yr holl asedau contract yn cael eu hanfonebu yn ystod 2020/21.

Mae atebolrwydd y contract yn ymwneud â'r gydnabyddiaeth a gafwyd ymlaen llaw gan gwsmeriaid am y gwasanaethau hyn. Bydd y balans ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gydnabod fel refeniw pan fydd y rhwymedigaethau sy'n ymwneud â pherfformiad wedi'u cyflawni, a disgwylir y bydd hyn yn digwydd yn ystod 2020/21.

Asedau wedi'u cydnabod o gostau i gyflawni contractau

Mae TrC yn cydnabod y costau a ysgwyddir wrth gyflawni contractau trydydd parti gyda chwsmeriaid os yw'n debygol y bydd modd adennill y costau hyn. Ar ddyddiad y datganiad am y sefyllfa ariannol, swm yr ased hwn oedd £279,000 (2019: £43,000).

Pris y trafodiad wedi'i ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad sy'n weddill

Mae'r cyfnodau disgwyliedig gwreiddiol, sef blwyddyn neu lai, yn berthnasol i bob un o'r rhwymedigaethau perfformiad nad ydyn nhw wedi'u bodloni ar ddyddiad y datganiad am y Sefyllfa Ariannol.

3. Tâl yr archwilydd

	2020 £000	2019 £000
Archwilio'r datganiadau ariannol hyn	**50**	29
Symiau derbyniadwy gan archwilydd y Cwmni o ran gwasanaethau cydymffurfio â threthiant	**5**	4
Gwasanaethau trethu eraill	**31**	-
	86	33

4. Nifer y gweithwyr a chostau

Nifer cyfartalog yr unigolion a gyflogwyd gan TrC (gan gynnwys cyfarwyddwyr) yn ystod y flwyddyn, wedi'i ddadansoddi yn ôl categori, fel a ganlyn:

	Nifer y gweithwyr	
	2020	2019
Gwasanaethau canolog a chaffael rheilffyrdd, symud a rheoli contractau	**105**	32
Gwasanaethau ymgynghori	**10**	2
Gweithrediadau rheilffyrdd (arlwyo)	**25**	-
	140	34

Roedd y costau ar y gyflogres gyda'i gilydd ar gyfer yr unigolion hyn fel a ganlyn:

	2020 £000	2019 £000
Cyflog a thâl	**6,486**	1,714
Costau nawdd cymdeithasol	**719**	198
Cyfraniadau at gynlluniau cyfraniadau diffiniedig	**500**	129
	7,705	2,041

5. Tâl y cyfarwyddwyr

	2020 £000	2019 £000
Tâl y cyfarwyddwyr drwy'r gyflogres	**151**	100
Cyfraniadau'r cwmni at gynlluniau pensiwn prynu arian	**10**	7
	161	107

Yn ogystal â'r uchod, talodd TrC £271,000 i Lywodraeth Cymru (2019: £256,000) ynghylch gwasanaethau cyfarwyddwyr sydd wedi'u secondio o Lywodraeth Cymru.

Mae budd-daliadau ymddeol yn cronni i un cyfarwyddwr o dan gynllun prynu arian (2019: un).

6. Incwm a chostau cyllid

Incwm cyllid

Derbyniodd Trafnidiaeth Cymru £32,000 (2019:£nil) o log banc eleni, sy'n gwbl ad-daladwy i Lywodraeth Cymru ac yn lleihau'r cylch gwaith a dynnir i lawr – felly mae hyn wedi'i ddangos yn net yn erbyn costau gweinyddol yn y cyfrifon.

Costau cyllid	2020 £000	2019 £000
Elfen llog ar daliadau atebolrwydd prydles	**7**	-
Cyfanswm cost cyllid	**7**	-

7. Trethiant

Cydnabyddiaeth yn y datganiad incwm	2020 £000	2019 £000
Costau treth cyfredol		
Y flwyddyn gyfredol	**2**	6
Addasiadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol	**(18)**	4
Cyfanswm y treuliau treth cyfredol / (credyd)	**(16)**	10
Costau treth wedi'u gohirio		
Pwynt cychwyn a gwrth-droi gwahaniaethau dros dro	**-**	(5)
Cyfanswm costau treth a ohiriwyd	**-**	(5)
Cyfanswm costau treth / (credyd)	**(16)**	5

Y gyfradd dreth gyfredol yn y DU a ddefnyddiwyd ar gyfer y flwyddyn yw 19% (2019: 19%).

Cysoni'r gyfradd dreth effeithiol	2020 £000	2019 £000
Gwarged am y flwyddyn	**28**	27
Cyfanswm costau treth / (credyd)	**(16)**	5
Gwarged heb gynnwys treth	**12**	32
Treth yn defnyddio'r gyfradd bresennol ar gyfer treth gorfforaeth yn y DU	**2**	6
Dileu treth ohiriedig	**-**	(5)
Wedi gor ddarparu mewn blynyddoedd blaenorol	**(18)**	4
Cyfanswm costau treth / (credyd)	**(16)**	5

8. Eiddo, offer a chyfarpar

	Asedau rhwydwaith rheilffyrdd £000	Adeiladau ar brydles a gwella lesddaliadau £000	Peiriannau a chyfarpar £000	Gosodion a gosodiadau £000	Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu £000	Cyfanswm £000
Cost						
Balans ar 1 Ebrill 2018	-	165	-	65	6,044	6,274
Ychwanegiadau	-	146	648	152	25,068	26,014
Colledion amhariadau	-	-	-	-	(464)	(464)
Balans ar 31 Mawrth 2019	**-**	**311**	**648**	**217**	**30,648**	**31,824**
Cydnabod asedau hawl i ddefnyddio wrth gymhwyso IFRS 16	-	310	-	-	-	310
Balans ar 1 Ebrill 2019	**-**	**621**	**648**	**217**	**30,648**	**32,134**
Trosglwyddiadau	5,036	-	-	-	(5,036)	-
Ychwanegiadau	515,822	37	1,369	496	59,212	576,936
Balans ar 31 Mawrth 2020	**520,858**	**658**	**2,017**	**713**	**84,824**	**609,070**
Dibrisiant ac amhariadau						
Balans ar 1 Ebrill 2018	-	146	-	27	-	173
Tâl dibrisiant	-	33	-	25	-	58
Balans ar 31 Mawrth 2019	-	179	-	52	-	231
Cydnabod asedau hawl i ddefnyddio wrth gymhwyso IFRS 16	-	53	-	-	-	53
Balans ar 1 Ebrill 2019	**-**	**232**	**-**	**52**	**-**	**284**
Tâl dibrisiant	-	218	52	88	-	358
Balans ar 31 Mawrth 2020	**-**	**450**	**52**	**140**	**-**	**642**
Gwerth llyfr net						
Ar 1 Ebrill 2018	-	19	-	38	6,044	6,101
Ar 31 Mawrth 2019	-	132	648	165	30,648	31,593
Cydnabod asedau hawl i ddefnyddio wrth gymhwyso IFRS 16	-	257	-	-	-	257
Balans ar 1 Ebrill 2019	-	389	648	165	30,648	31,850
Ar 31 Mawrth 2020	**520,858**	**208**	**1,965**	**573**	**84,824**	**608,428**

Eiddo, offer a chyfarpar sydd wrthi'n cael eu hadeiladu

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu'n cynnwys y rhaglen gwaith cyfalaf sy'n cael ei chyflawni gan TrC i gynorthwyo i ddatblygu Metro De Cymru (Llinellau Craidd y Cymoedd), yn ogystal â gwaith datblygu syn cael ei wneud ar orsaf reilffordd yn Llanwern a Bow Street (Ceredigion), a gwaith dylunio yn nghyfnewidfa bws newydd Caerdydd. Mae perchnogaeth arfaethedig safleoedd Llanwern a Bow Street wedi'i rhannu rhwng TrC a Network Rail. Ar gyfer y prosiectau hyn, nid yw TrC ond yn cyfalafu gwariant ynglŷn â thir y mae'n bwriadu bod yn berchen arno.

Caffael Llinellau Craidd y Cymoedd

Ar 28 Mawrth 2020, cafodd Trafnidiaeth Cymru rai Asedau Rhwydwaith Rheilffyrdd a elwir yn Linellau Craidd y Cymoedd gan Network Rail. Roedd y caffaeliad hwn yn cynnwys rheilffyrdd Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert (gan gynnwys pob gorsaf, trac a seilwaith rheilffyrdd cysylltiedig) ac roedd ar gyfer pris prynu o £469.8m, gyda Threth Trafodiadau Tir a chostau eraill y gellir eu priodoli'n uniongyrchol gan arwain at ychwanegiad cyfalaf llawn o £520.9m. Cafodd y caffaeliad ei ariannu'n llawn drwy grant gan Lywodraeth Cymru, gyda'r pris prynu'n cael ei ariannu drwy fecanwaith dim arian parod (gweler nodyn 15).

Cysoni â'r datganiad llif arian	2020 £000	2019 £000
Ychwanegiadau diriaethol (nodyn 8)	**576,936**	26,014
Grant dim arian parod ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd	**(469,800)**	-
Symudiad mewn credydwyr cyfalaf	**(33,649)**	(6,745)
Cydnabod cynllun pensiwn buddion diffiniedig fel rhan o gaffael Llinellau Craidd y Cymoedd	**(342)**	-
Ased hawl i ddefnyddio cyfalafedig	**(34)**	-
Taliadau i gaffael asedau cyfalaf fesul datganiad llif arian	**73,111**	19,269

9. Asedau anniriaethol

	Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu £000	Cyfanswm £000
Cost		
Balans ar 1 Ebrill 2018	-	-
Balans ar 31 Mawrth 2019	-	-
Balans ar 1 Ebrill 2019	-	-
Ychwanegiadau	2,173	2,173
Balans ar 31 Mawrth 2020	**2,173**	**2,173**
Amorteiddiad ac amhariad		
Balans ar 1 Ebrill 2018	-	-
Balans ar 31 Mawrth 2019	-	-
Balans ar 1 Ebrill 2019	-	-
Amorteiddiad am y flwyddyn	-	-
Balans ar 31 Mawrth 2020	**-**	**-**
Gwerth llyfr net Ar 1 Ebrill 2018	-	-
Ar 31 Mawrth 2019 a 1 Ebrill 2019	-	-
Ar 31 Mawrth 2020	**2,173**	**2,173**

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys prynu data allanol a datblygiad mewnol sy'n ymwneud â modelau data trafnidiaeth Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, yn ogystal â datblygu modelau meddalwedd a data sy'n ymwneud â phrosiectau diwygio bysiau.

10. Buddsoddiadau

Mae'r Cwmni'n gyfranddaliwr 100% Rheolwr Seilwaith Cymru Last Resort Limited, cwmni sydd wedi cofrestru yng Nghymru a Lloegr. Y gwerth buddsoddi yw £1. Mae'r cwmni hwn yn segur ar hyn o bryd ac mae ganddo £1 o asedau a £1 o ecwiti.

11. Rhestrau o'r hyn sydd ar gael

	2020 £000	2019 £000
Nwyddau gorffenedig – stoc adwerthu arlwyo	**74**	-
	74	-

12. Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill

	2020 £000	2019 £000
Symiau masnach derbyniadwy	**787**	328
Symiau derbyniadwy sy'n ddyledus gan y rhiant-gwmni	**1,681**	982
Asedau contract (incwm cronnus)	**667**	475
Incwm cronedig – grant refeniw craidd	**342**	-
Cyllid cronedig – grant cyfalaf craidd	**31,898**	-
Symiau derbyniadwy eraill	**279**	43
Rhagdaliadau	**266**	138
Treth gorfforaeth dderbyniadwy (nodyn 7)	**10**	-
	35,930	1,966

13. Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

	2020 £000	2019 £000
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod fesul datganiad am y sefyllfa ariannol	**16,672**	14,147
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod fesul datganiad am y llifoedd arian	**16,672**	14,147

14. Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill

	2020 £000	2019 £000
Symiau masnach taladwy	**2,403**	1,442
Symiau taladwy eraill drwy fasnach	**431**	68
Treuliau wedi'u cronni	**47,562**	10,114
Incwm gohiriedig – grant refeniw craidd	**-**	1,206
Incwm gohiriedig – trydydd parti	**751**	225
Nawdd cymdeithasol a mathau eraill o drethiant	**529**	73
	51,676	13,128

15. Grantiau cyfalaf llywodraeth

	2020 £000	2019 £000
Balans ar 1 Ebrill	33,919	6,103
Ychwanegiadau - arian parod	108,940	32,420
Ychwanegiadau – cyllid anariannol ar gyfer caffael Llinellau	469,800	-
Rhyddhau yn unol â dibrisiant / amhariad asedau	(215)	(522)
Rhyddhau – gwariant ar asedau trydydd parti	(1,991)	(4,082)
Balans ar 31 Mawrth	**610,453**	**33,919**
Heb ei ddyrannu i asedau – ad-daladwy i Lywodraeth Cymru	**-**	**(2,326)**
Gohiriedig - wedi'i ddyrannu i asedau	**610,453**	**31,593**

Mae balans 2019 o £33,919,000 yn cynnwys £226,000 o atebolrwydd cyfredol a £33,693,000 o atebolrwydd anghyfredol. Nid oes balans wedi'i ddyrannu eto i asedau ar 31 Mawrth 2020; yn hytrach, mae balans o £31,898,000 yn ddyledus gan Lywodraeth Cymru am grant nad yw wedi'i dderbyn eto. Cyflwynir hyn yn nodyn 12.

Mae'r llinell ariannu dim arian parod uchod yn ymwneud â chaffael Llinellau Craidd y Cymoedd o £469,800,000. Cynhaliwyd y trafodiad prynu ar gyfer caffael yr asedau hyn drwy fecanwaith dim arian parod i leihau trafodion ariannol diangen rhwng cyrff Llywodraeth Ganolog. Rhoddodd TrC yr hawliau i gyllid a oedd yn deillio o grant Llywodraeth Cymru i Network Rail fel setliad ar gyfer prynu Llinellau Craidd y Cymoedd. Cafodd asedau Llinellau Craidd y Cymoedd eu gwaredu a chafodd eu caffael ar sail dim enillion / colled ar draws y Llywodraeth Ganolog, felly gwnaed llif arian grant dim arian cyfatebol o'r Adran Drafnidiaeth i Lywodraeth Cymru.

16. Buddion gweithwyr

Mae TrC yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Cyfanswm y costau a oedd yn gysylltiedig â'r cynllun hwn yn y flwyddyn gyfredol oedd £500,000 (2019: £129,000)

Mae gan TrC hefyd gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio o 28 Mawrth 2020, ac wedi sefydlu adran o'r Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd yng nghyswllt staff sy'n trosglwyddo i TrC o Network Rail fel rhan o gaffael asedau Llinellau Craidd y Cymoedd.

	2020 £000	2019 £000
Ased buddion diffiniedig	(1,724)	-
Atebolrwydd buddion diffiniedig	2,294	-
Addasiad ar gyfer cyfran yr aelodau o ddiffyg	**570** **(228)**	-
Asedau/atebolrwydd net ar gyfer rhwymedigaethau buddion diffiniedig (gweler y tabl canlynol)	**342**	-

Symudiad mewn atebolrwydd/asedau buddion diffiniedig net

	Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio		Gwerth teg asedau'r cynllun		Atebolrwydd (ased) buddion diffiniedig net	
	2020 £000	2019 £000	2020 £000	2019 £000	2020 £000	2019 £000
Balans ar 1 Ebrill	-	-	-	-	-	-
Wedi'i gynnwys mewn elw neu golled	-	-	-	-	-	-
Wedi'i gynnwys yn OCI	-	-	-	-	-	-
Arall Rhagdybir cynllun pensiwn wrth gaffael asedau Llinellau Craidd y Cymoedd	**2,294**	-	**(1,724)**	-	**570**	-
Addasiad ar gyfer cyfran yr aelodau o asedau / atebolrwydd	**(918)**	-	**690**	-	**(228)**	-
Balans ar 31 Mawrth	**1,376**	-	**(1,034)**	-	**342**	-

Asedau'r cynllun

	2020 £000	2019 £000
Asedau twf	**1,552**	-
Bondiau	**172**	-
Cyfanswm	**1,724**	-

Amcangyfrifir bod y symiau uchod yn cael eu trosglwyddo o adran RPS Network Rail i adran y TrC mewn cysylltiad â'r gweithwyr a drosglwyddir. Bydd y symiau trosglwyddo terfynol yn cael eu cadarnhau gan actiwari'r cynllun yn ystod 2020/21.

Rhagdybiaethau actiwaraidd

Dyma'r prif dybiaethau actiwaraidd ar y dyddiad adrodd (wedi'u mynegi fel cyfartaleddau pwysedig)

	2020 £000	2019 £000
Cyfradd ddisgownt ar 31 Mawrth	**2.15%**	-
Chwyddiant prisiau	**2.5%**	-
Cynnydd cyflog yn y dyfodol	**2.5%**	-
Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol	**1.8%**	-

Mae'r tybiaethau sy'n ymwneud â hirhoedledd sy'n sail i rwymedigaethau'r pensiwn ar ddyddiad y fantolen yn seiliedig ar dablau marwolaethau actiwaraidd safonol ac maen nhw'n cynnwys lwfans ar gyfer gwella hirhoedledd yn y dyfodol. Mae'r tybiaethau'n cyfateb i ddisgwyl i rywun 65 oed fyw am nifer o flynyddoedd fel a ganlyn:

- Pensiynwyr presennol 65 oed: 21.6 o flynyddoedd (dyn)
- Ymddeol yn y dyfodol ar ôl cyrraedd 65: 22.9 o flynyddoedd (dyn)

Dadansoddiad o sensitifrwydd

Mae cyfrifo'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau a nodir uchod. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sut byddai'r effaith ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod adrodd wedi cynyddu (gostyngiad) o 0.25 y cant yn sgil newid yn y tybiaethau perthnasol.

	2020 £000	2019 £000
Gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt	**124**	-
Cynnydd yn y gyfradd ddisgownt	**(117)**	-
Gostyngiad mewn chwyddiant prisiau	**(117)**	-
Cynnydd mewn prisiau	**124**	-
Gostyngiad cyflog yn y dyfodol	**(38)**	-
Cynnydd cyflog yn y dyfodol	**39**	-

Wrth brisio atebolrwydd y gronfa bensiwn, gwnaed tybiaethau ynghylch marwoldeb fel y nodwyd uchod. Pe bai disgwyliad oes wedi cael ei newid i dybio bod holl aelodau'r gronfa'n byw am flwyddyn yn hwy, byddai gwerth yr atebolrwydd a adroddwyd ar 31 Mawrth 2020 wedi cynyddu £103,000.

Mae'r materion sensitif uchod wedi'u selio ar ganlyniadau'r cyfrifiadau atebolrwydd aelodaeth llawn a gyflawnwyd gan dîm cynghori actiwaraidd Ymddiriedolwr y RPS ar 31 Rhagfyr 2018 i bennu cyfraddau'r cyfraniadau cychwynnol ar gyfer yr adran newydd. Disgwylir cynnal prisiad actiwaraidd llawn cyntaf y cynllun ar 31 Rhagfyr 2020. Er nad yw'r dadansoddiad yn ystyried dosbarthiad llawn y llifoedd arian a ddisgwylir o dan y cynllun, mae'n rhoi brasamcan o sensitifrwydd y tybiaethau a ddangosir.

Cyllid

Mae'r Cwmni'n disgwyl talu £59,000 mewn cyfraniadau i'w gynlluniau buddion diffiniedig yn 2020/21. Hyd cyfartalog pwysedig y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod adrodd yw 22 mlynedd.

17. Offerynnau ariannol

Gwerthoedd teg offerynnau ariannol

Nid oes unrhyw wahaniaethau rhwng gwerthoedd teg pob dosbarth o asedau ariannol ac atebolrwydd ariannol a'u symiau cario yn y datganiad am y sefyllfa ariannol.

Risg credyd

Nid yw TrC yn wynebu llawer o risg o ran credyd gan fod y rhan fwyaf o'i weithgarwch yn cael ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru, a dderbynnir ymlaen llaw, a gweddill ei weithgarwch yn ymwneud â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Caiff risg credyd ei fonitro'n rheolaidd.

Mae swm cario'r symiau derbyniadwy drwy fasnach yn cynrychioli'r credyd mwyaf posibl. Felly, ar ddyddiad y datganiad am y sefyllfa ariannol, roedd y risg credyd mwyaf yn £2,468,000 (2019: £1,310,000).

Nid oedd unrhyw symiau derbyniadwy heb gael eu talu ar y dyddiad yr oeddynt yn ddyledus ar ddim un o'r dyddiadau adrodd.

Oherwydd natur y symiau derbyniadwy, ni ystyrir bod angen darparu ar gyfer colledion credyd disgwyliedig.

Risg hylifedd

Mae TrC yn monitro ei gyfalaf gweithio'n rheolaidd i wneud yn siŵr bod digon o arian wedi cael ei dynnu i lawr o Lywodraeth Cymru ar gyfer ei atebolrwydd pan fyddan nhw'n ddyledus.

18. Prydlesi

Prydlesi fel prydleswr

Prydlesi gweithredu

Mae gan TrC brydles i Keolis Amey Wales Cymru Limited o ran asedau Llinellau Craidd y Cymoedd. Dechreuodd y brydles hon ar 28 Mawrth 2020. Mae hyn wedi cael ei ystyried yn brydles weithredol gan fod hyd y brydles gryn dipyn yn llai na bywyd economaidd defnyddiol yr asedau.

Mae'r les am £2,000,000 y flwyddyn ac mae'n dod i ben ar 16 Hydref 2033.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd £23,000 ei gydnabod fel incwm rhent gan y Cwmni.

Prydlesi fel prydlesai

Mae gan y Cwmni brydlesi eiddo heb eu gwarantu mewn dau adeilad yng Nghaerdydd a Wrecsam. Mae eiddo Caerdydd yn cynnwys dwy brydles, y ddwy yn dod i ben yn ystod 2020/21. Y gyfradd ddisgownt sy'n berthnasol i'r asedau hyn yw cyfradd fenthyca'r llywodraeth o 3.5%. Daw prydles bresennol Wrecsam i ben hefyd yn 2020/21, ac roedd o dan 12 mis ar ddyddiad mabwysiadu IFRS 16; felly mae'r Cwmni wedi dewis peidio â chydnabod asedau ac atebolrwydd ynghylch y brydles hon.

Hefyd, mae gan y cwmni nifer o brydlesi gwerth isel o ran offer swyddfa.

Asedau hawl i ddefnyddio

Cyflwynir asedau hawl i ddefnyddio sy'n gysylltiedig ag eiddo prydles fel eiddo, offer a chyfarpar:

	Tir ac adeiladau £000	Cyfanswm £000
Balans ar 1 Ebrill 2019	**256**	256
Ychwanegiadau at asedau hawl i ddefnyddio	**34**	34
Tâl dibrisiant am y flwyddyn	**(141)**	(141)
Balans ar 31 Mawrth 2020	**149**	149

Symiau a gydnabyddir mewn elw neu golled

Mae'r symiau canlynol wedi cael eu cydnabod mewn elw neu golled y mae'r Cwmni yn brydlesai ar eu cyfer:

	£000
2020 - Prydlesi yn unol â IFRS 16	
Elfen llog ar daliadau atebolrwydd prydles	7
Treuliau sy'n ymwneud â phrydlesi tymor byr (ac eithrio prydlesi tymor byr asedau gwerth isel)	14
Treuliau sy'n ymwneud â phrydlesi asedau gwerth isel	7
	28

	£000
2019 - Prydlesi gweithredol o dan IAS 17	
Cost prydles	94
	94

Ar 31 Mawrth 2020, roedd y Grŵp wedi ymrwymo i brydlesi tymor byr gyda chyfanswm ymrwymiad gros o £4,000 (2019: £261,000) ac mae ganddo gytundebau i brydlesu gyda'r prydlesi sydd heb ddechrau eto, sef cyfanswm o £18,113,000 (2019: £nil) y mae £18,033,000 ohono'n ymwneud â'r brydles 15 mlynedd ar gyfer y pencadlys newydd ym Mhontypridd. Disgwylir i hwnnnw ddechrau ar ddiwedd 2020, ac mae £80,000 yn ymwneud â phrydles swyddfa newydd 3 blynedd yn Wrecsam.

Atebolrwydd prydles

	2020 £000	2019 £000
Cyfran gyfredol atebolrwydd y brydles	**125**	-
Cyfran anghyfredol o atebolrwydd y brydles	**-**	-
	125	-

19. Ymrwymiadau cyfalaf

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, ymrwymodd TrC i gontractau i brynu eiddo, offer a chyfarpar am £151,000,000 (2019: £53,717,000). Disgwylir y bydd yr ymrwymiadau hyn yn cael eu setlo yn y flwyddyn ariannol nesaf.

20. Partïon cysylltiedig

Manylion partïon cysylltiedig y mae TrC wedi delio â nhw

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd TrC incwm grant refeniw gan Lywodraeth Cymru, sef £199,589,000 (2019: £102,671,000), a oedd yn cynnwys grant pasio-trwodd o dan Gytundeb Grant y Gwasanaethau Rheilffyrdd, sef £172,769,000 (2019: £88,290,000). Yn ogystal â hyn, derbyniodd TrC arian grant cyfalaf o £80,919,000 (2019: £49,699,000), a oedd yn cynnwys arian pasio-trwodd o dan Gytundeb Grant y Gwasanaethau Rheilffyrdd, sef £13,877,000 (2019: £17,276,000) a gwariant ar asedau trydydd parti o £1,991,000 (2019: £4,082,000). Cafodd TrC grant heb fod yn arian parod hefyd ynghylch caffael Llinellau Craidd y Cymoedd o £469,800,000 (2019: £nil) – gweler nodyn15. Wedi'i gynnwys mewn incwm gohiriedig mae dyledwr o Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chostau grant adnoddau a gafwyd ond nid yw'r cyllid wedi dod i law eto ar 31 Mawrth 2020 sef £342,000 (2019: £1,206,000 credydwr) a dyledwr am gostau grant cyfalaf a gafwyd ond nid yw'r cyllid wedi dod i law eto o £31,898,000 (2019: £2,327,000 credydwr).

Yn ogystal, roedd TrC yn cydnabod incwm gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau ymgynghori nad oedden nhw'n cael eu hariannu gan grant, a'r swm ar gyfer hynny oedd £2,176,000 (2019: £1,294,000). Ar 31 Mawrth 2020, roedd TrC yn ddyledus o £1,681,000 (2019: (£982,000) gan Lywodraeth Cymru am y gwasanaethau ymgynghori hyn a ddarparwyd, ac mae hwn wedi'i gynnwys yn yr adran dyledwyr masnach. Mae gan TrC hefyd incwm cronedig ar gyfer gwasanaethau prosiect a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru ond nad ydyn nhw wedi cael eu hanfonebu eto, a'r swm hwnnw yw £635,000 (2019: £475,000).

Mae TrC wedi gwneud pryniadau gan Lywodraeth Cymru, a'r cyfanswm ar gyfer hynny oedd £500,000 (2019: £1,320,000) i Lywodraeth Cymru am wasanaethau yr ail-godir amdanyn nhw (costau archwilio mewnol a chostau secondai yn bennaf) ac mae'r balans sy'n daladwy ar ddyddiad y datganiad am y sefyllfa ariannol yn £472,000 yn ddyledus i Lywodraeth Cymru (2019: £8,000 credyd yn ddyledus gan Lywodraeth Cymru).

Trafodion gyda'r prif bersonél rheoli

Tybir bod y prif bersonél rheoli yn cynnwys cyfarwyddwyr statudol y Cwmni (y dangosir eu taliadau yn nodyn 4) ac aelodau eraill o'r tîm gweithredol. Mae'r iawndal i'r prif bersonél rheoli fel a ganlyn:

	2020 £000	2019 £000
Taliadau'r prif reolwyr yn cynnwys costau nawdd cymdeithasol	**1,074**	501
Cyfraniadau'r cwmni at gynlluniau pensiwn prynu arian	**75**	45
Taliadau i drydydd partïon yng nghyswllt secondeion	**354**	422
Iawndal am golli swydd	**-**	16
	1,503	984

21. Asedau Amodol

Ar hyn o bryd mae CThEM yn cynnal adolygiad o adennill TAW ôl-weithredol arfaethedig gan Trafnidiaeth Cymru ar ôl cwblhau strwythur gweithredol rheolwr seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd a gweithgareddau trawsnewid. Mae'r ad-daliad TAW posibl yn ymwneud â mewnbwn TAW ar weithgareddau sy'n ymwneud â throsglwyddo asedau Llinellau Craidd y Cymoedd a gwaith paratoi sy'n ymwneud â thrawsnewid yr asedau hyn. Petai CThEM yn cytuno ar hyn, mae'r ad-daliad TAW posibl i Trafnidiaeth Cymru oddeutu £13.6m yn ymwneud â TAW a gafwyd yn ystod blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20.

Oherwydd lefel yr ansicrwydd ar ddyddiad y fantolen, nid yw TrC wedi cydnabod ased yn y datganiadau ariannol hyn a bydd yn cydnabod unrhyw ad-daliad yn ystod 2020/21 pan ddisgwylir y bydd yr adolygiad wedi cael ei gwblhau. Bydd unrhyw ad-daliad TAW yn cael ei adlewyrchu yng nghylch gwaith Llywodraeth Cymru yn ystod 2020/21.

22. Newid mewn polisïau cyfrifyddu sylweddol

Mae'r Cwmni wedi defnyddio IFRS 16 gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol wedi'i addasu gyda dull effaith gronnol.

Nid yw'r gofynion datgelu yn IFRS 16 wedi cael eu cymhwyso i wybodaeth gymharol.

Roedd y Cwmni wedi dosbarthu prydlesi gweithredol neu ariannol yn flaenorol yn seiliedig ar ei asesiad a oedd y brydles yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a'r gwobrwyo sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr ased sylfaenol i'r Cwmni. Dim ond prydlesi cyllid oedd wedyn yn cael eu cydnabod ar y fantolen.

Prydlesi gweithredol o dan IAS 17

Wrth drosglwyddo, ar gyfer prydlesi gweithredol o dan IAS 17, cafodd atebolrwydd prydles eu mesur ar sail gwerth presennol y taliadau prydles sy'n weddill, gyda disgownt ar gyfradd fenthyca gynyddrannol y Cwmni ar 1 Ebrill 2019.

Mesurwyd asedau hawl i ddefnyddio yn ôl eu swm cario fel pe bai IFRS 16 wedi cael ei gymhwyso ers y dyddiad cychwyn, gan ddefnyddio cyfradd fenthyca cynyddrannol y Cwmni ar ddyddiad y cais cychwynnol.

Defnyddiodd y Cwmni nifer o drefniadau hwylus ymarferol wrth gymhwyso IFRS 16 i lesoedd a ddosbarthwyd yn flaenorol fel prydlesi gweithredol o dan IAS 17. Yn benodol, y rhain oedd:

- nad oedd yn cydnabod asedau ac atebolrwyddau hawl i ddefnyddio ar gyfer prydlesi y mae cyfnod y brydles yn dod i ben o fewn 12 mis i ddyddiad y cais cychwynnol;
- nad oedd yn cydnabod asedau ac atebolrwydd hawl i ddefnyddio ar gyfer prydlesi asedau gwerth isel (e.e. llungopiwyr);
- eithrio costau uniongyrchol cychwynnol o fesur yr ased hawl i ddefnyddio ar ddyddiad y cais cychwynnol.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi effaith feintiol mabwysiadu IFRS 16 ar ddatganiadau ariannol y Cwmni ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.

	Effaith mabwysiadu IFRS 16		
	31 Mawrth 2019 Fel y nodwyd yn flaenorol £000	Addasiadau £000	1 Ebrill 2019 ar ôl mabwysiadu IFRS 16 £000
Y Fantolen			
Eiddo, offer a chyfarpar	**31,593**	257	**31,850**
Rhagdaliad rhent	**4**	(4)	**-**
Atebolrwydd prydles (cyfredol)	**-**	(106)	**(106)**
Atebolrwydd prydles (anghyfredol)	**-**	(147)	**(147)**
Enillion Wrth gefn	**653**	-	**653**

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r gwahaniaeth rhwng ymrwymiadau'r brydles weithredol a ddatgelir o dan IAS 17 ar 31 Mawrth 2019 yn natganiadau ariannol y Cwmni ac atebolrwydd y brydles a gydnabyddir ar 1 Ebrill 2019:

	1 Ebrill 2019 £000
Ymrwymiadau prydles weithredol ar 31 Mawrth 2019 fel y datgelir o dan IAS 17	261
Addasiad ar gyfer rhagdalu rhent (gan gynnwys mewn ymrwymiad ond a dalwyd ym mis Mawrth)	11
Disgownt gan ddefnyddio'r gyfradd fenthyca gynyddrannol ar 1 Ebrill 2019	(8)
Eithriad cydnabod ar gyfer prydlesi sydd â llai na 12 mis o gyfnod y brydles wrth drosglwyddo	(11)
Rhwymedigaethau prydles a gydnabyddir ar 1 Ebrill 2019	**253**

Mae'r eitemau cysoni yn cynnwys eithriad cydnabod a gymerwyd ar gyfer prydles eiddo Wrecsam a oedd â llai na 12 mis o gyfnod pontio, yn ogystal ag addasiad i'w ychwanegu'n ôl mewn rhagdaliad rhent ar gyfer Ch1 2019/20.

23. Prif riant-gwmni a rhiant-gwmni grŵp mwy

Mae TrC yn is-gorff sy'n dod o dan ofal Gweinidogion Cymru, a ystyrir hefyd yn brif riant-endid. Mae canlyniadau TrC wedi'u cynnwys yng nghyfrifon blynyddol cyfunol Llywodraeth Cymru, sydd ar gael o'r cyfeiriad cofrestredig, sef Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu o'r wefan yn https://llyw.cymru/cyfrifon-cyfunol-blynyddol-llywodraeth-cymru.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES